

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

YMCHWIL ANSODDOL DILYNOL AR AROLWG STAFF A RHANDDEILIAID *Medi - Hydref 2008*

Adroddiad Ymchwil Rhanddeiliaid

Paratowyd ar gyfer: **Llywodraeth Cynulliad Cymru -
CAEC (OCSRO)**

Cyswllt: Ian Jones

Paratowyd gan: **Beaufort Research**

Cyswllt yr Asiantaeth: Fiona McAllister

2 Museum Place
Caerdydd
CF10 3BG

Ffôn: (029) 2037 8565

Ffacs: (029) 2037 0600

E-bost : fiona@beaufortresearch.co.uk

Gwefan: www.beaufortresearch.co.uk

(h) Beaufort Research Cyf 2008

BQ2843 / FM / 22^{ain} Rhag 2008



Crynodeb Gweithredol	3
 1. Cyflwyniad	 7
1.1 Cefndir	7
1.2 Nodau ac Amcanion	8
1.3 Methodoleg Ymchwil	9
 2. Y Cyd-destun: Cydberthynas Rhanddeiliad â Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad)	 13
2.1 Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol ar y Gydberthynas â Llywodraeth Cynulliad Cymru	13
2.2 Delio â Llywodraeth Cynulliad Cymru	14
2.3 Anawsterau Canfyddedig o Ryngweithio â Llywodraeth y Cynulliad....	17
2.4 Awgrymiadau ar Wella'r broses o Ryngweithio â Rhanddeiliaid	23
 3. Canolbwyntio ar Ddinasyddion.....	 25
3.1 Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol ar Ganolbwyntio ar Ddinasyddion	25
3.2 Diffiniadau o Ganolbwyntio ar Ddinasyddion.....	26
3.3 Canfyddiadau o'r Lefel o Ganolbwyntio ar Ddinasyddion a geir o fewn Llywodraeth y Cynulliad.....	28
3.4 Enghreifftiau o Arfer Da ac Arfer Gwael par. Canolbwyntio ar Ddinasyddion	30
3.5 Rhwystrau at Ganolbwyntio ar Ddinasyddion o fewn Llywodraeth y Cynulliad ac Atebion Posibl.....	35
 4. Gweithio "Cydgysylltiedig" yn Llywodraeth y Cynulliad	 37
4.1 Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol ar Weithio "Cydgysylltiedig".....	37
4.2 Beth yw Gweithio "Cydgysylltiedig"?	38
4.3 Canfyddiadau o'r Graddau o Weithio "Cydgysylltiedig" yn Llywodraeth y Cynulliad	39
4.4 Enghreifftiau o Arfer Da ac Arfer Gwael par. Gweithio "Cydgysylltiedig"	40
4.5 Rhwystrau Gweithio "Cydgysylltiedig" o fewn Llywodraeth y Cynulliad ac Atebion Posibl.....	41

5.	Cael gwybodaeth am Lywodraeth y Cynulliad	44
5.1	Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol ar Gael Gwybodaeth	44
5.2	Pa Wybodaeth y mae Rhanddeiliaid am ei chael am Lywodraeth y Cynulliad?	45
5.3	Sianeli Gwybodaeth Presennol a Dewisol am Lywodraeth y Cynulliad	46
5.4	Pa mor Hawdd neu Anodd yw hi i Gael y Wybodaeth Ofynnol	48
5.5	Rhwystrau at Gael Gwybodaeth ac Atebion Posibl.....	51
6.	Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad.....	54
6.1	Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol ar yr Ymgynghoriad	54
6.2	Canfyddiadau ar Broses Ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad.....	54
6.3	Awgrymiadau ar gyfer Gwella'r Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid	57
<i>Atodiad A:</i>	<i>Llythyr Rhagarweiniol.....</i>	<i>59</i>
<i>Atodiad B:</i>	<i>Canllaw Pwnc</i>	<i>60</i>
<i>Atodiad C:</i>	<i>Diffiniad Llywodraeth y Cynulliad o Ganolbwyntio ar Ddinasyddion</i>	<i>61</i>
<i>Atodiad CH:</i>	<i>Diffiniad Llywodraeth y Cynulliad o Ymgynghoriad</i>	<i>62</i>

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cefndir a Methodoleg

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gael gwybodaeth gynhwysfawr, ddibynnol ac amserol gan amrywiaeth o ffynonellau nid yn unig ar pa mor dda y caiff gwasanaethau cyhoeddus lleol eu darparu, ond hefyd safon perfformiad y sefydliad ei hun. Er mwyn deall beth yw cryfderau a gwendidau Llywodraeth y Cynulliad fel sefydliad, mae angen iddi gael barn staff, cwsmeriaid a dinasyddion a dod â'r safbwyntiau amrywiol hyn ynghyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o berfformiad ac er mwyn cyfeirio gwelliant.

Yn 2008 nododd Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol (OCSRO) bod sawl mater wedi codi o Arolwg Staff 2008 a'r Arolwg Rhanddeiliaid a gynhelir bob dwy flynedd y mae angen ymchwilio iddynt drwy ymchwil ansoddol, sef:

1. Canolbwyntio ar ddinasyddion (mater i staff a rhanddeiliaid)
2. Y graddau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn "gydgysylltiedig" (staff a rhanddeiliaid)
3. Arweinyddiaeth / rheolaeth (staff yn unig)
4. Cael gwybodaeth am Lywodraeth y Cynulliad (rhanddeiliaid yn unig)

Felly, comisiynwyd Beaufort Research gan OCSRO i gynnal astudiaeth ansoddol ddilynol ymysg sampl o staff a rhanddeiliaid ledled Cymru. Nod yr astudiaeth oedd archwilio pob thema a nodwyd yn fanylach gyda'r gynulleidfa berthnasol, er mwyn ategu'r wybodaeth a gafwyd drwy'r arolygon meintiol a gwella dealltwriaeth Llywodraeth y Cynulliad o'r rhesymau pam y lleisiwyd y safbwyntiau hynny.

Casglwyd safbwyntiau drwy gyfres o 22 o drafodaethau grŵp ffocws bach, yn cynnwys 12 o sesiynau gyda staff mewn chwech o swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad ledled Cymru, a 10 sesiwn gyda rhanddeiliaid ledled Cymru. Hefyd cynhaliwyd tri chyfweliad personol manwl (un gydag aelod o staff a dau gyda rhanddeiliaid). Recriwtiwyd staff ar hap o bob rhanbarth o gronfa ddata a ddarparwyd gan OCSRO, tra recriwtiwyd rhanddeiliaid o gronfa ddata o'r rheini a chanddynt safbwyntiau cadarnhaol neu negyddol ar rai o'r materion dan sylw, wedi'u cymryd o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol rhagflaenol a'r rhai a oedd yn fodlon cael eu galw ar gyfer ymchwil bellach. Cynhaliwyd y trafodaethau rhwng 30^{ain} Medi a 9^{fed} Hydref 2008.

Y Canfyddiadau Allweddol

Cyberthynas â Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Ar y cyfan, cymysg oedd y safbwyntiau ar sut brofiad ydyw i ddelio â Llywodraeth y Cynulliad.
- Ystyriwyd mai'r brif agwedd gadarnhaol o ran delio â Llywodraeth y Cynulliad oedd safon ei staff.
- Codwyd sawl mater ynghylch anhawster i ryngweithio â Llywodraeth y Cynulliad. Y prif faterion a nodwyd yn ddigymell oedd:

- o diffyg gweithio cydgysylltiedig (y cyfeirir ato'n aml fel cyfathrebu gwael neu ddarniog neu seilos);
 - o diffyg dealltwriaeth o sefydliadau rhanddeiliad a'u hanghenion;
 - o amharodrwydd canfyddedig, ar adegau, i wneud penderfyniadau;
 - o ffocws canfyddedig ar Gaerdydd, yn arwain at ddiffyg dealltwriaeth o Gymru wledig.
- Roedd rhanddeiliaid a oedd yn delio â'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS) yn unig neu'n bennaf yn arbennig o negyddol ynghylch delio â Llywodraeth y Cynulliad ac roeddent yn teimlo bod y sefyllfa wedi gwaethygu dros y blynnyddoedd diwethaf

Safbwyntiau ar Ganolbwyntio ar Ddinasyddion

- Rhai o'r elfennau allweddol o 'ganolbwyntio ar ddinasyddion' a nodwyd gan rhanddeiliaid oedd:
 - o rhoi ffocws ar anghenion pobl (nid drwy ddechrau o systemau neu wasanaethau);
 - o sicrhau bod dinasyddion yn ganolog i weithgareddau - felly gweithredu o'r gwaelod i fyny, nid o'r brig i lawr;
 - o darparu gwasanaeth o safon;
 - o prosesau da o gyfathrebu / ymgynghori / ymgysylltu â dinasyddion;
 - o mae angen i wasanaethau fod yn hygyrch.
- Roedd y rhanddeiliaid yn unfrydol o'r farn ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru ganolbwyntio ar ddinasyddion
- Roedd y safbwyntiau ar y graddau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio ar ddinasyddion ar hyn o bryd ymhell o fod yn gadarnhaol, er bod rhai rhanddeiliaid o'r farn bod y sefydliad yn ceisio gwella mewn perthynas â hyn
- Roedd rhanddeiliaid yn ei chael yn haws nodi enghreifftiau gwael o ganolbwyntio ar ddinasyddion nag enghreifftiau da. Er bod yr ystod o enghreifftiau a roddwyd gan gyfranogwyr yn amrywiol iawn (gan adlewyrchu'r ystod o gefndiroedd a geir yn y sampl), nodwyd ymgynghori fel un thema gyffredin o arfer gwael
- Roedd llawer o'r rhwystrau a nodwyd gan rhanddeiliaid a oedd yn atal canolbwyntio ar ddinasyddion o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adlewyrchu'r anawsterau a nodwyd yn ddigymell yn gynharach yn y drafodaeth. Ymysg y rhwystrau allweddol roedd:
 - o diffyg cyfathrebu;
 - o biwrocratiaeth;
 - o diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gan ddinasyddion;
 - o diffyg gweithio cydgysylltiedig;
 - o diffyg dealltwriaeth o anghenion rhanbarthol ac anhawster i gael gafael ar Lywodraeth y Cynulliad neu wybod gyda phwy y dylent siarad

Safbwyntiau ar weithio cydgysylltiedig

- Pan ofynnwyd i randdeiliaid ddiffinio gweithio "cydgysylltiedig", gwelwyd rhai elfennau cyffredin allweddol yn eu diffiniadau, sef:
 - cydweithio / gweithio mewn partneriaeth (yn fewnol o fewn Llywodraeth y Cynulliad ac yn allanol gyda sefydliadau rhanddeiliaid);
 - pennu nod cyffredin a sicrhau dulliau cyfathrebu da gyda phob parti sydd â diddordeb, wedi'i ategu ag ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o'r hyn yr oedd eraill yn ei wneud
- Cafwyd safbwyntiau negyddol bron yn gyffredinol gan randdeiliaid ar y graddau y ceir gweithio cydgysylltiedig o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y prif rwystrau i weithio cydgysylltiedig a nodwyd oedd:
 - meddylfryd seilo adrannau;
 - cyfathrebu gwael;
 - diwylliant 'ni a nhw', a diffyg dealltwriaeth o sefydliadau rhanddeiliad neu eu blaenoriaethau;
 - diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o adrannau o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru;
 - ffocws canfyddedig ar Gaerdydd, sy'n arwain at golli ymreolaeth ranbarthol;
 - biwrocratiaeth a gwleidyddiaeth

Safbwyntiau ar gael gwybodaeth

- Pan ofynnwyd i randdeiliaid pa wybodaeth yr oeddent am ei chael gan Lywodraeth y Cynulliad, nodwyd amrywiaeth eang o ofynion gwybodaeth. Fodd bynnag, gwelwyd rhai themâu cyffredin:
 - manylion cyswllt staff / strwythur trefniadaeth;
 - strategaeth neu gyfeiriad teithio;
 - gwybodaeth meincnodi;
 - adborth ar ganlyniadau ymgynghoriadau / adolygiadau
- Nododd rhanddeiliaid hefyd y dylai pob darn o wybodaeth fod yn amserol, yn glir ac yn hawdd ei ddeall
- Y brif sianel a ddefnyddir ar hyn o bryd gan bron bob rhanddeiliad i gael gwybodaeth gan ac am Lywodraeth y Cynulliad yw'r wefan. Er hyn, safbwyntiau negyddol iawn a gafwyd ar y wefan yn gyffredinol, yn bennaf oherwydd yr ystyriwyd bod ei chyfleuster chwilio yn wael a'i bod yn anodd ei llywio. Felly, ymddengys fod gwella'r wefan, sef y prif adnodd gwybodaeth a ddefnyddir gan randdeiliaid, yn flaenoriaeth
- Pan ofynnwyd sut yr hoffent gael gwybodaeth, roedd y rhan fwyaf yn fodlon ar y sefyllfa bresennol (er iddynt alw am welliannau i'r wefan). Fodd bynnag, hoffai lleiafrif sylweddol gael cyswllt mwy personol, sy'n gysylltiedig â'r galw am ragor o gyfeiriadau at gysylltiadau perthnasol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, os byddai angen help arnynt

- Cafwyd safbwyntiau cymysg ar ba mor hawdd neu anodd y mae i gael gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac roedd y safbwyntiau yn amrywio yn ôl lefel y rhanddeiliad, y math o sefydliad a'r adran(nau) y buont yn delio â hwy. Nid oedd y rheini ar lefel uwch yn dueddol o gael unrhyw anawsterau, ond roedd y rhanddeiliaid hynny ar lefel is yn dueddol o gael mwy o anawsterau gan nad oeddent yn cael cysylltiadau mor bersonol
- Ni chafwyd problemau gyda gwybodaeth a anfonwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru - ystyriwyd bod anawsterau'n codi pan oedd gan randdeiliaid ymholiadau neu pan oedd angen iddynt gysylltu am y tro cyntaf. Yn yr ail sefyllfa ystyriwyd mai'r prif rwystrau oedd y wefan, diwylliant y gwasanaeth sifil (nid ystyriwyd ei fod yn canolbwyntio ar gwsmeriaid) a pheidio â gwybod pwy y dylid cysylltu â hwy os byddai angen gwneud hynny
- Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn gwerthfawrogi'r wybodaeth ddwyieithog a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad yn fawr a dim ond rhai cyfranogwyr oedd yn anghytuno â hynny

Safbwyntiau ar ymarferion ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Cafwyd profiad eang o ymgynghoriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar draws y gweithdai - roedd pob rhanddeiliad wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau o ryw fath, yn bennaf wrth ymateb i bapurau drafft
- Cafwyd safbwyntiau cymysg ar ymgynghoriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda rhanddeiliaid - er y cymeradwywyd y cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisiau, roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o'r farn bod diffygion yn y broses bresennol
- Teimlwyd mai gwendidau ymgynghoriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd:
 - amheuaeth ynghylch eu gwerth - a ydynt yn ystyrion neu a yw'r penderfyniadau wedi'u gwneud eisoes?;
 - diffyg adborth i gyfranogwyr;
 - nid yw gweithgareddau ymgynghori'n cael eu cydgysylltu'n ddigonol;
 - (i rai) gormod o ymgynghori;
 - problemau o ran amseru a phroblemau gyda chynnwys / cynllun / y math o iaith a ddefnyddir mewn dogfennau

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir

Er mwyn datblygu a darparu gwasanaeth cyhoeddus effeithiol mae angen i Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) gael gwybodaeth gynhwysfawr, ddibynnol ac amserol nid yn unig ar pa mor dda y caiff gwasanaethau cyhoeddus lleol eu darparu, ond hefyd safon perfformiad y sefydliad ei hun.

Er mwyn bod yn ystyrlon, mae angen i'r wybodaeth hon ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau a chynnwys safbwyntiau'r bobl a'r sefydliadau y mae gan y Cynulliad fathau gwahanol o gydberthnasau â hwy. Er mwyn deall beth yw cryfderau a gwendidau Llywodraeth y Cynulliad fel sefydliad, mae angen iddi gael barn staff, cwsmeriaid a dinasyddion, ac mae angen iddi ddod â'r safbwyntiau amrywiol hyn ynghyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o berfformiad ac er mwyn cyfeirio'r gwelliant.

Yn 2008 roedd Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol (OCSRO) yn cyflwyno adroddiad ar Arolwg Staff 2008 a'r Arolwg Rhanddeiliaid a gynhelir bob dwy flynedd tua'r un pryd, a alluogodd OCSRO i nodi'r materion cyffredin y mae angen canolbwyntio arnynt.

Cydnabu bod angen ymchwilio ymhellach i sawl mater a gododd o'r arolygon drwy ymchwil ansoddol, sef:

(1) Canolbwyntio ar ddinasyddion

Cododd hyn o'r arolwg staff a'r arolwg rhanddeiliaid. Nid oedd 28% o'r **staff** o'r farn bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod dinasyddion wrth galon penderfyniadau a dywedodd 19% o **rhanddeiliaid** nad oedd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda hwy'n aml os o gwbl i gynnwys dinasyddion yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

(2) Y graddau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn "gydgysylltiedig"

Amlygwyd hwn fel maes i ymchwilio ymhellach iddo gan y ddau arolwg. Roedd 57% o **rhanddeiliaid** yn anghytuno â'r datganiad bod Llywodraeth y Cynulliad yn gydgysylltiedig, ac roedd 39% o **staff** yn anghytuno bod rhannau gwahanol o'r sefydliad yn cydweithio'n dda.

(3) Arweinyddiaeth/rheolaeth

Cafwyd y sgorau **staff** isaf ar gyfer hyder yn y Bwrdd Rheoli (25% yn gadarnhaol) a'r Bwrdd Rheoli yn rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad clir i'r sefydliad (27% yn gadarnhaol). Fodd bynnag, cafwyd sgorau uchel ar gyfer atebion ddim yn cytuno nac yn anghytuno ar gyfer y cwestiynau hyn (dros 40%), ac roedd cyfraddau'r ymatebion negyddol a chadarnhaol yn gymharol gyfartal. Mae hyn wedi codi'r angen i ymchwilio i'r modd y mae staff yn dehongli'r cwestiynau hyn ac i adolygu'r cwestiynau ar arweinyddiaeth / rheolaeth ar gyfer yr arolwg staff nesaf. Er mwyn llywio'r gwaith hwn, mae angen cael gwybod beth sy'n bwysig i staff mewn perthynas ag arweinyddiaeth/rheolaeth.

Hefyd, mae Bwrdd Rheoli Llywodraeth y Cynulliad wedi galw am waith ymchwil ar p'un a yw arweinwyr yn gymwys i wneud eu gwaith. I **rhanddeiliaid**, 'rhoi cyfeiriad strategol' oedd un o'r meysydd perfformiad gwanaf (sgôr cadarnhaol o 38%).

(4) Cael gwybodaeth am Lywodraeth Cynulliad Cymru

Dim ond o'r arolwg rhanddeiliaid y cododd y mater hwn. Dywedodd 27% o **rhanddeiliaid** eu bod yn cael trafferth cael gwybodaeth am Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Felly, comisiynwyd Beaufort Research gan OCSRO i gynnal astudiaeth ansoddol ddilynol ymysg y ddwy gynulleidfa: staff a rhanddeiliaid.

1.2 Nodau ac Amcanion

Nod cyffredinol yr astudiaeth ddilynol fel a ganlyn

Archwilio materion perthnasol yn fanylach gyda phob cynulleidfa, ategu'r wybodaeth a gafwyd drwy'r arolygon meintiol a gwella dealltwriaeth Llywodraeth y Cynulliad o pam y lleisiodd staff a rhanddeiliaid y safbwyntiau

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil i ateb y cwestiynau ymchwil penodol canlynol, yn seiliedig ar y materion allweddol uchod:

(1) Canolbwyntio ar ddinasyddion

- Sut y mae staff a rhanddeiliaid yn diffinio'r term 'canolbwyntio ar ddinasyddion'?
- Pa fath o gydberthnasau sydd gan staff gyda dinasyddion? e.e. a ydynt yn cysylltu â hwy'n uniongyrchol neu drwy asiantaethau?
- Pa ddulliau da o ganolbwyntio ar ddinasyddion sydd gan Lywodraeth y Cynulliad a pha ddulliau sy'n wael?
- Pa enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli o Lywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio ar ddinasyddion?
- Beth yw'r rhwystrau a wynebwr gan staff o ran canolbwyntio ar ddinasyddion wrth gyflawni eu swyddogaethau?
- Sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn?

(2) Y graddau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn "gydgysylltiedig"

- Beth mae 'gweithio cydgysylltiedig' yn ei olygu i staff a rhanddeiliaid?
- Pa fathau o weithio cydgysylltiedig sy'n bodoli yn Llywodraeth y Cynulliad?
- Pa ddulliau da o fod yn gydgysylltiedig sydd gan Lywodraeth y Cynulliad a pha ddulliau sy'n wael?
- Pa enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli lle mae Llywodraeth y Cynulliad yn gydgysylltiedig?
- Beth sy'n rhwystro Llywodraeth y Cynulliad rhag bod yn gydgysylltiedig?
- Sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn?

(3) Arweinyddiaeth / rheolaeth

- Beth sy'n bwysig i staff o ran arweinyddiaeth/rheolaeth?
- A oes gan arweinwyr y gallu a'r adnoddau i gyflawni eu swyddogaeth?
- Sut mae arweinwyr tîm yn rhyngweithio â'u staff?
- A yw arweinwyr tîm yn defnyddio briff arweinyddiaeth Llywodraeth y Cynulliad?

(4) Anhawster cael gwybodaeth am Lywodraeth y Cynulliad

- Pa wybodaeth am Lywodraeth y Cynulliad y mae rhanddeiliaid am ei chael?

- Sut y mae rhanddeiliaid yn mynd ati i gael y wybodaeth?
- Pa wybodaeth am Lywodraeth y Cynulliad sy'n hawdd / anodd ei chael?
- Beth yw'r rhwystrau y mae rhanddeiliaid yn eu hwynebu i gael gwybodaeth am Lywodraeth y Cynulliad?
- Sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn?
- Sut y gall Llywodraeth y Cynulliad sicrhau ei bod yn haws cael y wybodaeth?
- Sut yr hoffai rhanddeiliaid gael y wybodaeth?

1.3 Methodoleg Ymchwil

1.3.1 Cwmpas y Gwaith Ymchwil

Crynhair cwmpas y gwaith ymchwil isod:

		Cynulleidfa'r Ymchwil	
	Thema'r Ymchwil	Staff	Rhanddeiliaid
(1)	Canolbwyntio ar ddinasyddion	✓	✓
(2)	Y graddau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn 'gydgysylltiedig'	✓	✓
(3)	Arweinyddiaeth / rheolaeth	✓	
(4)	Cael gwybodaeth am Lywodraeth Cynulliad Cymru		✓

Canfyddiadau o elfen **rhanddeiliaid** yr astudiaeth yn unig a geir yn yr adroddiad hwn - ceir adroddiad ar wahân ar ganlyniadau staff. Mae trydydd adroddiad hefyd ar gael, yn cynnwys canlyniadau gan y ddau gynulleidfa ar y themâu cyffredin ac yn cynnwys cymhariaeth o safbwyntiau staff a rhanddeiliaid.

1.3.2 Dull Gweithredu Cyffredinol

Roedd angen cael dull gweithredu ansoddol er mwyn darparu'r ddealltwriaeth fanwl sydd ei hangen ac er mwyn bodloni'r amcanion uchod. Felly cynhaliwyd cyfres o 22 o drafodaethau grwpiau ffocws bach ymhlith sampl o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid ledled Cymru.

Ar ôl ystyried yn ofalus, penderfynwyd cadw pob cynulleidfa ar wahân, yn hytrach na chyfuno staff a rhanddeiliaid yn yr un trafodaethau, am y rhesymau canlynol:

- Teimlwyd y gallai cymysgu rhanddeiliaid a staff effeithio ar barodrwydd staff i siarad yn rhydd, ac felly y gallai effeithio ar ansawdd y data a geir. Gallai presenoldeb 'cwsmeriaid' (hyd yn oed cwsmeriaid adrannau eraill yn hytrach na'u hadrannau hwy) gyfyngu ar gyflogaion a'u gwneud yn llai parod i siarad yn agored ac yn onest am broblemau a materion y maent yn eu hwynebu sy'n effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt nag os byddent yn trafod y materion hyn mewn grwpiau sy'n cynnwys eu cymheiriaid yn unig.

- Hefyd, gallai cyfuno'r ddwy gynulleidfa yn yr un trafodaethau amharu ar ddeinameg y grŵp, oherwydd y gallai staff deimlo'n anghyfforddus os byddent yn clywed safbwyntiau negyddol rhanddeiliaid ynghylch sut y gweithredir y Cynulliad, a gallent fynd yn amddiffynol o ganlyniad i hynny.

Dewiswyd grwpiau bach, yn cynnwys targed o 4-5 cyfranogwr ym mhob trafodaeth, fel y dull gorau o gasglu data, yn hytrach na grwpiau ffocws llawn o 6-8 unigolyn. Teimlwyd bod grwpiau llai yn arwain at archwiliad llawn o'r materion ymhlith rhanddeiliaid a staff, ac fel arfer bydd gan unigolion lawer i'w ddweud (yn enwedig pan fydd llawer o'r cyfranogwyr yn uwch swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau). Hefyd, mae grwpiau bach yn rhoi mwy o amser i bob cyfranogwr leisio ei farn yn llawn. Mae'r ail reswm yn ymwneud ag ystyriaethau samplu ymarferol, sy'n codi o feintiau cyffredinol cyfyngedig ac argaeledd unigolion perthnasol o fewn y meysydd / gweithgorau cywir ac ati.

Ochr yn ochr â'r grwpiau bach, gynhaliwyd tri chyfweliad ychwanegol manwl a phersonol i gwmpasu'r sefyllfaoedd canlynol: pan fydd ymatebydd am gyfrannu mewn iaith sy'n wahanol i'r iaith a ddewiswyd gan weddill y cyfranogwyr yn y lleoliad hwnnw a phan fydd aelod o staff neu rhanddeiliad yn awyddus iawn i gymryd rhan ond na allai fod yn bresennol yn y grŵp bach ar yr amser a'r dyddiad.

1.3.3 Samplu

Nodwyd nifer o ystyriaethau samplu gan Lywodraeth y Cynulliad i'w hystyried wrth ddatblygu'r matrices samplu:

Ystyriaeth samplu	Rhanddeiliaid	Staff
Arfer da a rhwystrau Yn berthnasol i faes (1), (2) a (4)	- P'un a oedd gan rhanddeiliaid safbwyntiau cadarnhaol neu negyddol ynghylch canolbwyntio ar ddinasyddion; gweithio cydgysylltiedig; cael gwybodaeth am Lywodraeth y Cynulliad	- P'un a yw staff yn dod o feysydd gwaith sydd â safbwyntiau cadarnhaol neu negyddol ynghylch canolbwyntio ar ddinasyddion; gweithio cydgysylltiedig;
Gradd Yn berthnasol i'r 4 maes	- Uwch statws o fewn sefydliad allanol	- Gradd o fewn Llywodraeth y Cynulliad
Lleoliad Yn berthnasol i'r 4 maes	- Lleoliad y sefydliad	- Lleoliad y swyddfa
Adran Yn berthnasol i'r 4 maes	- Yr adran o Lywodraeth y Cynulliad y mae rhanddeiliaid yn cysylltu â hi amlaf	- Yr adran (yn cynnwys p'un a fu'n CNLC yn flaenorol)
Amser yn gweithio i Lywodraeth y Cynulliad neu'n delio â hi Yn berthnasol i'r 4 maes	- Hyd amser y mae rhanddeiliaid wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad	- Hyd gwasanaeth (os yw ar gael)
Ymchwil sy'n benodol i arweinwyr Dim ond yn berthnasol i faes (3)	Dd/B	- P'un a oes gan y cyfranogwr staff neu a yw wedi'i ddiffinio fel arweinydd.

Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl amrywiadau hyn a nodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac ar ôl trafodaethau gydag OCSRO ar gomisiynu, cytunwyd ar y dull canlynol o samplu:

- **Staff**

Haenlad **rhanbarthol** oedd i'r sampl ansoddol ar gyfer staff yn bennaf, a chynhaliwyd trafodaethau mewn chwech o swyddfeydd gwahanol Llywodraeth y Cynulliad ledled Cymru. Cynhaliwyd dwy drafodaeth ym mhob swyddfa; un ymhlith staff a nodwyd fel Arweinwyr ac un ymhlith staff nad ydynt yn Arweinwyr (defnyddiwyd y gwahaniaeth hwn fel prawf ar gyfer gradd, gan fod Arweinwyr yn dueddol o fod yn rheolwyr canol ac uwch). Roedd pob grŵp o Arweinwyr ac aelodau o staff nad ydynt yn Arweinwyr yn cynnwys cymysgedd o staff a ddewiswyd ar hap o adrannau a gynrychiolwyd yn y lleoliad hwnnw neu (ar gyfer swyddfeydd llai) o fewn y rhanbarth ehangach. Felly cafwyd staff o amrywiaeth o adrannau yn y sampl (rhaid â safbwyntiau mwy neu lai cadarnhaol ar themâu canolbwyntio ar ddinasyddion neu weithio cydgysylltiedig) yn ogystal ag amrywiaeth o gyflogaeion sydd wedi gwasanaethu o fewn Llywodraeth y Cynulliad am gyfnodau byrrach neu hirach.

- **Rhanddeiliaid**

Cynhaliwyd y gwaith samplu ar gyfer y gynulleidfa o randdeiliaid ychydig yn wahanol. Gellid nodi rhanddeiliaid sydd â safbwyntiau cadarnhaol neu negyddol ar y themâu allweddol sef canolbwyntio ar ddinasyddion, gweithio cydgysylltiedig a chael gwybodaeth gan Lywodraeth y Cynulliad (ac, yn bwysig, rhanddeiliaid a oedd wedi nodi y gellid ailgysylltu â hwy at ddibenion ymchwil bellach) o set data Arolwg Rhanddeiliaid 2008, felly roedd yn bosibl targedu unigolion sydd â safbwyntiau penodol. Felly'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd gyda'r gynulleidfa hon oedd canolbwyntio'r sampl ymchwil ansoddol ar **y rheini sydd â safbwyntiau cadarnhaol neu negyddol cryf ar o leiaf ddwy o'r tair thema allweddol** ym mhob rhanbarth. Dyma oedd prif haenlad y sampl.

Dewiswyd rhanddeiliaid ar hap o'r rhai oedd â safbwyntiau 'cadarnhaol' a 'negyddol' ac a oedd ar gael i ailgysylltu â hwy ym mhob rhanbarth, ar ôl haenlad pellach yn ôl lefelau uwch statws. Dosbarthwyd unigolion mewn categorïau Uchel / Canolig / Isel (a bennwyd o'u teitlau swyddi a gafwyd o'r Arolwg Rhanddeiliaid) a chymerwyd gofal i sicrhau na wahoddwyd unrhyw randdeiliaid ar lefel iau (h.y. yn y categori 'Isel') i gymryd rhan mewn trafodaethau a oedd yn cynnwys uwch swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau (yn y categori 'Uchel') ac i'r gwrthwyneb, oherwydd y teimlwyd y byddai hyn yn amharu ar ddeinameg y grwpiau. Felly roedd pob grŵp bach o randdeiliaid yn cynnwys amrywiaeth eang o fathau o sefydliadau.

1.3.4 Cynllun terfynol y sampl

Dangosir cynllun terfynol y sampl ar gyfer rhanddeiliaid isod:

Rhanddeiliaid			
Rhif y Grŵp	Lleoliad	Safbwyntiau	Uwch statws
1	Gogledd-ddwyrain Cymru (Llanelwy)	Cadarnhaol	Canolig / Isel
2		Negyddol	Uwch / Canolig
Dd/B		Negyddol (Cyfweliad Manwl)	Uwch / Canolig
3	Gogledd-orllewin Cymru (Caernarfon)	Cadarnhaol	Uwch / Canolig
4		Negyddol	Uwch / Canolig
Dd/B		Negyddol (Cyfweliad Manwl)	Canolig / Isel
5	Canolbarth Cymru (Y Drenewydd)	Cadarnhaol	Uwch / Canolig
6		Negyddol	Uwch / Canolig
7	De-orllewin Cymru (Caerfyrddin)	Cadarnhaol	Canolig / Isel
8		Negyddol	Uwch / Canolig
9	De-ddwyrain Cymru (Caerdydd)	Cadarnhaol	Uwch / Canolig
10		Negyddol	Canolig / Isel

1.3.5 Recriwtio

Ar ôl cytuno ar gynllun sampl gydag OCSRO, nododd Beaufort unigolion priodol o'r sampl o Arolwg Rhanddeiliaid 2008 a oedd yn cyfateb i'r manylebau gofynnol ac a oedd yn barod i ni ailgysylltu â hwy ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol.

Paratowyd a dosbarthwyd llythyr rhagarweiniol gan yr Ysgrifennydd Parhaol dros e-bost gan Beaufort i'r holl randdeiliaid yn y sampl, fel y cam recriwtio cyntaf. Roedd y llythyr hwn yn egluro pwysigrwydd yr ymchwil ddilynol a'r broses ymchwil, ac yn rhoi sicrwydd o gyfrinachedd. Caiff y llythyr hwn ei gynnwys yn Atodiad A.

Yn dilyn hyn ffoniodd Beaufort yr holl randdeiliaid yn y sampl ym mhob lleoliad i holi pa mor barod yr oeddent i gymryd rhan, p'un a oeddent ar gael ar y dyddiad a ddewiswyd a'u dewis iaith (rhoddwyd y cyfle i bob rhanddeiliad gymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg). Anfonwyd e-bost at bob un a oedd yn fodlon cymryd rhan i gadarnhau manylion amser a lleoliad y drafodaeth.

1.3.6 Manylion Ymchwil a Strwythur y Sesiynau

Cynhaliwyd grwpiau yn ystod y diwrnod gwaith yn swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad yn y chwe lleoliad a ddewiswyd ledled Cymru. Fe'u cynhaliwyd yn ystod y dydd yn hytrach na gyda'r nos er mwyn sicrhau'r presenoldeb gorau posibl. Dewiswyd swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad fel lleoliadau ar gyfer trafodaethau oherwydd eu bod yn gyfleus i staff a rhanddeiliaid. Bu staff OCSRO yn ddigon caredig i wneud trefniadau ar gyfer archebu ystafelloedd a lluniaeth.

Roedd y sesiynau'n para tuag awr a hanner ac fe'u cynlluniwyd i fod mor rhyngweithiol â phosibl, fel y gallai ymatebwyr ar bob lefel fod yn rhan o'r broses a helpu i sicrhau ei fod yn denu sylw a diddordeb cyfranogwyr. Roedd y trafodaethau'n llifo'n rhwydd a chawsant eu llywio gan uwch ymchwilydd ansoddol o Beaufort. Roeddent yn seiliedig ar ganllaw pwnc a gynlluniwyd gan Beaufort ac y cytunodd OCSRO arno (gweler Atodiad B).

Gwnaed gwaith maes ar gyfer rhanddeiliaid rhwng 1^{af} ac 8^{fed} Hydref 2008.

2. Y CYD-DESTUN: CYDBERTHYNAS RHANDDEILIAID Â LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Yn ystod rhan gyntaf y trafodaethau, archwiliwyd cysylltiadau rhanddeiliaid â Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn rhoi cyd-destun i safbwyntiau rhanddeiliaid ar y themâu allweddol dilynol.

Yn yr adran hon o'r sesiynau, trafodwyd canfyddiadau rhanddeiliaid o Lywodraeth y Cynulliad a'u profiad o ddelio â hi, ynghyd â safbwyntiau cyfranogwyr ar unrhyw faterion a oedd yn ei gwneud yn anodd rhyngweithio â'r sefydliad. Yn olaf, fe'u gwahoddwyd i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer gwella'r ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhyngweithio â rhanddeiliaid.

2.1 Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol ar y Gydberthynas â Llywodraeth y Cynulliad

- Pan ofynnwyd pa eiriau oedd yn dod i'w cof wrth feddwl am Lywodraeth y Cynulliad, roedd y disgrifiadau a roddwyd gan rhanddeiliaid 'cadarnhaol' (h.y. y rheini oedd wedi nodi bod ganddynt safbwyntiau cadarnhaol yn yr Arolwg Rhanddeiliaid blaenorol ar rai o'r themâu allweddol a archwiliwyd yn yr astudiaeth ansoddol) yn ymarferol ar y cyfan ac yn cyd-fynd â'r math o gydberthynas oedd ganddynt â'r sefydliad, e.e. yn ymwneud ag arian / cyllid neu wleidyddiaeth. Roedd y disgrifiadau gan rhanddeiliaid 'negyddol' yn dueddol o ganolbwyntio ar feysydd o anffodlonrwydd. Defnyddiwyd geiriau fel 'biwrocratiaeth', 'anhrefnus', 'anghysbell' a 'seilos'.
- Cafwyd safbwyntiau cymysg ar y cyfan ar sut brofiad ydyw i ddelio â Llywodraeth y Cynulliad. Er bod y rhanddeiliaid 'cadarnhaol' yn tueddu i fod yn fwy bodlon â'u rhyngweithio â Llywodraeth y Cynulliad ar y cyfan (gyda'r argraff bod ganddynt gydberthnasau agosach â swyddogion o fewn Llywodraeth y Cynulliad na'r rhanddeiliaid 'negyddol'), nodwyd llawer o'r un anawsterau â'r rhanddeiliaid 'negyddol'
- Ystyriwyd mai'r brif agwedd gadarnhaol o ran delio â Llywodraeth y Cynulliad oedd safon ei staff, yn enwedig ar lefel lleol, ac yn benodol y staff sy'n gweithio mewn swyddfeydd rhanbarthol yn hytrach nag ym Mharc Cathays
- Gwelwyd sawl ffactor y teimlwyd eu bod yn ei gwneud yn anoddach rhyngweithio â Llywodraeth y Cynulliad, ac ymhlith y rhai a nodwyd ar hap roedd:
 - o Diffyg gweithio cydgysylltiedig (yn aml cyfeirir at hyn fel cyfathrebu gwael neu ddarnio neu seilos)
 - o Diffyg dealltwriaeth o sefydliadau rhanddeiliad a'u hanghenion
 - o Amharodrwydd i wneud penderfyniadau ar adegau
 - o Ffocws ar Gaerdydd sy'n arwain at ddiffyg dealltwriaeth o Gymru wledig
- Roedd rhanddeiliaid a oedd yn delio â'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS) yn bennaf neu'n unig yn arbennig o negyddol ynghylch delio â Llywodraeth y Cynulliad ac roeddent yn teimlo bod y sefyllfa wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf ar ôl i ELWa uno â

Llywodraeth y Cynulliad a'r ailstrwythuro dilynol. Y newidiadau ar gyfer y sefyllfa waethaf a nodwyd oedd:

- o Symud tuag at y canol ac oddi wrth y rhanbarthau, gyda llai o benderfyniadau'n cael eu gwneud yn y rhanbarthau
- o Toriadau staff yn arwain at golli profiad ac arbenigedd a diffyg adnoddau mewn rhai adrannau yn gyffredinol
- o Newidiadau diwylliannol

2.2 Delio â Llywodraeth Cynulliad Cymru

I ddechrau, gofynnwyd i randdeiliaid pa eiriau oedd yn dod i'w cof wrth iddynt feddwl am Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y disgrifiadau a roddwyd gan randdeiliaid 'cadarnhaol' yn ymarferol ar y cyfan, ac yn cyd-fynd â'r math o gydberthynas oedd ganddynt â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'u rhesymau dros gysylltu â hi, tra bod disgrifiadau rhanddeiliaid 'negyddol' yn dueddol o ganolbwyntio ar feysydd o anfodlonrwydd.

Dangosir y disgrifyddion isod, wedi'u grwpio'n themâu:

Thema	Geiriau
Ariannol	Cyllid <i>"Achos o dyna ble y daw ein hincwm ar gyfer y coleg yn bennaf"</i> <i>(Caerfyrddin, Cadarnhaol)</i> Grantiau 'Ceidwad yr Arian' Arian <i>"Mae'n rhaid gwneud llawer o waith er mwyn cael grantiau bach iawn"</i> <i>(Caerfyrddin, Cadarnhaol)</i>
Negyddol	Biwrocratiaeth <i>"Biwrocratiaeth, rheoliadau, papur, archwilio, rheoliadau, rheolaeth"</i> <i>(Llanelwy, Negyddol)</i> 'Gellid gwneud yn well' Llanast / Anhrefnus / Anodd <i>"Llawer o newidiadau, diffyg eglurder"</i> <i>(Caerfyrddin, Negyddol)</i> <i>"Anhrefnus oherwydd y gwnaed newidiadau diddiwedd ers diwedd ELWa... mae wedi cael tua phump enw yn y cyfnod hwnnw... trosiant staff uchel"</i> <i>(Caerdydd, Negyddol)</i> <i>"Nid yw'n anodd o ran fy mod yn ei chael yn anodd, o ran y bobl... mae pethau'n newid o hyd. Mae'r Cynulliad yn newid y cynllun ar gyfer dysgu seiliedig ar waith drwy'r amser... nid oes cyfnod o ymgynghori y gallwch adeiladu arno"</i> <i>(Caernarfon, Negyddol)</i> Anghysbell / Hyd Braich <i>"Maent yn anghysbell yn ddaearyddol ac i raddau nid wyf yn credu bod swyddogion yn y Cynulliad yn gwerthfawrogi'n llawn beth yw realiti bywyd yn gweithio yn y sefydliadau y maent yn rhyngweithio â hwy"</i> <i>(Caernarfon, Negyddol)</i> <i>"Gall hyn fod yn rhwystr ac yn fy marn i mae angen deall sut mae'r Cynulliad yn gweithredu er mwyn gallu cyfrannu neu greu cysylltiadau"</i> <i>(Caerdydd, Negyddol)</i>

Thema	Geiriau
Negyddol (parhad)	Anghyseinedd / Seilos <i>"Un o'r problemau â'r Cynulliad yw nodwedd o'r enw anghyseinedd polisïau, sy'n golygu y ceir llawer o bolisïau sy'n mynd i un cyfeiriad a set arall o bolisïau is sy'n mynd i gyfeiriadau gwahanol"</i> <i>"Seilos gan nad wyf yn credu eu bod yn siarad â'i gilydd. Maent yn rhannu'r un swyddfeydd mewn rhai achosion ond os ydynt mewn adrannau gwahanol mae'n amhosibl eu cael i siarad â'i gilydd"</i> <i>(Caerdydd, Negyddol)</i>
Gwleidyddiaeth	Llywodraeth Datganoli Cyfleoedd a phroblemau <i>"Cyfleoedd... o ran datganoli a chael mwy o gyfrifoldeb a phwerau yn genedlaethol... Ond hefyd mae problemau, gan nad yw rhai adrannau yn y Cynulliad yn gweithio mor effeithiol ag y dylent efallai"</i> <i>(Caernarfon, Negyddol)</i>
Cydberthynas	Contractau <i>"Wel, heb y contractau ni fyddwn mewn busnes. Mae 95% o'm busnes drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru"</i> <i>(Caerfyrddin, Cadarnhaol)</i> Ymgynghoriadau <i>"Am eu bod bob amser yn anfon pethau atom y maent am gael ateb iddynt ar unwaith"</i> <i>(Caerdydd, Negyddol)</i>

Roedd lefel ac amllder y cysylltiad yn amrywio'n eithaf sylweddol ar draws y sesiynau rhanddeiliaid ac roedd cysylltiad agos â natur y gydberthynas a'r math o randdeiliad. Roedd amllder y cysylltiad yn amrywio o gysylltiad dyddiol (e-bost) i rai i gysylltiad bob chwarter neu lai (ar gyfer cysylltiad wyneb i wyneb), gyda chysylltiad dros y ffôn rywle rhwng y ddau. Roedd gan rai gydberthynas hyd braich (e.e. cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned) ac felly nid oeddent yn cael llawer o gysylltiad, heblaw am gael gwybodaeth drwy'r post a phapurau ymgynghori gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Pan ofynnwyd sut brofiad ydyw i ddelio â Llywodraeth y Cynulliad yn gyffredinol, cafwyd safbwyntiau cymysg. Roedd rhai rhanddeiliaid yn fodlon yn gyffredinol â'u profiad o ddelio â Llywodraeth Cynulliad Cymru a dywedodd un person y bu'n well na'r disgwyl.

"Mae wedi creu argraff gymharol dda arnaf, chwarae teg. Pan oedd gennyf ymholiad, ffoniais y person a ysgrifennodd ddarn o waith a gyhoeddwyd, gan feddwl 'Byddaf yn cael fy nghyfeirio at bob math o bobl cyn dod o hyd iddynt' ond llwyddais i gysylltu â'r person cywir ar unwaith... Rydych yn disgwyl cael trafferth, ond roeddent yn hygyrch iawn. Cefais fy siomi ar yr ochr orau" *(Llanelwy, Cadarnhaol)*

Roedd y rhanddeiliaid hynny a gafodd eu dosbarthu yn y categori 'cadarnhaol' at ddibenion samplu ar gyfer yr astudiaeth ansoddol (yn seiliedig ar eu hymateb i rai o'r cwestiynau yn ymwneud â'r themâu allweddol yn yr Arolwg Rhanddeiliaid) yn dueddol o fod yn gadarnhaol iawn wrth gyfeirio at yr unigolion y buont yn delio â hwy ar lawr gwlad yn Llywodraeth y Cynulliad, gan bwysleisio pwysigrwydd cydberthnasau personol.

"Roeddent yn dda iawn. Maent yn barod eu cymwynas. Gallaf gael unrhyw wybodaeth y byddaf am ei chael. Maent yn gefnogol iawn" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Gyda [enw] yma yn Llanelwy y byddaf yn delio fwyaf ac mae gennym gydberthynas waith dda... gallaf ei ffonio unrhyw bryd... rwyf wedi gweithio gyda [enw] ers 10-15 mlynedd nawr, felly da iawn" (Llanelwy, Cadarnhaol)

Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid eraill yn llai cadarnhaol, am resymau a drafodir yn llawn yn adran 2.3 isod.

"Maent yn gwneud eu gorau ac nid wyf am swnio'n feirniadol ond gall fod yn rhwystredig iawn pan fydd gan rywun broblem sy'n gymharol bwysig y mae angen delio â hi'n gymharol gyflym, y gall y gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn i wneud hynny fod yn hir a llafurus" (Y Drenewydd, Negyddol)

Y rhanddeiliaid sy'n delio ag adrannau penodol, DCELLS yn bennaf (Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau), oedd fwyaf negyddol, er eu bod weithiau'n canmol staff lleol y buont yn rhyngweithio â hwy ac yn cydnabod natur gymwynasgar ac ymdrechion unigolion. Codwyd cyfathrebu mewnol a diffyg gweithio cydgysylltiedig yn DCELLS fel problem benodol ar gyfer rhanddeiliaid.

"Mae'r staff lleol yn dda ac [maent] yn deall y busnes rydym yn ymwneud ag ef. Y broblem fwyaf sydd gennyf yw bod problem gyfathrebu yn fewnol yn DCELLS. Mae'n adran anferth, felly mae ganddynt eu hadrannau [eu hunain]...problem gyfathrebu fewnol a geir, nid ydynt yn siarad â'i gilydd, neu nid ydynt yn gwrando ar ei gilydd ac felly bydd un adran yn rhoi un set o reolau i ni ac ni fydd yr adran arall yn deall beth yw'r rheolau hynny, yn enwedig mewn perthynas â chyllido; bydd tîm y rhaglen yn dweud rhywbeth wrthym, ac ni fydd y tîm archwilio yn gwybod beth y mae tîm y rhaglen wedi'i ddweud wrthym a bydd rhyw fath o wrthdaro - ar bwy y dylem wrando?... Dyna fy nghwyn fwyaf mae'n debyg, cyfathrebu mewnol o fewn yr adran honno" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Yn bendant [mae'r] natur agored [yn dda]. Nid wyf yn cael unrhyw broblemau wrth gael gafael arnynt. Rwyf yn cytuno'n llwyr â'r diffyg capasiti... fodd bynnag rwyf hefyd yn credu bod rhywfaint o densiwn rhwng grwpiau gwahanol hyd yn oed o fewn yr un maes... o fewn DCELLS mae'n amlwg y ceir tensiynau rhwng yr hyn a arferai fod yn gangen leuenticid a'r gangen Plant a Theuluoedd" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Mae'n ymddangos bod DCELLS, yr Adran Plant a Dysgu Gydol Oes, wedi bod yn isadran ynddi'i hun ers peth amser, heb lawer o ddyhead i ryngweithio ag isadrannau eraill. Mae'n dechrau digwydd o'r diwedd" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)

Ategodd rhanddeiliaid eraill sydd mewn cysylltiad rheolaidd a DCELLS yr argraff a geir bod diffyg gweithio cydgysylltiedig, gan awgrymu bod hyn yn rhannol oherwydd y rhaniad mewnol rhwng swyddfeydd rhanbarthol, yr uno â'r Cynulliad, a'r holl ailstrwythuro dilynol y bu'n rhaid ei wneud i'r adran, a arweiniodd at symud llawer o bobl o amgylch a diffyg cydberthnasau personol a chyd-ddealltwriaeth.

"Ceir un tîm yn dweud un peth a thîm arall yn dweud rhywbeth arall. Mae'n debyg bod hynny'n anochel. Nid yw'r ffaith bod timau gwahanol wedi'u lleoli mewn mannau gwahanol yn ddaearyddol yn helpu. Er enghraifft rydym ni'n delio â phobl ym Machynlleth ac mae'r bobl cyllid yng Nghaerdydd, neu dyna ble yr oeddent, maent wedi symud nawr, ond nid wyf yn gwybod os ydynt yn cwrdd o gwbl. Ond nid yw lleoliadau daearyddol sydd mor ddatgymalog â hyn yn helpu'r broblem gyfathrebu" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Mae'n ymddangos fel eu bod wedi ailstrwythuro... DCELLS... dyna yw'r enw nawr, y llynedd roedd yn rhywbeth gwahanol ac yn fy marn i mae'r holl ailstrwythuro wedi arwain at gryn bryder" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Mae'r ymddieithrio [yn waeth]... ceir mwy o bwyslais ar ganoli... Byddem yn bendant yn croesawu pwyslais mwy ar reolaeth ranbarthol eto oherwydd... mae pob rhanbarth yng Nghymru yn wahanol, mae'n rhaid i ni dderbyn hynny, mae'r seiliau diwylliannol yn wahanol, mae'r bobl yn wahanol iawn, mae eu dyheadau yn wahanol. Cyn y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf, cafwyd ffocws rhanbarthol lle'r oedd pobl yn fwy hyblyg... o ran contractau a blaenoriaethau" (Llanelwy, Negyddol)

"Rwyf wedi gweld cyfnodau pan mae AB wedi bod yn gysylltiedig â'r hen TECs ac yna gydag ELWa a nawr gyda'r Cynulliad ei hun ac rwyf wedi gweld gwahaniaeth yn y cysylltiad rhyngom ni a'r swyddogion hynny ar hyd y daith. Yn enwedig ers iddynt symud i'r Cynulliad, mae'r ddeialog answyddogol wedi diflannu i raddau, sy'n drueni mawr... roedd gennym ddeialog answyddogol a hyder rhwng y cydweithwyr a'r swyddogion i drafod pethau'n agored cyn iddynt gael eu gwneud yn bolisi. Ceir teimlad bellach bod llai o gysylltiad gan eu bod wedi troi'n weision sifil go iawn sy'n amharod i rannu unrhyw wybodaeth rhag ofn iddi gael ei chyhoeddi... Mae uno'r cwangos â'r Cynulliad wedi newid ein cydberthynas sylfaenol â swyddogion a hynny mewn modd negyddol yn fy marn i"

"Byddwn yn cytuno â hynny. Nid ydym yn gwybod gyda phwy y dylem gysylltu ynghylch materion gwahanol, pwy yw ein pwyntiau cyswllt" (Caernarfon, Negyddol)

"Tra bydd gennych gydberthynas dda gyda swyddog gallwch gael atebion fel arfer... y newidiadau a welwyd dros y 12 mis diwethaf mae'n debyg yw ailstrwythuro ac uno ac ati, gallwch godi'r ffôn a disgwyl siarad â hwn a'r llall... O, dydy o ddim yma bellach, mae ar absenoldeb garddio, mewn adran arall. Iawn, wel pwy sy'n delio â hyn? O, dydyn ni ddim wedi penderfynu. Ond mae bywyd yn mynd yn ei flaen i'r gweddill ohonom."

"Credaf ei bod yn arbennig o anodd gyda'r Gwasanaethau Plant yn symud i DCELLS oherwydd... y gangen addysg / dysgu oedd DCELLS, sy'n gysylltiedig â cholegau ac ysgolion, ac roedd llawer o waith y Gwasanaethau Plant yn ymwneud â Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ac nid yw'r ddau beth wedi cyfuno ac nid wyf yn credu bod corff yr hen DCELLS wedi addasu i'r ffaith ei fod bellach yn gyfrifol am blant hefyd" (Caerfyrddin, Negyddol)

Dim ond un rhanddeiliad a oedd yn delio a DCELLS a nododd ei fod wedi gweld unrhyw welliannau dros y blynyddoedd diwethaf, gan nodi bod mwy o bwyslais ar ansawdd a dulliau darparu yn yr adran nawr.

2.3 Anawsterau Canfyddedig wrth Ryngweithio â Llywodraeth y Cynulliad

Cododd llawer o ffactorau y teimlwyd eu bod yn ei gwneud yn anodd rhyngweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r trafodaethau cyffredinol ar ddelio â'r sefydliad. Roedd rhai o'r rhain yn ymwneud â themâu allweddol yr ymchwiliad y bwriadwyd iddynt gael eu cwmpasu yn nes ymlaen yn y trafodaethau.

Roedd y prif anawsterau a godwyd ar hap gan randdeiliaid fel a ganlyn:

- Diffyg gweithio cydgysylltiedig (yn aml cyfeirir at hyn fel cyfathrebu gwael neu ddarniog neu seilos)

"Un peth sy'n amlwg i mi gyda Llywodraeth y Cynulliad ar y cyfan yw natur ddarniog y sefyllfa rhwng y Cyfarwyddiaethau gwahanol... er enghraifft, roedd yr Adran Gymunedol yn brysur ar un adeg yn gweithio gyda Datblygu Cymunedol Cymru yn datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Datblygu Cymunedol yng Nghymru, yn cynnwys adran ar dai, roedd y Gyfarwyddiaeth Dai yn brysur... yn llunio Strategaeth Genedlaethol ar Gyfranogiad Tenantiaid ac nid oeddent yn gwybod beth oedd y llall yn ei wneud, nes i mi ddweud 'Esgusodwch fi, oni ddylai'r rhain gyd-fynd â'i gilydd?'" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Mae ganddynt Bwyllgor Cabinet ar gyfer Pobl Ifanc lle mae'r holl Weinidogion yn cwrdd ac maent yn dweud 'Rydym yn siarad gyda'n gilydd', ond nid yw hynny'n amlwg o'r hyn sy'n dod allan [ymgyngoriadau], felly efallai eu bod yn siarad ond nid ydynt yn mynd i'r lefel nesaf" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Mae hon yn thema gyffredin... y diffyg cyfathrebu, nid yn unig rhwng Caerdydd a Llanelwy, ond hefyd rhwng y gwahanol adrannau yn y Cynulliad. Mae nifer o raglenni a phrosiectau yn cael eu datblygu gan wahanol adrannau nad ydynt yn integreiddio â'i gilydd" (Caernarfon, Negyddol)

"Nid yw'r dull o weithio yn annog hyblygrwydd ac yn benodol, mae'n creu seilos... mae'n hynod o anodd cael unrhyw drawsffrwythloniad" (Y Drenewydd, Negyddol)

"Y broblem gyda'r polisïau yw y ceir polisïau a strategaethau o adrannau gwahanol. Ceir elfen o seilo yn Llywodraeth y Cynulliad hefyd, mae'n gryf iawn... a byddai'n llawer gwell os byddent yn cydweithio" (Caerfyrddin, Negyddol)

- Diffyg dealltwriaeth o sefydliadau rhanddeiliaid a'u hanghenion, yn enwedig ar lefel uwch ac o fewn DCELLS. Teimlwyd bod hyn wedi gwaethgu dros y blynyddoedd, wrth i Lywodraeth y Cynulliad weithredu mwy a mwy hyd braich, a hefyd gyda'r prosesau uno ac ailstrwythuro, gan arwain at drosiant staff uchel a diffyg gwybodaeth ac arbenigedd.

"Gan nad ydynt yn deall beth rydym yn ei wneud, nid ydynt yn deall sut rydym yn gweithredu... flynyddoedd yn ôl, arferai staff yr hen Swyddfa Gymreig fynd allan i dreulio amser gyda sefydliadau fel ni, i weld beth rydym yn ei wneud ar lawr gwlad; felly roeddent yn gallu deall y busnes. Os oeddent yn gallu deall y busnes, roeddent yn gwybod... pan aethant nôl... sut y dylai'r busnes hwnnw ddatblygu... ond nid oes ganddynt ddechreubwynt [nawr] gan eu bod yn eistedd y tu ôl i ddesg yn lle bod allan" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Nid wyf yn credu eu bod yn deall beth sy'n mynd ymlaen y tu allan bob amser... a phobl yn symud o gwmpas... mae rhai o lefelau'r Swyddogion Gweithredol wedi newid, ond mae'r bobl allweddol wedi aros yn gymharol llonydd, sy'n dda, felly maent wedi datblygu dealltwriaeth, ond yn y bôn, credaf fod llai o sgil a dealltwriaeth o'r sefyllfa"

"Nid yw hynny mor wir yn y Gyfarwyddiaeth Dai er bod llawer o drosiant ac... maent yn ailstrwythuro am y trydydd tro mewn tua dwy flynedd a hanner, nid yw hynny'n helpu... ond mae pobl cymharol amhrofiadol yn ceisio deall cyd-destun y polisi a'r strategaethau ac mae y tu hwnt i'w lefel profiad... a cheir diffyg pobl...sydd â 10, 15 mlynedd a mwy o brofiad" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Ond beth ddysgais i [drwy weithio yn ELWa], i fod yn gwbl onest, nid yw'r bobl yno yn gwybod beth rydym yn ei wneud ac nid ydynt yn deall bod yr hyn maent yn gofyn i ni ei wneud yn hollol afrealistig weithiau" "Nid yw llawer o'r bobl rydym

yn delio â hwy yn deall addysg bellach, nid yw rhai pobl erioed wedi bod mewn coleg addysg bellach... Gwnaed ymdrechion amrywiol i geisio gwella gwybodaeth pobl ond eto, oherwydd y trosiant staff uchel a'r ffaith eu bod wedi symud i adrannau gwahanol, bydd hyn yn troi'n ofer yn fuan" (Caerdydd, Negyddol)

- Amharodwydd canfyddedig i wneud penderfyniadau ymysg rhai gweision sifil, y disgrifiwyd weithiau eu bod yn amharod i gymryd risgiau. Dywedodd rhai rhanddeiliaid mai gwleidyddiaeth oedd yn gyfrifol am hyn. Honnwyd bod yr anwiredd hwn wedi peri problemau gwirioneddol ar lawr gwlad, yn enwedig o'u cysylltu â cheisiadau am arian oedd â chyfyngiadau amser.

"Mae'n debyg mai gennym ni y mae'r gwasanaeth sifil sydd fwyaf amharod i gymryd risgiau [yn Ewrop] mwy na thebyg" (Y Drenwydd, Cadarnhaol)

"Os oes beirniadaeth, weithiau pobl [o fewn DCELLS] sy'n amharod i fod yn bendant. Os oes gennym sefyllfa, mae angen ei datrys, mae angen i ni gael ateb a byddant yn dweud, 'Wel, byddwn yn dod nôl atoch'... efallai mai'r hyn ddylai ddigwydd yw bod rhywun yn dweud, 'Edrychwch, gwnewch hyn nawr gan gymryd cyfrifoldeb'"

"Yn aml clywir, 'Mae'n rhaid i chi holi'r Gweinidog' a gweld i ba gyfeiriad yr aiff y Gweinidog ac mae hynny'n gohirio ein rhaglenni"

"Ac...mae unrhyw oedi cyn y cyhoeddiad yn cwtogi'r cyfnod y gallwch wario grant ac mae hynny'n fater pwysig" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

Mewn perthynas â'r pwynt hwn, roedd rhai hefyd yn feirniadol o 'safonau dwbl' yn Llywodraeth y Cynulliad, gan eu bod yn gofyn am wybodaeth gan randdeiliaid heb bron ddim rhybudd, er eu bod hwythau'n araf iawn yn ateb ymholiad neu'n gwneud penderfyniad

"Mae'n cymryd llawer o amser i gael ateb am unrhyw fater penodol, mae'n dibynnu os yw'r person cywir ar gael ac yn fy marn i..., mae anawsterau mawr... pan mai dim ond y Gweinidog a all benderfynu ar rywbeth neu ei awdurdodi, bydd oedi mawr...Ar y llaw arall, mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi pwysau... ar y cyrff y mae'n eu noddi ac yn gweithio gyda hwy, i wneud popeth ar unwaith... Gall fod yn anodd iawn gweithredu fesul diwrnod, pan na ellir gwneud penderfyniadau" (Y Drenwydd, Negyddol)

"Os ydynt am gael rhywbeth, maent am ei gael ar unwaith, ond mae'n cymryd amser hir iawn i gael rhywbeth yn ôl" (Caerdydd, Negyddol)

- Ffocws ar Gaerdydd a diffyg dealltwriaeth o Gymru wledig (ymhlith rhanddeiliaid yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru)

"Ar lefel genedlaethol, credaf fod gennym broblem yng Nghymru wledig... mae'n galonogol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn symud allan i Aberystwyth oherwydd credaf fod teimlad o hyd nad yw pobl yng Nghaerdydd yn deall rhai o broblemau Cymru wledig" (Y Drenwydd, Cadarnhaol)

"Ceir teimlad yn y Gogledd bod Caerdydd ac Abertawe a'r ardal honno yn fwy o ran o'r Swyddfa Gymreig [Llywodraeth y Cynulliad] na'r ardaloedd gogleddol... credaf fod angen lledaenu adnoddau'r Cynulliad a gweinidogion mor eang â phosibl rhwng Gogledd a De Cymru, ac i'r Drenwydd yng Nghanolbarth Cymru hefyd" (Y Drenwydd, Cadarnhaol)

"Pellter [yn ei gwneud yn anodd rhyngweithio]. Ceir llawer o amharodrydd o hyd i drefnu cyfarfodydd y tu hwnt i goridor yr M4, ac mae hynny'n peri problemau mawr i ni yng Ngogledd Cymru ac ni cheir dulliau cadarn, dibynadwy ac effeithiol o fideogynadledda rhwng rhannau gwahanol o Gymru" (Caernarfon, Negyddol)

- Diffyg hyblygrwydd neu barodrydd i gydweithio â rhanddeiliaid allanol - esgus eu cefnogi?

"Mae rhai pobl yn y Cynulliad sy'n dda iawn ac sy'n gweithio er budd cyffredinol, ac mewn timau eraill gallwch synhwyro bod rhywfaint o anhyblygrwydd o ran yr hyn maent yn ei gredu ddylai ddigwydd a'r hyn rydym ni'n ei gredu ddylai ddigwydd ac mae hynny'n creu tipyn o wrthdaro... nid yw'r gydberthynas yn wael, mae'n iawn, ond gallai fod yn llawer gwell gyda rhywfaint o gydweithio yng ngwir ysbryd partneriaeth" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Credaf fod ganddynt ffocws da ar eu hamcanion polisi eu hunain, h.y. amcanion polisi gwleidyddion... nid ydynt yn deall beth rydym yn ceisio ei gyflawni am nad oes ganddynt lawer o ddiddordeb mewn gwirionedd" (Caerdydd, Cadarnhaol)

- Un gwendid arall a nodwyd gan rai cynrychiolwyr awdurdod lleol oedd diffyg cynllunio yn y tymor canolig neu amwerlenni afrealistig yn enwedig o ran arian neu gyllidebau.

"Yn fy marn i mae eu strategaethau tymor hir wedi'u sefydlu...Y strategaethau tymor byr i ganolig sydd ar goll, wel y tymor canolig mewn gwirionedd, oherwydd dim ond rhai tymor byr a gawn" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"...ac weithiau nid yw'r amserlenni yn realistig. Rydym yn aros i gael arweiniad ar y grant ar gyfer y flwyddyn nesaf, mae'n rhaid iddo fod wedi'i ysgrifennu erbyn diwedd y mis [Hydref] mewn gwirionedd, wel, fydd hynny ddim yn digwydd, ond mae'n rhaid iddo gael ei gyflawni erbyn 20^{fed} Tachwedd ac nid oes gennym unrhyw beth eto" (Caerdydd, Cadarnhaol)

- Peidio â gwybod pwy i gysylltu â hwy a'r gydberthynas ddieithr yn gyffredinol

"O ran swyddogion penodol a phobl a gyflogir ganddynt... nid oes gennyf fawr ddim cysylltiad ag unrhyw un o'r natur honno ac os byddai hynny'n wir, ni fyddwn yn eu hadnabod... Os byddwn am gysylltu ag unrhyw un, byddai'n anodd yn fy marn i" (Caernarfon, Cadarnhaol)

"Ar hyn o bryd, mae'r pwyntiau cyswllt a chyda phwy y dylid cysylltu â hwy ynghylch pethau gwahanol yn ddryslyd iawn" (Caernarfon, Negyddol)

Nododd rhai rhanddeiliaid fod hyn wedi gwaethygu pan unodd ELWa a'r WDA â Llywodraeth y Cynulliad a'u bod wedi colli eu 'ffordd i mewn' i'r Cynulliad

"O'r blaen, yn oes y WDA, roeddem yn gallu mynd at rywun os oedd gennym syniad, mynd i siarad â hwy, gweld p'un a oedd yn ymarferol. P'un a oeddent yn arbenigwyr yn y maes hwnnw ai peidio, byddent yn gwybod at bwy y dylent fynd ond nawr maent wedi cyflwyno rhywbeth o'r enw'r Grant Buddsoddi Sengl ac mae'n anoddach i bobl gael gwybod ble y gallant gael cymorth... nid wyf yn gwybod gyda phwy y dylwn siarad mwyach ac roeddw'n yn arfer gwybod, roedd gennyf rywun o'r blaen" (Caernarfon, Cadarnhaol)

- Yn olaf, gwnaeth rhai rhanddeiliaid mewn un sesiwn sylwadau ar hap ynghylch annigonolrwydd gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru - trafodir hyn yn fanylach yn adran 5 isod

"Mae'n anodd iawn dod o hyd i bwynt cyswllt ar y wefan, felly nid wyf yn credu ei bod yn dda iawn" "Mae'n anodd iawn symud o amgylch y wefan ac yna os byddwch yn rhoi cwestiwn yn eu peiriant chwilio... mae'n wastraff amser, byddwch yn eistedd yno yn teimlo'n rhwystredig yn y diwedd, yna bydd yn rhaid i chi fynd yn ôl i'r dechrau a chychwyn eto" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod pan fuont yn delio â Llywodraeth y Cynulliad, roedd y rhan fwyaf yn teimlo ei bod yn anoddach rhyngweithio â'r sefydliad erbyn hyn, a nododd llawer bod hyn o ganlyniad i'r prosesau uno ac ailstrwythuro dros y blynyddoedd diwethaf.

Y rheini a oedd yn gweithio agosaf a DCELLS oedd â'r mwyaf i'w ddweud am effaith yr uno a hwy oedd fwyaf negyddol am y newidiadau a welwyd. Nid oedd llawer o'r cyfranogwyr a oedd wedi delio ag Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) o'r blaen yn y grwpiau, ond o'r rheini, y farn oedd bod uno'r WDA â Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud pethau'n anoddach o ran cymorth busnes.

"Nid wyf yn credu ei fod yn beth cadarnhaol. Credaf y bydd yn llawer anoddach i bobl wneud busnes yng Nghymru, yn enwedig pobl sy'n newydd i Gymru... neu berson ifanc sy'n bwriadu sefydlu busnes, bydd yn llawer anoddach" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Fodd bynnag, teimlai rhanddeiliad arall bod y broses o uno'r WDA â Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd yn gymharol rhwydd a llwyddiannus.

"Cafodd tua hanner y gweision sifil yr oeddwn yn delio â hwy eu symud draw o'r WDA, a oedd yn canolbwyntio'n llwyr ar gwsmeriaid, felly cafwyd tensiwn... mae wedi gweithio allan yn gymharol dda yn fy marn i" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)

Roedd y newidiadau a welwyd fel a ganlyn:

- Roedd canoli'r adrannau a'r awdurdod oddi wrth y rhanbarthau yn un ffordd y teimlai llawer bod delio â'r Cynulliad wedi newid er gwaeth: i ddechrau, drwy leihau lefel y cyswllt personol ac felly gwybodaeth swyddogion o sefydliadau rhanddeiliaid; yn ail, drwy ymestyn y gadwyn gwneud penderfyniadau a'i gwneud yn anoddach i rhanddeiliaid wybod pwy sy'n gwneud y penderfyniadau yn y pen draw

"Nid wyf yn siŵr a yw canoli wedi helpu... mae gennym swyddfeydd rhanbarthol yn Ne Orllewin Cymru, ond nid oes ganddynt yr ymreolaeth a oedd gennym ni... yn oes y TECs... roedd staff a fyddai'n gwneud penderfyniad ac yn rhoi ymateb i chi ac roeddem yn cydweithio'n llawer agosach. Ers hynny cafwyd gostyngiad graddol yn nifer y bobl ar lawr gwlad ac, rydych yn iawn, roedd pobl yn arfer dod allan... roedd 12 o bobl yn arfer gweithio yn yr ardal, yna roedd 8, yna 6, ac erbyn hyn dim ond 2 neu 3 a geir. Does bosib eu bod yn rhyngweithio â'r defnyddiwr terfynol... ni allant fod yn deall y defnyddiwr terfynol fel o'r blaen, felly credaf fod canoli wedi'i gwneud yn anoddach...ac yna dylid ystyried pwy sy'n mynd i wneud penderfyniad. Pan oedd ar sail ranbarthol, y person a eisteddai yn Orchard House oedd hwnnw yn y pen draw... nawr mae'n llawer anoddach cael gwybod pwy fydd yn gwneud penderfyniad ac nid yw hynny wedi helpu" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Mae'n thema gyffredin lle mae gan swyddfeydd rhanbarthol lai o ddylanwad, ac mae gan y swyddfa ganolog fwy o ddylanwad... rwyf yn cael mwy o fudd o gyfarfodydd yng Nghaerdydd gyda swyddogion sy'n cydlynu pethau'n genedlaethol na thrwy fynd i'r swyddfeydd rhanbarthol nad ydynt yn rhan o'r ddolen, ac mae hynny'n gwneud pethau'n anoddach i ni yn y Gogledd"

"Mae mor anodd gwneud i'r swyddogion hynny ddeall y problemau a wynebwn yng Ngogledd Cymru... rwyf yn teimlo'n gryf bod diffyg dealltwriaeth yn y Cynulliad o'r problemau a wynebir yn y rhanbarthau y tu allan i'r Cymoedd neu Gaerdydd ac ni chredaf fod gweision sifil, yn enwedig y rheini ar lefel uwch, yn ymweld digon â'r rhanbarthau hyn. Ceir disgwyliad bod yn rhaid i ni fynd i Gaerdydd drwy'r adeg, ond byddwn yn gwerthfawrogi pe gallai rhai o'r swyddogion hynny sydd â'r cyllidebau a'r cyfle i ddylanwadu ymweld â'r rhanbarthau i weld problemau ac anghenion ardaloedd fel Gogledd-orllewin Cymru" (Caernarfon, Negyddol)

- Roedd rhai yn ofni y gallai'r sefyllfa waethygu, wrth i'r adrannau barhau i gael eu had-drefnu ac wrth i swyddfeydd rhanbarthol newydd agor

"Rwyf yn ymwneud â Physgodfeydd yn bennaf ac... roedd yn dda ond maent newydd symud i Aberystwyth ac maent yn colli eu holl staff, felly mae hynny yn golygu bod pethau braidd yn anodd" (Caernarfon, Cadarnhaol)

"Bydd newidiadau difrifol nawr, achos mae un o'r bobl y bûm yn delio â hwy yn rheolaidd iawn yn symud ar draws am nad yw am symud i Ogledd Cymru ac mae hynny'n fy mhoeni oherwydd y bydd yr adran honno'n cael ei rhannu'n ddwy... gyda hanner ohonynt yng Ngogledd Cymru, a hanner ohonynt yn Ne Cymru. Nid ydynt yn siarad â'i gilydd nawr ac maent yn gweithio ar draws y coridor i'w gilydd! Mae gennyf bryderon gwirioneddol ar gyfer y dyfodol a sut y bydd hynny'n effeithio ar bethau. Gwn fod yn rhaid iddynt gael presenoldeb yng Ngogledd Cymru... ond nid yw rhannu adrannau gyda rhaniad annaturiol yn gwneud llawer o synnwyr i mi" (Caerdydd, Cadarnhaol)

- Cafwyd sylwadau (yn enwedig yng Nghaerdydd) ar doriadau staff sy'n golygu nad oes digon o adnoddau mewn rhai adrannau, ac sy'n arwain at ddiffyg arbenigedd a phrofiad a diffyg brwdfrydedd ym marn un person

"Credaf fod y toriadau yn rhy llym. Ar un adeg, byddai gennych rywun a fyddai'n rheoli eich contract ac yn rheoli tua 10 o bobl ac os byddai gennych broblem byddech yn mynd at y person hwnnw i gael cymorth, mae hynny wedi diflannu bellach. Credaf mai'r hyn sy'n digwydd yw eu bod wedi ymbellhau... nid wyf yn credu bod ganddynt y staff mwyach" (Caerdydd, Negyddol)

"Gyda'r holl uno ceir llawer o weision sifil ym maes gyrfaedd yn gwneud swyddi y gallent eu gwneud yn academiaidd... ond nid oes ganddynt y brwdfrydedd... a oedd gan bobl yn y gorffennol" (Caerdydd, Negyddol)

"Rwyf yn teimlo trueni drostynt [adrannau sydd wedi uno â Llywodraeth y Cynulliad] gan eu bod wedi mynd drwy gyfnod o newid mor aruthrol ond credaf mai'r peth hawsaf i'w wneud gyda'r rhai sydd wedi mynd yw ceisio cael penderfyniad gan nad ydynt yn gwybod pwy fydd yn gwneud y penderfyniad hwnnw" (Caerdydd, Negyddol)

- Teimlwyd hefyd bod yr uno yn effeithio ar lefel y ffocws ar gwsmeriaid mewn rhai adrannau ac arweiniodd at newid mewn diwylliant, sy'n golygu ei bod yn anoddach cael penderfyniad

"Onid ydych yn teimlo eu bod wedi colli rhywfaint o ffocws? Maent yn gwneud cais am eu swyddi eu hunain, ceir toriadau ym mhob man, un funud maent yn gwneud eu gwaith, y funud nesaf mae tair swydd a phump o bobl yn gorfod gwneud cais amdanynt. Pan fyddant yn ystyried eu bywoliaeth mae'n naturiol y byddant yn colli ffocws arnom ni" (Caerdydd, Negyddol)

"Credaf fod ethos gweision sifil wedi newid natur y cydberthnasau gyda hwy [hynny er gwaeth]. Gan ei fod yn fwy ffurfiol, yn aml clywir 'Allaf fi ddim ateb y cwestiwn hwnnw, bydd angen i mi ofyn i rywun arall'... Maent yn cuddio y tu ôl i'r ffaith eu bod yn weision sifil erbyn hyn" (Caerdydd, Negyddol)

- Roedd rhai o'r farn bod yr ymgynghoriadau yn waeth nawr nag o'r blaen. Defnyddiodd un darparwr hyfforddiant ddigwyddiad ymgynghori DCELLS diweddar yng Nghanolbarth Cymru fel enghraifft

"Maent yn llai hyblyg nawr nag o'r blaen. Flynyddoedd yn ôl... os oeddent yn edrych ar newid, yna byddent yn cyflwyno dogfen ymgynghori, fel sy'n digwydd nawr, ond byddai ymgynghoriadau go iawn yn cael eu cynnal gyda gweithdai a chyfarfodydd ledled Cymru... a byddem yn cael mewnbwn go iawn. Nid yw'n ymddangos bod hynny'n digwydd mwyach... mewn un digwyddiad ymgynghori yr es iddo... cafwyd cyflwyniad a chyfrannodd pawb ato ac yn y diwedd... roedd y sleid olaf a welwyd [yn dweud] 'Dyma beth rydym yn mynd i'w wneud' felly roedd yr holl broses [yn wastraff amser]. Allwn i ddim credu'r peth; roedd yn ymddangos fel bod yr holl broses wedi'i chwblhau cyn i mi gyrraedd yno. Roedd yn golygu dau ddiwrnod o'm hamser prin, o'm busnes i, ac nid wyf wedi bod i un ers hynny. Beth yw'r pwynt os yw'r agenda wedi'i ysgrifennu eisoes?" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

2.4 Awgrymiadau ar gyfer Gwella'r broses o Ryngweithio â Rhanddeiliaid

Gofynnwyd i randdeiliaid hefyd p'un a oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r ffordd yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn rhyngweithio â sefydliadau rhanddeiliaid.

Er ei bod yn anodd iddynt gynnig awgrymiadau ar sut i ddelio â rhai o'r anawsterau a nodwyd uchod, gwnaed rhai awgrymiadau, a chânt eu crynhoi isod. Byddwn yn delio â rhai o'r syniadau hyn yn fanylach mewn adrannau eraill o'r adroddiad:

- Gwella prosesau cyfathrebu yn gyffredinol, yn enwedig drwy gysylltiad mwy personol er mwyn meithrin cydberthnasau. Byddai hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth well o sefydliadau rhanddeiliaid a'r problemau a wynebir ganddynt

"Cadw mewn cysylltiad, ie. Cyfathrebu, mae'n ymwneud â chyfathrebu"

"Dylent fod ychydig yn fwy rhagweithiol wrth ddod a gweld beth mae pobl yn ei wneud a sut maent yn ei wneud. Maent yn gwneud y penderfyniadau ynghylch sut mae'r arian hwn yn cael ei wario. Mae ganddynt ddiddordeb personol i fynd ar lawr gwlad a gweld, ac mae angen iddynt wneud pethau'n iawn. Wyddoch chi, dim sioe na ffws a ffwdan; mae angen iddynt siarad â phobl ar lawr gwlad" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Fel pwynt cyswllt, mae'r e-bost yn iawn, ond byddai'n well cael rhif ffôn fel y gallwch siarad â rhywun... mae cysylltiad personol yn well nag unrhyw beth i mi bob tro" (Caernarfon, Cadarnhaol)

"Credaf ei bod yn bwysig bod swyddogion ar bob lefel yn cael cymaint o gysylltiad personol â phosibl. Ers talwm gallech fynd i Gaerfyrddin a Chaerdydd a byddech yn cwrdd â swyddog penodol y byddech yn gofyn amdano ond ni allwch fod yn siŵr o hynny bellach, rydych yn cael eich gadael mewn ystafell ac yn aros yno i weld pwy fydd yn dod o'r gronfa. Mae'r gydberthynas bersonol honno yn bwysig yn yr ardaloedd gwledig ac mae'r iaith Gymraeg yn bwysig hefyd" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)

- Mwy o feddwl cydgysylltiedig (caiff ei drin yn fanylach yn adran 4 isod) - cydlynwyd yr enghreifftiau a roddwyd o arolygiadau, er mwyn osgoi achosion o ddyblygu gwaith, ac yn y Gwasanaeth Iechyd, un corff i gasglu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol o feddygfeydd meddygon teulu

"Un peth y gellid ei wella yn fy marn i, gydag arolygiadau a chyfrifon ac archwiliadau amrywiol, mae llawer o ddyblygu'n digwydd. Mae gweinidogion wedi nodi bod angen edrych ar hyn, milfeddygon, iechyd a diogelwch a symud anifeiliaid, yr holl gynlluniau hyn, mae pobl wahanol yn dod draw ac maent bob amser yn edrych ar un peth neu'r llall" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)

- Gwelliannau i'r broses ymgynghori (cwmpesir yn fanylach yn adran 6 yr adroddiad)

"Hoffwn eu gweld yn dychwelyd i ymgynghoriadau anffurfiol... ceir ymdeimlad o ddilyn proses gyda'r cyngor ffurfiol hwn sy'n cael ei gynnig. Mae'r penderfyniad wedi'i wneud felly mae'r broses ymgynghori'n troi'n broses gosmetig a hoffwn weld mwy o grwpiau anffurfiol lle y gall rhanddeiliaid ddod ynghyd a rhannu eu safbwyntiau ar bolisïau ac nid wyf yn credu ein bod yn cael y cyfle i gyfrannu at y broses o lunio polisiau a phennu cyfeiriad" (Caernarfon, Negyddol)

3. CANOLBWYNTIO AR DDINASYDDION

Roedd rhan nesaf y trafodaethau'n canolbwyntio ar un o'r themâu allweddol ar gyfer yr astudiaeth: canolbwyntio ar ddinasyddion.

3.1 Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol ar y broses o Ganolbwyntio ar Ddinasyddion

- Rhai o'r elfennau allweddol o 'ganolbwyntio ar ddinasyddion' a nodwyd gan randdeiliaid oedd:
 - Canolbwyntio ar anghenion y bobl
 - Canolbwyntio ar bobl, nid ar systemau neu wasanaethau
 - Sicrhau bod dinasyddion yn ganolog i weithgareddau - felly gweithredu o'r gwaelod i fyny, nid o'r brig i lawr
 - Darparu gwasanaethau o safon
 - Angen sicrhau prosesau da o gyfathrebu / ymgynghori / ymgysylltu â dinasyddion
 - Mae angen i wasanaethau fod yn hyblyg
- Roedd y rhanddeiliaid yn unfrydol o'r farn ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru ganolbwyntio ar ddinasyddion
- Roedd y safbwyntiau ar y graddau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio ar ddinasyddion ar hyn o bryd ymhell o fod yn gadarnhaol, er bod rhai rhanddeiliaid o'r farn bod y sefydliad yn ceisio gwella mewn perthynas â hyn
- Felly roedd yn haws gan randdeiliaid nodi enghreifftiau o arfer gwael mewn perthynas â chanolbwyntio ar ddinasyddion nag arfer da
- Er bod yr ystod o enghreifftiau a roddwyd gan gyfranogwyr yn amrywiol iawn (gan adlewyrchu'r ystod o gefndiroedd a geir yn y sampl), nodwyd ymgynghori fel un thema gyffredin o arfer gwael
- Roedd llawer o'r rhwystrau a nodwyd a oedd yn atal Llywodraeth Cynulliad Cymru rhag canolbwyntio ar ddinasyddion yn adlewyrchu'r anawsterau a nodwyd yn ddigymell yn gynharach yn y drafodaeth. Ymysg y rhwystrau allweddol roedd:
 - Diffyg cyfathrebu
 - Biwrocratiaeth
 - Diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gan ddinasyddion
 - Diffyg gweithio cydgysylltiedig
 - Diffyg dealltwriaeth o anghenion rhanbarthol
 - Anhawster i gael gafael ar Lywodraeth y Cynulliad neu wybod gyda phwy i siarad

3.2 Diffiniadau o Ganolbwyntio ar Ddinasyddion

3.2.1 Sut y mae Rhanddeiliaid yn Diffinio Canolbwyntio ar Ddinasyddion?

Dechreuodd y cam hwn o'r trafodaethau pan ofynnodd yr hwyluswyr i'r cyfranogwyr ddiffinio 'canolbwyntio ar ddinasyddion' ac egluro beth yw ei ystyr yn eu barn hwy.

Rhoddodd rhanddeiliaid amrywiaeth eang o ddiffiniadau o'r term 'canolbwyntio ar ddinasyddion' yn ddigymell. Ceir rhai enghreifftiau i ddilyn (caiff y rhestr gyflawn ei chynnwys yn Atodiad B yr adroddiad):

"Cydnabod anghenion ac ymateb iddynt" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Beth yw anghenion y gynulleidfa / poblogaeth a sicrhau bod hynny'n sail i bopeth a wnewch" (Caerdydd, Negyddol)

"Yn seiliedig ar anghenion y bobl, nid ar y gwasanaethau eu hunain" (Llanelwy, Negyddol)

"Mae pobl ar lefel cymdogaeth yn pennu anghenion ar gyfer gwasanaethau ac maent yn rhan annatod o'r gwaith cynllunio a monitro - graddau uchel o ymreolaeth" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar bobl" (Llanelwy, Negyddol)

"Darparu'r gwasanaeth gorau a mwyaf perthnasol i'r unigolyn" (Caernarfon, Negyddol)

"Darparu gwasanaethau o safon i'r cyhoedd" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Sicrhau bod gwasanaethau yn hyblyg ac yn briodol i'r cyhoedd" (Caerfyrddin, Negyddol)

"Cymryd rhan gyda chymunedau" (Llanelwy, Cadarnhaol)

"Cyfathrebu'n effeithiol gyda'r dinesydd" (Caernarfon, Negyddol)

"Gwrando a deall" (Caernarfon, Negyddol)

Rhai o'r elfennau allweddol o 'ganolbwyntio ar ddinasyddion' a nodwyd gan rhanddeiliaid oedd:

- Canolbwyntio ar **anghenion y bobl**
- Ymwneud â **phobl, nid systemau neu wasanaethau** (felly mae angen iddo gael ei arwain yn ôl y galw a'i hyrwyddo gan ddinasyddion)
- Sicrhau bod dinasyddion **yn ganolog** i weithgareddau - felly gweithredu o'r gwaelod i fyny, nid o'r brig i lawr
- Darparu **gwasanaeth o safon**
- Angen sicrhau **prosesau da o gyfathrebu / ymgynghori / ymgysylltu** â dinasyddion
- Mae angen i wasanaethau fod yn **hyblyg**

Diffiniad cyffredinol a roddwyd i 'ddinasyddion' ar y cyfan, oedd pobl Cymru, er bod rhai rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar lefel gymunedol neu gymdogaethol is. Cydnabu eraill bod angen ystyried cynulleidfaoedd ar lefelau gwahanol a'u hanghenion amrywiol ac unrhyw wahaniaethau dilynol wrth geisio ymgysylltu â hwy ar gyfer canolbwyntio ar ddinasyddion.

"Anghenion yr unigolyn ac wedi'i gasglu ar lefel gymunedol. Gwerthfawrogi gwahaniaethau ar lefelau gwahanol ac ymgysylltu â hwy mewn modd ystyrlon" (Caerdydd, Cadarnhaol)

3.2.2 Beth yw Canolbwyntio ar Gwsmeriaid ac a yw'n wahanol i Ganolbwyntio ar Ddinasyddion?

Archwiliwyd dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r term 'canolbwyntio ar gwsmeriaid' hefyd yn ystod y trafodaethau, drwy ofyn i gyfranogwyr ddiffinio hyn ac ystyried p'un a oedd yn wahanol i 'ganolbwyntio ar ddinasyddion'.

Roedd llawer o randdeiliaid o'r farn bod 'dinesydd' a 'chwsmer' yn gydgyfnewidiol ac felly teimlwyd nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng 'canolbwyntio ar ddinasyddion' a 'chanolbwyntio ar gwsmeriaid'. Roedd rhai hefyd am gael gwybod pam y byddai rhywun am wahaniaethu rhwng y ddau.

"Ni chredaf y dylai [wahaniaethu] i'r Cynulliad oherwydd dinasyddion Cymru yw eu cwsmeriaid." (Llanelwy, Negyddol)

Er bod llawer o staff yn credu bod 'canolbwyntio ar ddinasyddion' a 'chanolbwyntio ar gwsmeriaid' yn golygu'r un peth, felly, roedd eraill yn dehongli bod canolbwyntio ar gwsmeriaid yn rhywbeth gwahanol iawn, am y rhesymau canlynol:

- Mae canolbwyntio ar ddinasyddion yn awgrymu poblogaeth gyffredinol ac mae cwsmeriaid yn awgrymu poblogaeth ar lefel is, fwy cul (h.y. sectorau gwahanol o fewn y boblogaeth, fel pobl anabl)

"Nid oes raid i bob dinesydd fod yn gwsmer, ond tybir bod pob dinesydd yn gwneud cyfraniad ariannol" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

- Mae canolbwyntio ar gwsmeriaid yn awgrymu canolbwyntio ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Llywodraeth y Cynulliad yn uniongyrchol ac felly mwy o 'ofal cwsmeriaid'

"Defnyddwyr gwasanaethau penodol - safbwynt sy'n canolbwyntio ar y darparwr" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Mwy o safbwynt gwasanaeth / cynnyrch" (Caerdydd, Negyddol)

"Grwpiau / gwasanaethau sy'n delio â'r Cynulliad. Grwpiau sy'n ceisio dylanwadu ar y Cynulliad" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Ie, oherwydd gall cwsmer gerdded i ffwrdd, ni all dinesydd wneud hynny. Gyda chwmni nad yw'n canolbwyntio ar ddinasyddion, mae gan y cwsmer ddewis, maent yn mynd i Marks & Spencer neu Debenhams, ond os nad yw gwlad yn canolbwyntio ar ddinasyddion... nid oes gan ei ddinasyddion obaith o fynd i unrhyw le, felly gallech fod yn llywodraeth wael neu gallech fod yn llywodraeth dda ond all neb ddianc beth bynnag" (Caernarfon, Cadarnhaol)

- Nid oedd un neu ddau yn siŵr ynghylch pa mor briodol oedd y gair 'cwsmer' yng nghyd-destun meysydd cyfrifoldebau rhai rhanddeiliaid

"Mae cwsmer yn air anodd i'm gwasanaeth i weithiau oherwydd ceir elfen o orfodaeth os yw'n ymwneud ag amddiffyn plant... nid yw cwsmer yn air teg i'w ddefnyddio" (Llanelwy, Negyddol)

Pan ddangoswyd diffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gymerwyd o'r ddogfen Creu'r Cysylltiadau (gweler Atodiad C), ni theimlwyd bod unrhyw beth yn peri syndod ar y cyfan, ond roedd lleiafrif yn amheus ynghylch a oedd hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

"Oherwydd nid yw'r strategaethau sydd ganddynt yn cyflawni hynny" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"...gwn fel Clerc Cyngor Cymuned ein bod ar y lefel isaf, nid oes unrhyw un yn gwrando arnom ni, mae'n rhaeadru i lawr o'r brig yn hytrach nag o'r gwaelod i fyny fel y dylai fod, ond nid yw hynny'n digwydd" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Roedd gan lond llaw o randdeiliaid hefyd feirniadaethau penodol: nododd dau randdeiliad nad oedd diffiniad Llywodraeth y Cynulliad yn ddigon manwl ac mai ticio blychau yn unig yr oedd, yn hytrach na dechrau gydag anghenion dinasyddion; roedd rhai eraill yn feirniadol o'r naws a'r iaith a ddefnyddiwyd.

"Safbwynt y Cynulliad yw 'Ni yw'r gwasanaethau statudol cyhoeddus, dyma ni, dyma beth rydym yn bwriadu ei wneud, dewch draw a chymerwch ran yn ein gwaith'. Ac mae'n ymwneud â dinasyddion yn cymryd rhan mewn gwasanaethau cyhoeddus, sef ticio eu blychau ar gyfer ymgynghoriadau a chymryd rhan ac ni cheir ymdeimlad o ymreolaeth gymunedol" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Yn hytrach na dechrau gyda hwy [dinasyddion] mae'n dechrau gyda chorff arall a gweledigaeth sy'n dod â hwy at wraidd y ffordd y cynlluniwyd gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n ddrwg gen i, y dinasyddion yw'r canol... mae'n gwrthdroi'r model... Mae'n nawddoglyd iawn" (Caerdydd, Negyddol)

"Mae hynny'n ddatganiad nodweddiadol gan y biwrocratiaid a ysgrifennir gan ysgolheigion Caergrawnt a Rhydychen i'w archwilio, a reolir gan ysgolheigion Caergrawnt a Rhydychen, nad yw'n cynnwys sensitifrwydd, partneriaeth a dealltwriaeth wirioneddol" "Ond credaf fod y ddamcaniaeth y tu ôl i hyn... ynghylch bod am ganolbwyntio ar ddinasyddion a sicrhau bod cymunedau a phobl yn dylanwadu ar y ffordd y caiff y gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu yn gywir... ond gellid amau p'un a ydynt yn dweud hynny'n gywir a ph'un a ydynt yn cyflawni hynny" (Llanelwy, Negyddol)

3.3 Canfyddiadau o'r Lefel o Ganolbwyntio ar Ddinasyddion a geir o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru

3.3.1 Pwysigrwydd Canolbwyntio ar Ddinasyddion?

Yn gyffredinol, credir ei bod yn bwysig y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ganolbwyntio ar ddinasyddion, oherwydd i ddechrau, ni fyddai'n bodoli heb ddinasyddion, ac yn ail, gan mai drwy drethi dinasyddion y caiff ei ariannu.

"Oherwydd y dinasyddion y mae'n bodoli" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Ni yw'r bobl sy'n talu eu cyflogau a ni yw'r bobl sy'n eu parchu ac yn disgwyl rhywfaint o arweinyddiaeth. O ble arall y cawn hynny?" (Caernarfon, Cadarnhaol)

"Oherwydd y ddamcaniaeth yw y bydd y gwasanaethau hyn yn dod yn fwy effeithiol ac yn cynnig gwerth gwell am arian oherwydd y byddent yn gywir y tro cyntaf, a byddwn yn cytuno â'r farn honno, os caiff y gwaith ei gyflawni'n dda" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Maent yn gwario ein harian ni" (Y Drennewydd, Cadarnhaol)

Fodd bynnag, nododd un perchennog busnes mai ystrydeb oedd hyn ac y dylai fod yn anochel.

"... mae'n swnio'n wirion. 'Rydym am ganolbwyntio ar ddinasyddion' - wrth gwrs y byddwch yn enw'r tad! Chi yw Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth gwrs y byddwch yn canolbwyntio arnom ni" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Nododd un rhanddeiliad o'r sector gwirfoddol na ddylai Llywodraeth y Cynulliad ymgynghori'n uniongyrchol â rhanddeiliaid - yn hytrach, dylai'r sefydliad fonitro perfformiad y cyfryngwyr sy'n delio'n uniongyrchol â'r defnyddwyr terfynol, a gweithredu'n gyflymach pan geir perfformiad gwael.

"Ni ddylent siarad llawer â dinasyddion yn uniongyrchol, oherwydd nid ydynt yn gweithio ar y lefel honno, yr awdurdodau lleol a chyrff eraill sy'n gweithredu ac mae amharodrwydd gwirioneddol yn y Cynulliad i ddweud 'Dydych chi ddim yn ei wneud yn iawn'... dylent gael gweithdrefnau gorfodi cryfach i sicrhau bod y bobl sy'n gweithio ar lefel gymunedol yn y gymdogaeth yn gwneud hynny'n iawn... yn aml byddant yn canolbwyntio ar lefel rhy fanwl yn hytrach nag ar lefel strategol" (Caerdydd, Cadarnhaol)

3.3.2 Canfyddiadau o Berfformiad

Nid oedd y safbwyntiau a gafwyd ar y graddau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn canolbwyntio ar ddinasyddion yn arbennig o gadarnhaol ar y cyfan. Er i rai gydnabod bod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio canolbwyntio ar ddinasyddion, ac yn ceisio symud i'r cyfeiriad cywir, nododd y rhan fwyaf o randdeiliaid yr anawsterau a gawsant wrth ddelio â'r sefydliad, fel tystiolaeth bod llawer o waith i'w wneud eto.

"Mae'n dychwelyd at y pwynt a wnaethom ynghylch cyfathrebu ac ymgynghori" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Credaf fod angen llawer mwy o waith arno... mae Gweinidogion ac Aelodau yn atebol i'r cyhoedd oherwydd os nad yw hynny'n wir, byddant wedi mynd yn yr etholiad nesaf, ond nid yw'n ymddangos bod swyddogion mor atebol i unrhyw un" (Caerdydd, Negyddol)

"Yn rhethregol, yn ddamcaniaethol, mae'n wych... Ond nid yw'r arfer ei hun hanner mor effeithiol" "Dwi'n meddwl eu bod yn trio'n galed iawn, ond rydych yn iawn, mae yna lawer o waith i'w wneud yn fy marn i" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Nid ydynt yn arbennig o dda... o ran arfer da maent yn ymgynghori mewn perthynas â'r maes ond maent yn ymgynghori llawer mwy gyda'r sefydliadau proffesiynol a statudol nag y maent gyda dinasyddion. Efallai bod hynny'n briodol" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Credaf fod problem yma, gan nad oes gan weision sifil y Cynulliad enw da am ganolbwyntio ar gwsmeriaid. Nid wyf yn siŵr eu bod yn cydnabod mai'r trethdalwr yw eu cwsmer" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)

Unwaith eto, roedd y rheini a oedd yn delio a DCELLS yn teimlo bod yr adran hon yn waeth na rhannau eraill o'r Cynulliad o ran canolbwyntio ar ddinasyddion

"Yn anffodus, dros y blynyddoedd maent wedi colli llawer o staff ac maent wedi colli llawer o staff da; pobl oedd yn deall y busnes yr oeddem yn gysylltiedig ag ef, ac nid ydynt yn gwrando mwyach. Roeddent yn arfer gwrando, ond nid ydynt yn gwneud hynny mwyach" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

Holodd rhai ynghylch i ba raddau (os o gwbl) y cafodd safbwyntiau dinasyddion eu hymgorffori yn y gwaith o ddatblygu polisi.

"A ydynt wedi gofyn i'r dinasyddion beth maent ei eisiau?... ar ddiwedd y dydd mae'n ymddangos fel bod Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno polisiâu y disgwylir i ni ymateb iddynt, mae fy sefydliad yn mynd i orfod cyflwyno gweithdrefnau ailgylchu gwastraff bwyd cyn hir oherwydd mae'r Cynulliad wedi penderfynu ei fod yn syniad da. Mae fy ngwraig yn cwyno'n ddi-baid ynghylch 'Faint o finiau y bydd yn rhaid i ni eu defnyddio i wahanu ein holl ddeunydd gwastraff iddynt, wnes i ddim gofyn am hyn, dydw i ddim eisiau hyn'... Wn i ddim a yw dinasyddion Cymru

erioed wedi lleisio eu barn ar y gwaith o gyflawni rhai o'r polisïau hyn"
(Caernarfon, Negyddol)

Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod ymgysylltu â dinasyddion yn waith hawdd.

"Mae angen addysgu dinasyddion o ran cydnabod ei bod yn werth iddynt ymgysylltu â'r holl broses, nad oes unrhyw un wedi llwyddo i'w wneud eto"
(Caerfyrddin, Cadarnhaol)

Nododd rhanddeiliad arall yr effaith negyddol ar lefel y canolbwyntio ar ddinasyddion a geir o fewn Llywodraeth y Cynulliad o ran uno cwangos a chynyddu prosesau canoli a gafwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

"Roedd strwythurau rhanbarthol a phwyllgorau rhanbarthol yn y Swyddfa Gymreig, felly roedd cynrychiolaeth o'r sector preifat ar y Cynghorau Hyfforddiant a Menter er mwyn dylanwadu ar y Swyddfa Gymreig, roedd gan y WDA fwrdd, mae hyn i gyd wedi mynd erbyn hyn... Felly mewn gwirionedd mae'r gynrychiolaeth ranbarthol gan ddinasyddion wedi'i dileu" (Y Drenwydd, Cadarnhaol)

3.3.3 Cymharu Llywodraeth Cynulliad Cymru â Sefydliadau Eraill

Ni allai llawer o ymatebwyr roi sylw ar sut roedd Llywodraeth y Cynulliad yn cymharu â sefydliadau eraill o ran canolbwyntio ar ddinasyddion.

O'r nifer fach iawn a allai wneud hynny, cymharodd rhai Llywodraeth y Cynulliad â busnes ac nid oeddent yn credu ei bod yn cymharu'n dda.

"Nid wyf yn credu bod llawer o gymhariaeth. Gyda'r sector preifat gallwch gerdded i ffwrdd, gallwch fynd i Marks & Spencer os dymunwch neu gallwch fynd i Debenhams, gallwch fynd i B&Q neu i Homebase, chi biau'r dewis. Does dim dewis yma, maent wedi'u gwreiddio yn ein bywydau. Os byddent yn trin eu busnes fel sefydliad gwneud arian credaf y byddent yn mynd i'r wal yfory, gan nad ydynt yn canolbwyntio ar gwsmeriaid" (Caernarfon, Cadarnhaol)

"Yn y bôn credaf fod ganddynt ormod o staff a gormod o lywodraeth... pan fyddaf yn cadeirio cyfarfod y dyddiau hyn mae'n rhaid i mi gael briff cadeirydd. Rwyf wedi bod yn cadeirio cyfarfodydd ers 30 o flynyddoedd, ac yn gwybod sut mae gwneud hynny ond er hyn mae'n debyg y bydd angen i'r swyddog gweithredol sy'n edrych ar fy ôl dreulio diwrnod yn paratoi briff y cadeirydd, hynny yw, os na fydd wedi treulio'r tri diwrnod diwethaf yn paratoi briff gweinidogol. Felly credaf y byddent yn llawer mwy effeithiol pe byddai'n fusnes preifat" (Y Drenwydd, Cadarnhaol)

3.4 Enghreifftiau o Arfer Da ac Arfer Gwael par. Canolbwyntio ar Ddinasyddion

Gofynnwyd i gyfranogwyr ar draws y trafodaethau grŵp os gallent feddwl am unrhyw enghreifftiau penodol o arfer da ac arfer gwael o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â chanolbwyntio ar ddinasyddion.

Nododd llawer o'r rhanddeiliaid bolisïau amlwg Llywodraeth y Cynulliad a oedd yn dda neu'n wael yn eu barn hwy, e.e.:

Da

- gwahardd ysmegu mewn mannau cyhoeddus
- presgripsiynau am ddim
- nofio am ddim
- mynediad am ddim i amgueddfeydd / safleoedd Cadw i rai grwpiau
- gwella maethiad a diet plant

- buddsoddi mewn llyfrgelloedd

Gwael

- cau ysgolion gwledig

Holodd rhai rhanddeiliaid ar draws rhai o'r grwpiau beth oedd y cymhelliad y tu ôl i rai o'r polisïau 'mwy poblyddol' hyn.

"Beth am bethau fel parcio am ddim mewn ysbytai? Beth yw pwynt hynny? Gwn ei fod yn benderfyniad poblyddol iawn ond mae'n mynd i beri llawer o broblemau. A beth am bresgripsiynau am ddim. Maent yn boblyddol iawn, ond ai dyna beth sydd ei angen yn y wlad hon? Ai dyna yw ein blaenoriaethau? Mae angen i ni ddeall achosion tlodi...nid wyf yn credu... fod pethau fel hyn yn mynd i gael effaith hirdymor ar safon byw yng Nghymru a chredaf fod perygl y bydd gwleidyddion yng Nghymru yn ceisio cael poblogrwydd tymor byr ar draul edrych ar broblemau hirdymor y mae angen iddynt roi sylw iddynt" (Caernarfon, Negyddol)

"Mae rhai pethau fel presgripsiynau am ddim a nofio am ddim a'r holl bethau yn eu barn hwy, a does dim angen i mi fod yn goeglyd, ond y pethau a fydd yn ennill pleidleisiau iddynt, ond dyna yw ystyr canolbwyntio ar ddinasyddion yn eu barn hwy" (Caerfyrddin, Negyddol)

Rhoddwyd amrywiaeth eang ac amrywiol iawn o enghreifftiau, felly mae rhai wedi'u dewis a'u cynnwys isod i ddangos amrywiaeth yr ymatebion. Fel y gellir gweld, nodwyd ymgynghori fel un o'r enghreifftiau o arfer gwael (ac fel un o'r enghreifftiau o arfer da, i raddau llawer llai) o ran canolbwyntio ar ddinasyddion yn ddigymell mewn llawer o'r sesiynau i randdeiliaid:

Arfer da	Arfer gwael
Grwpiau trawsbynciol (yn cynnwys adrannau mewnol a rhanddeiliaid allanol) e.e. Fforymau Mynediad Lleol (ar gyfer Cefn Gwlad) <i>"Maent yn syniad da o ran ceisio cyflawni'r weledigaeth honno" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)</i> Grŵp Cyfranogi i Blant a Phobl Ifanc <i>"Maent yn arwain y gwaith o sicrhau cyfranogiad ac ymgysylltiad gan blant a phobl ifanc ac... mae ganddynt arweinwyr penodol ym mob adran sy'n gyfrifol am eu gwaith yn ymwneud â phlant a phobl ifanc" (Caerdydd, Negyddol)</i> Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc	Mae'r polisïau wedi'u hanelu at Dde Cymru / materion dinesig weithiau <i>"Mae gan Dde Cymru boblogaeth anferth ar draws y gwaelod ac mae Gogledd Cymru yn llawer mwy gwledig. Felly gellir cael pryderon gwahanol... pethau fel masnachu plant, oes, mae angen bod yn ymwybodol o hynny, ond nid wyf yn ymwybodol hyd yma o unrhyw gyfeiriadau yng Ngogledd Cymru... weithiau byddwn yn teimlo yr hoffem gael mwy o'r hyn sy'n berthnasol i ni" (Llanelwy, Cadarnhaol)</i> <i>"Gweision sifil... yn bennaf yn gweithio yng Nghaerdydd ac yn edrych ar fywyd o safbwynt Caerdydd" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)</i>
Cymwysterau / gwaith da (e.e. Prentisiaethau Modern, Diploma mewn Sgiliau Modern) Prentis y Flwyddyn	Onid ni chânt eu marchnata'n dda (na rhaglenni / gwasanaethau eraill) - efallai oherwydd mai'r rhesymeg ganfyddedig oedd y byddai'r galw'n fwy na'r hyn sydd ar gael? <i>"Nid wyf yn credu eu bod yn effeithiol o ran... marchnata eu gwasanaethau a marchnata cynnyrch Cymru... mae cymwysterau gwych ar gael i bobl. Maent yn eu marchnata i ryw raddau ond mae hynny ar lefel gymharol isel... Mae pethau da'n digwydd, ond nid ydym yn datgan hynny" (Caerdydd, Negyddol)</i>

Arfer da	Arfer gwael
Ymgynghoriadau, yn benodol: - Maent yn ceisio ymgynghori! - Wedi'u hysgrifennu'n gymharol dda ar gyfer cynulleidfa broffesiynol	Ond ceir problemau gydag ymgynghoriadau: 1. dim adborth <i>"[Rwyf] wedi cymryd rhan mewn sawl ymgynghoriad ac nid wyf erioed wedi clywed unrhyw beth yn ôl" (Caernarfon, Cadarnhaol)</i> <i>"Nid wyf yn cael unrhyw adborth o'r broses a dyna sy'n rhwystredig i mi yn gyffredinol, mae'n ddeialog hynod unffordd ac unochrog" (Caerdydd, Negyddol)</i> 2. yr argraff ei bod yn ffaith wedi'i chyflawni <i>"... mae'r ddogfen ymgynghori yn dod i lawr i'n lefel ni, rydym yn ei llenwi, yn nodi ein barn ac yn ei hanfon i ffwrdd, nid ydym yn gwybod, nid ydym yn cael unrhyw adborth... a ydynt yn ystyried ein mewnbwn ni i'r ymgynghoriad hwn? Nid ydych yn gwybod os oes unrhyw un yn cymryd sylw ohoni neu os yw'n ffaith wedi'i chyflawni... mae'n bosibl eu bod wedi penderfynu'n barod beth bynnag..." (Caernarfon, Cadarnhaol)</i> <i>"Nid yw rhoi sêl bendith ar rywbeth yr un peth â chynnal ymgynghoriad" (Llanelwy, Negyddol)</i> <i>"Pan fyddwch yn cael dogfen ymgynghori gallwch feddwl 'Wel, yn y pen draw maent wedi penderfynu'n barod, i ba raddau y caiff hyn effaith?' ond ar ôl paratoi a chyflwyno eich ymateb ni cheir llawer o ymateb" (Caerdydd, Negyddol)</i> 3. mae'r cyfnod ymgynghori yn rhy fyr <i>"Mae'r Cynulliad wedi diffinio mai 12 wythnos yw'r isafswm cyfnod ymgynghori [ar gyfer tai]. Ni chafwyd unrhyw enghraifft dros y tair blynedd a hanner diwethaf o'r Cynulliad yn defnyddio cyfnod ymgynghori nad yw'n 12 wythnos, er gwaethaf y ffaith ein bod yn dweud 'Os ydych am i ni fynd allan at denantiaid a rhoi adborth i chi, os ydych am gynnwys pobl ifanc, os ydych am gynnwys pobl anabl, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig... bydd yn cymryd mwy o amser' ond nid ydynt yn gwrando"</i> <i>"Rydym newydd gael llawer o waith ac maent wedi rhoi 8 wythnos i ni ymgynghori... ac roedd pedair o'r rheini ym mis Awst. Felly nid oes athrawon ar gael, mae llawer o bobl ar eu gwyliau, felly mae'r siawns o gael ymateb da... bron yn amhosibl" (Caerdydd, Cadarnhaol)</i>

Arfer da	Arfer gwael
Ymgynghoriadau (parhad):	4. dim cydgysylltu na meddwl cydgysylltiedig gyda chyfraddau amser <i>"Credaf mai'r peth arall yw nifer y pethau... byddwch bron yn cael eich llethu gan nifer y pethau maent yn gofyn i ni ymgynghori arnynt, ar yr un pryd fwy neu lai. Roedd gennym dri darn o waith pwysig, daeth un i ben ar 26^{ain} Medi, daeth un i ben ar 3^{ydd} Hydref a'r llall ar 9^{fed} Hydref. Bydd pob un wedi'u targedu at yr un bobl fwy neu lai... Ac mae hynny'n dangos bod adrannau gwahanol yn cynhyrchu pethau cymharol debyg heb edrych ar yr adrannau eraill, felly mae un yn cael ei arwain gan y Gweinidog Iechyd, un arall gan Brian Gibbons, un arall gan Jane Hutt, a phob un ohonynt yn sôn am raglenni tebyg iawn sy'n ymwneud â chanolbwyntio ar ddinasyddion"</i> (Caerdydd, Cadarnhaol) 5. dogfennau'n rhy hir / ddim yn glir nac yn hawdd i'r cyhoedd eu deall <i>"Credaf fod y rhan fwyaf o'u dogfennau wedi'u hysgrifennu'n gymharol dda ar gyfer cynulleidfa broffesiynol ond maent yn dal i gynnwys gormod o iaith swyddogol ond yr arfer gwael yw nad ydynt o bell ffordd wedi'u hysgrifennu mewn modd a fydd yn ymgysylltu â phobl gyffredin"</i> (Caerdydd, Cadarnhaol) 6. gormod o ymgynghoriadau heb fod yn ymwneud â'r materion cywir o anghenraid <i>"Ni wnaethant ymgynghori â ni pan ddilëwyd y WDA, pan ddilëwyd ELWa, pan ddilëwyd yr Awdurdod Twristiaeth, ond maent yn ymgynghori â ni ar faterion bach iawn y dylai gwleidyddion dewr gyda gwasanaeth sifil cefnogol Llywodraeth Cynulliad Cymru ddelio â hwy. Felly mae'n iawn sicrhau cyfranogiad gweithredol gan ddinasyddion, cymunedau a busnesau, ond beth rydym am ei gael yw llywodraeth sy'n dangos rhyw fath o arweinyddiaeth fel nad oes angen cynnal ymgynghoriadau ar faterion cymharol ddibwys drwy'r adeg sy'n ymddangos fel pe baent yn ychwanegu tua 12 mis arall at y broses o gyflawni rhywbeth sydd angen ei gyflawni ar frys"</i> (Y Drenewydd, Cadarnhaol)
Hyrwyddo arloesedd a menter - annog pobl i sefydlu busnesau <i>"Caiff menter ei chyflwyno drwy'r ysgolion, sy'n ardderchog gan nad oes gennym ddiwydiannau anferth yng Nghymru beth bynnag"</i> (Caerfyrddin, Cadarnhaol)	Ond mae cymhwysedd ar gyfer unigolion sy'n dechrau busnes i gael arian bellach wedi'i godi i Lefel 4 - sydd y tu hwnt i gyrraedd rhai pobl ac yn debygol o arwain at atal menter

Arfer da	Arfer gwael
Addysg: - dileu TASau <i>"Y ffaith eu bod wedi dileu TASau a'u bod yn edrych ar y plentyn [eto] yn hytrach nag ar dablau" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)</i> - blaenoriaethu anghenion Sgiliau Sylfaenol pobl ifanc ac oedolion ledled Cymru	Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru <i>"Mae'n druenus" (Caerfyrddin, Negyddol)</i> Hefyd yn wael wrth geisio rhoi gwybodaeth gyffredinol i ddinasyddion am ei rôl a'i chylch gwaith
Cyhoeddi strategaethau	Ond nid yw'n ddigon atebol <i>"Y broblem gyda hyn yw nad yw'n glir eu bod yn atebol... Caiff gwasanaethau effeithiol eu cynllunio a'u darparu ond... ble mae'r cynllun gweithredu i ddelio â hynny, ble mae'r amserlen a ble mae'r targedau?... Yn wahanol iddynt hwy, rydym ni'n cael ein cymell a'n mesur gan gynlluniau gweithredu. Os edrychwch ar eu dogfennau strategaeth, maent yn amwys... dyna ble rydym am fynd, ond nid ydynt yn dweud sut maent am gyflawni hynny" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)</i>
	Diffyg dealltwriaeth o bobl go iawn ar faterion sydd y tu hwnt i'w profiad <i>"Ceir elfen o anghrediniaeth fod pobl wedi cael eu cyfeirio o un feddygfa i un arall, oherwydd yn eu profiad hwy fel gweision sifil mae eu teulu'n cael eu derbyn heb unrhyw broblemau... mae gennym broblemau yng Nghaerdydd, fel mae'n digwydd, ar Heol Casnewydd, lle nad oes unrhyw un am dderbyn mwy o gleifion oherwydd problemau ariannol. Ceisiwch egluro hynny i'r gweision sifil ac ni allant uniaethu ar adegau â'r hyn sy'n digwydd yn y byd go iawn" (Caerdydd, Cadarnhaol)</i>

3.5 Rhwystrau at Ganolbwyntio ar Ddinasyddion o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Atebion Posibl

Yna gofynnwyd i randdeiliaid pa rwystrau oedd yn atal Llywodraeth Cynulliad Cymru rhag canolbwyntio ar ddinasyddion neu rhag canolbwyntio mwy ar ddinasyddion.

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod cysylltiad rhwng llawer o'r themâu a drafodwyd ac felly y rhan fwyaf o'r rhwystrau a nodwyd oedd y rhai a nodwyd eisoes fel anawsterau yr oeddent hwy eu hunain yn eu cael wrth ryngweithio â Llywodraeth y Cynulliad, a drafodwyd yn adran 2.2. uchod.

Amlinellir rhai o'r prif rwystrau a nodwyd, ynghyd ag atebion posibl a awgrymwyd, isod:

Rhwyrstr i ganolbwyntio ar gwsmeriaid	Ateb / atebion a awgrymwyd?
Diffyg cyfathrebu <i>"Gweision sifil yn draddodiadol yw'r gwaethaf o ran ymgynghori a chyfathrebu ag unrhyw un, maent yn ddigon gwael o ran cyfathrebu yn eu swyddfeydd eu hunain"</i> (Caernarfon, Cadarnhaol)	Deialog <i>"Cyfathrebu. Sut arall y gallwch gael gwybod beth mae eich dinesydd am ei gael os na ofynnwch iddynt ac os na fyddwch yn ymgynghori â hwy?"</i> (Caernarfon, Cadarnhaol)
Biwrocratiaeth <i>"Gall y broses a'r polisi gymryd drosodd weithiau a gall fod yn rhwystr i ganolbwyntio ar ddinasyddion"</i> (Caerdydd, Negyddol)	Symleiddio prosesau / lleihau biwrocratiaeth
Diffyg dealltwriaeth / gwybodaeth dinasyddion	Addysg ac ymgysylltu <i>"Os gofynnwch i lawer o bobl, nid ydynt yn gwybod beth yw'r gwahaniaeth rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru... nid wyf yn credu ei bod yn glir i bawb, ac yn gyffredinol... nid oes ots ganddynt pwy sy'n cyflawni, yr unig beth sy'n bwysig iddynt yw bod pethau'n cael eu cyflawni... felly credaf fod dau beth: pobl yn deall beth mae'r Cynulliad yn ei wneud, ond hefyd [Llywodraeth y Cynulliad] yn cydnabod mai byw eu bywydau o ddydd i ddydd y mae pobl am ei wneud, oni bai bod rhywbeth a fyddai'n effeithio ar eu trethi neu eu darpariaeth iechyd"</i> (Caerdydd, Cadarnhaol) <i>"Maent gam neu ddau oddi wrth y dinesydd weithiau felly mae'n anodd iddynt agosáu... credaf eu bod yn dibynnu ar asiantaethau eraill i fwydo'r wybodaeth honno iddynt ac nid oes ffordd strwythuredig o wneud hynny"</i> (Caernarfon, Negyddol)

Rhwystr i ganolbwyntio ar gwsmeriaid	Ateb / atebion a awgrymwyd?
Diffyg gweithio cydgysylltiedig (gweler adran 4 o'r adroddiad)	Cyfathrebu gwell rhwng adrannau <i>"Rhywfaint o gydgysylltu o leiaf ar gyfer yr hyn maent yn ei ofyn [ar ymgynghoriadau]" (Caerdydd, Cadarnhaol)</i>
Diffyg dealltwriaeth o anghenion rhanbarthol	<i>"Credaf y dylai gweision sifil fod yn fwy ymwybodol o deimladau, anghenion a dyheadau rhanbarthau lleol"</i> (Caernarfon, Negyddol) Awgrymwyd y dylid cael uwch weision sifil yn gofalu am bob rhanbarth ac wedi'u lleoli yn y rhanbarth hwnnw
Anhawster i gael gafael ar Lywodraeth y Cynulliad neu wybod gyda phwy i siarad <i>"Mae'n anodd iawn cael gafael ar lawer o wasanaethau'r Cynulliad, i gyrff y sector cyhoeddus yn ogystal ag i ddinasyddion preifat. Mae gwefan y Cynulliad yn warthus"</i> (Caernarfon, Negyddol)	Un pwynt cyswllt yn y Cynulliad Gwefan well (gweler adran 5 isod)
Ymgynghoriad	Cynnwys rhanddeiliaid yn gynharach pan fyddant yn gallu llunio'r strategaeth yn fwy <i>"Ceisio cwrdd ac ymgysylltu â'r Cynulliad yn gynharach... pan fyddant yn sefydlu gweithgor, fel eu bod yn ceisio amrywiaeth gwahanol o ymgysylltiad gan sefydliadau ar y lefel honno o am y cynigion, a fydd yn arwain at ymgynghoriad"</i> (Caerdydd, Negyddol)

4. “GWEITHIO “CYDGYSYLLTIEDIG” YN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Y thema nesaf a drafodwyd gyda rhanddeiliaid oedd gweithio cydgysylltiedig a'u canfyddiadau o'r graddau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn modd "cydgysylltiedig".

4.1 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol sy'n ymwneud â Gweithio "Cydgysylltiedig" yn Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Pan ofynnwyd i rhanddeiliaid ddiffinio gweithio "cydgysylltiedig", gwelwyd rhai elfennau cyffredin allweddol yn eu diffiniadau, sef:
 - Cydweithio / partneriaeth (yn fewnol o fewn Llywodraeth y Cynulliad ac yn allanol gyda rhanddeiliaid)
 - Cael nod cyffredin
 - Cyfathrebu da gyda phob parti dan sylw
 - Wedi'i ategu gan ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o'r hyn yr oedd eraill yn ei wneud
- Cafwyd safbwyntiau negyddol bron yn gyffredinol gan rhanddeiliaid ar y graddau y ceir gweithio cydgysylltiedig yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Codwyd y mater yn ddigymell gan rai rhanddeiliaid yn gynnwys yn y trafodaethau fel rhywbeth a oedd yn golygu ei bod yn anodd delio â Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Y prif rwystrau i weithio cydgysylltiedig a nodwyd gan rhanddeiliaid, ynghyd â'u hatebion awgrymedig oedd:

Rhwstr	Ateb / Atebion
Meddylfryd seilo mewn adrannau	Datblygu strwythurau trawsbynciol
Cyfathrebu gwael	Dylai adrannau gwahanol integreiddio mwy wrth ddelio â chwsmeriaid Hyfforddiant ar draws adrannau
Diwylliant - 'ni a nhw' / diffyg dealltwriaeth	Cael dealltwriaeth well o sefydliadau rhanddeiliad - secondiadau / lleoliadau gwaith Bod yn fwy agored / tryloyw mewn trafodion
Daearyddiaeth, swyddfeydd rhanbarthol a chyfathrebu	Gwell defnydd o offer fideo-gynadledda
Canolbwyntio ar Gaerdydd	Swyddfeydd rhanbarthol <u>gyda'r awdurdod i wneud penderfyniadau</u> Cyflwyno cyfarwyddwyr rhanbarthol?

Colli ymreolaeth ranbarthol	Angen ystyried anghenion rhanbarthol
Biwrocratiaeth	Symleiddio prosesau Mwy o hyblygrwydd Gwneud penderfyniadau'n gyflymach
Gwleidyddiaeth	Heb nodi unrhyw atebion!

4.2 Beth yw Gweithio "Cydgysylltiedig?"

4.2.1 Sut mae Rhanddeiliaid yn Diffinio Gweithio "Cydgysylltiedig"?

I ddechrau gofynnwyd i randdeiliaid beth mae'r term gweithio "cydgysylltiedig" yn ei olygu iddynt hwy.

Ceir rhai enghreifftiau o'r diffiniadau a roddwyd isod:

"Gweithio i ddealltwriaeth gyffredinol a nod neu amcan cyffredinol, gyda gweledigaeth gyffredin o'r hyn rydych am ei gyflawni. Os nad yw hynny gennych, bydd yn anodd iawn i chi fod yn gydgysylltiedig" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Mae bod yn amserol yn allweddol, gwybod beth sy'n cael ei gyhoeddi ymlaen llaw, fel y gallwch ddweud 'lawn, beth am beidio ag anfon y pum strategaeth hyn sy'n effeithio ar yr un bobl o adrannau gwahanol, beth am wneud hyn yn wahanol'" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Dylai adrannau gwahanol integreiddio mwy wrth ddelio â'u cwsmeriaid" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)

"Y llaw dde yn gwybod beth mae'r llaw chwith yn ei wneud" (Llanelwy, Cadarnhaol)

"Ymagwedd gyfannol" (Llanelwy, Cadarnhaol)

"Cydberchenogaeth o flaenoriaethau" (Caernarfon, Negyddol)

"Cydweithio" "Partneriaeth" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Cyfathrebu" "Gwranddo" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Sicrhau bod yr holl adrannau'n cydweithio" (Caernarfon, Cadarnhaol)

"Ai proses sydd yma o syniadau yn gweithio eu ffordd o'r brig i lawr drwy'r gweinidogion i weinyddwyr i gyrraedd y dinasyddion, pobl Cymru? Y broses a'r cydweithio sydd ei angen er mwyn cyflawni'r nod hwnnw" "Credaf ei fod yn mynd ar draws yn ogystal ag i fyny ac i lawrhefyd y dull o weithredu o'r gwaelod i fyny" (Llanelwy, Negyddol)

"Rhannu gwybodaeth" (Y Drenewydd, Negyddol)

"Mae angen ymwybyddiaeth y bydd penderfyniad a wneir mewn un rhan o sefydliad yn effeithio ar ran arall o'r sefydliad" (Caerdydd, Negyddol)

Roedd un rhanddeiliad (o gefndir busnes yn y sector preifat) yn ddeifiol iawn pan soniwyd am weithio cydgysylltiedig

"Iaith rheoli ffug ydyw yn fy marn i ac rwy'n teimlo'n eithaf blin... bod Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud i mi ddod i eistedd yma pan ddylwn fod yn gweithio, i siarad am weithio cydgysylltiedig!... Mae'n anodd credu eu bod wedi gofyn i chi ofyn hyn i ni" (Caernarfon, Cadarnhaol)

4.3 Canfyddiadau o'r Graddau o Weithio Cydgysylltiedig yn Llywodraeth Cynulliad Cymru

4.3.1 Perfformiad Canfyddedig

Cododd diffyg gweithio cydgysylltiedig canfyddedig o fewn Llywodraeth y Cynulliad yn ddigymell yn nifer o'r trafodaethau rhwng rhanddeiliaid fel rhywbeth a oedd yn golygu ei bod yn anodd delio â Llywodraeth Cynulliad Cymru (fel y gwelwyd uchod yn adran 2.2), er nad oedd 'cydgysylltiedig' yn derm a ddefnyddiwyd gan rhanddeiliaid.

Felly nid oedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr astudiaeth o'r farn bod Llywodraeth y Cynulliad yn dda iawn mewn perthynas â hyn.

"Dyna'n union beth nad ydynt yn ei wneud nawr" (Caerdydd, Negyddol)

"Mae'n rhaid i mi ddweud, nid oes llawer o integreiddio amlwg yn yr adrannau o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru â dinasyddion. Er enghraifft, nid yw'n amlwg DCELLSS yn siarad â'r Adran Amaeth a Materion Gwledig... neu beth bynnag yw ei henw o ran strategaeth sydd ei hangen ar gyfer pobl ifanc neu DPP ar gyfer y diwydiant ffermio" (Llanelwy, Negyddol)

"Nid yw gweithio cydgysylltiedig yn digwydd yn y Cynulliad, mae adrannau gwahanol yn pennu blaenoriaethau gwahanol a gwrthgyferbyniol heb siarad â phobl eraill... mae'r Cynulliad yn endid mawr gyda chyllideb fawr, llawer o staff, llawer o adrannau ac mae gweithio seilo... yn endemig yn y Cynulliad" (Caernarfon, Negyddol)

"Seilos yw'r adrannau a dyna'r broblem fwyaf. Ni cheir digon o rannu gwybodaeth ar sawl lefel mewn adrannau, maent yn hierarchaidd ac ni chaiff llawer o wybodaeth ei rhannu ar draws adrannau... Ceir muriau anweledig ac mae hyn yn arbennig o amlwg wrth ddyrannu cyllidebau oherwydd caiff cyllidebau eu dyrannu i'r seilos ac felly os bydd rhywun yn cael ei reoli gan un grŵp ond bod ganddo brosiect sy'n hollbwysig i grŵp arall, mae'n anodd iawn ac ni chaiff arian ei symud ac mae hynny'n anodd... O ran gweithio cydgysylltiedig mewn perthynas â gweithio gydag awdurdodau lleol er enghraifft, yr holl lefelau gweinyddu gwahanol yng Nghymru, mae hynny'n eithaf anodd hefyd a chredaf ei fod yn deillio o'r syniad sydd gan Lywodraeth y Cynulliad mai hi yw'r prif gorff ac er nad yw'n bwriadu rheoli ar lefel leol, dyna sy'n digwydd" (Y Drenewydd, Negyddol)

Roedd rhai o'r farn bod y sefyllfa wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf pan unwyd y cwangos amrywiol ac oherwydd yr holl ailstrwythuro a gafwyd. Fodd bynnag, nododd rai rhanddeiliaid strategaeth Cymru'n Un fel arwydd o ymrwymiad i gyflwyno gwelliannau mewn perthynas â hyn.

"Rwy'n croesawu'r ddogfen Cymru'n Un a oedd â'r nod o ddileu'r seilos rhwng isadrannau gweinidogol. Credaf ei fod yn dechrau gweithio, mae llawer mwy o waith i'w wneud ond credaf fod pob strategaeth sy'n gadael Llywodraeth y Cynulliad nawr, yn mynd i ryw fath o Borth, onid ydy?" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)

Roedd rhai pobl eraill o'r farn eu bod wedi gweld arwyddion cadarnhaol hefyd, o ran bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar bartneriaeth ac fel sgîl-effaith y broses o gyflwyno arian Cydgyfeirio.

"Ond credaf fod cynnydd... cafwyd neges ar gyfer cydweithio a phartneriaeth, ac yn bendant ar gyfer cydgyfeirio..., llai o brosiectau ymyrraeth manylach... Mae hynny wedi gwrthio grwpiau penodol o bobl i gydweithio'n agosach ac mae'n rhaid i mi ddweud, mae manteision anferth i hynny" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

Er gwaethaf beirniadaeth ar ei pherfformiad, y farn oedd nad oedd Llywodraeth y Cynulliad yn waeth nag unrhyw gyrff cyhoeddus eraill mewn perthynas â hyn, ond nad oedd yn well na hwy chwaith. Nododd rhai pobl ei bod yn anoddach gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig mewn sefydliad mawr.

4.4 Enghreifftiau o Arfer Da ac Arfer Gwael par. Gweithio Cydgysylltiedig

Yn ystod y drafodaeth, gofynnwyd i randdeiliaid feddwl am enghreifftiau o arfer da a gwael penodol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran bod yn gydgyssylltiedig. Roedd y rhan fwyaf yn credu ei bod yn haws enwi enghreifftiau o arfer gwael yn hytrach nag arfer da, gan adlewyrchu safbwyntiau ar berfformiad presennol y sefydliad mewn perthynas â hyn.

Fel gyda'r thema canolbwyntio ar ddinasyddion, roedd yr enghreifftiau yn amrywiol iawn (yn adlewyrchu cefndir a safbwyntiau amrywiol iawn y cyfranogwyr a'r ffaith eu bod wedi'u dethol yn naturiol o feysydd gwaith y rhanddeiliaid eu hunain) a dim ond un neu ddau o bobl a nododd hyn, felly ni chafwyd llawer o gysondeb ar draws y grwpiau.

Fodd bynnag, rhoddir rhai enghreifftiau isod i ddangos yr amrywiaeth yn yr enghreifftiau a roddwyd:

Arfer da	Arfer gwael
Strategaeth Twristiaeth Bwyd	DCELLS
Strategaeth / Cynllunio <i>"Gallaf weld cysylltiadau a nodweddion perthnasol ac ati yn y cyfeiriadau strategol, ac o fynd yn ôl saith neu wyth mlynedd, nid oedd polisiâu clir ar gael, felly erbyn hyn ceir darlun gwell o ran beth yw eu nod o ran Cymru ac ati" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)</i>	Strategaethau sy'n gorgyffwrdd
Ombwdsmon Plant (gweithio ar draws gwasanaethau gwahanol)	Hyfforddiant Cyfranogi
Llwybr Arfordirol Cymru Gyfan	Yr holl agenda Tlodi
Partneriaeth Bwyd-amaeth (er ei fod wedi mynd erbyn hyn)	Gweithdrefnau newydd ar amddiffyn plant (ar y cam cyflwyno i ddechrau er bod hyn wedi gwella'n ddiweddarach)

Seminar Llywodraeth y Cynulliad ar Anweithgarwch Economaidd <i>"Gofynnwyd i bob adran yn y Cynulliad sefyll am ddau funud a dweud beth roeddent yn ei wneud neu'n ei gyfrannu... Roedd yn arfer da bod rhywun wedi trefnu seminar y diwrnod hwnnw... er mwyn ceisio torri ar draws hynny"</i> (Caerfyrddin, Negyddol)	Cyfansoddiadau gwahanol y pedwar corff sy'n rhan o'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru - un yn Llywodraeth y Cynulliad (Cadw) a'r tri arall yn allanol
---	---

4.5 Rhwystrau i Weithio Cydgysylltiedig o fewn Llywodraeth y Cynulliad ac Atebion Posibl

Yn dilyn y drafodaeth ar arfer da a gwael, gofynnwyd i randdeiliaid nodi'r hyn oedd yn rhwystro gweithio cydgysylltiedig o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ochr yn ochr â hyn, gofynnwyd iddynt feddwl am atebion posibl i oresgyn y rhwystrau hyn, er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn fwy cydgysylltiedig.

Dangosir y prif rwystrau a nodwyd gan gyfranogwyr yn y tabl isod, ynghyd ag awgrymiadau ar atebion posibl (pan oedd ymatebwyr yn gallu meddwl am rai). Mae'r rhwystrau allweddol a nodwyd gan y rhan fwyaf o grwpiau a'r rhai yr oedd gan randdeiliaid deimladau cryfaf yn eu cylch wedi'u lliwio:

Rhwyr	Atebion
Meddylfryd seilo mewn adrannau <i>"Ceir meddylfryd seilo mewn adrannau o hyd, mae ganddynt eu cynlluniau, eu strategaethau, eu hatebolrwydd gwleidyddol, eu cyllidebau ac mae'n anodd iawn cael eu sylw y tu allan i'r dogfennau y maent yn gweithio arnynt"</i> (Caerdydd, Cadarnhaol)	Datblygu strwythurau trawsbynciol, e.e. Hyrwyddwyr Cyfranogi yn y Sector Tai <i>"Mae angen iddynt gael rhyw fath o dimau trawsbynciol sy'n gweithio ar draws ffiniau adrannol ar faterion penodol"</i> (Caerdydd, Cadarnhaol)
Cyfathrebu gwael <i>"Roedd gennym brosiect a weinyddwyd drwy WEFO a dywedwyd wrthym nad oedd rhai costau yn gymwys felly dywedodd un adran ei fod yn iawn a dywedodd adran arall nad oedd yn iawn felly nid yw hynny'n gydgysylltiedig iawn. Ac nid wyf yn credu bod yr adran sy'n gwneud y profion cydymffurfiaeth a'r adrannau eraill yn cyfathrebu'n dda iawn"</i> (Caernarfon, Cadarnhaol)	Dylai adrannau gwahanol integreiddio mwy wrth ddelio â chwsmeriaid <i>"Wel mae'n rhaid iddynt wella eu dulliau cyfathrebu'n fewnol i ddechrau, fel bod yr adrannau'n siarad â'i gilydd"</i> "...Ac yn allanol wrth gwrs, gyda'u rhanddeiliaid" (Caerfyrddin, Cadarnhaol) Hyfforddiant ar draws adrannau <i>"Sut y gallwch gael gweithio cydgysyllteidig os mai dim ond y pethau sy'n berthnasol i'ch maes uniongyrchol chi y gwyddoch amdanynt ac nad ydych yn ymwybodol o'r hyn a allai fod yn digwydd ym maes lechyd neu Wasanaethau Cymdeithasol a allai effeithio ar eich maes gwaith chi?"</i> (Caerdydd, Negyddol)

Rhwystr	Atebion
Diwylliant / diffyg dealltwriaeth / 'nhw a ni' <i>"Er y ceir partneriaethau gydag elfennau o'r Cynulliad ar hyn o bryd, credaf weithiau nad ydym yn gweithio tuag at yr un nod. Mae ganddyn nhw eu hagenda hwy, mae gennym ni ein hagenda ni a cheir rhywfaint o amharodrwydd i weithredu mewn ffordd gydweithredol" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)</i>	Cael dealltwriaeth well o sefydliadau rhanddeiliad / mwy o secondiadau, profiad gwaith ymarferol <i>"Deall beth rydym yn ei wneud. Gwneud iddynt weithio allan yn yr ardaloedd pellennig er mwyn iddynt werthfawrogi sut beth yw hynny" "Gall unrhyw un leisio eu barn, gweithredu sy'n gwneud gwahaniaeth" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)</i> Bod yn fwy agored a thryloyw wrth ddelio â rhanddeiliaid
Daearyddiaeth, swyddfeydd rhanbarthol a chyfathrebu - rhagwelodd rhai y byddai hyn yn gwaethygu wrth i adrannau gael eu rhannu rhwng rhanbarthau (e.e. Caerdydd), tra bod eraill o'r farn y byddai'n debygol o wella gwasanaethau mewn rhanbarthau (e.e. Y Drenewydd) <i>"Os yw'r Cynulliad yn cael ei rannu'n gynyddol, gydag adrannau yn y Gogledd a'r De, rwy'n ofni y bydd hynny'n datblygu i fod yn seilo Gogledd a De yn ogystal ag yn seilo adrannol" (Caerdydd, Cadarnhaol)</i> <i>"Credaf hefyd fod gennym broblem ddaearyddol, mae'n amlwg bod llawer o bethau wedi'u lleoli yng Nghaerdydd ac ym Merthyr ac i lawr yn y De ac maent yn ceisio eu symud allan, ond oherwydd natur y ddaearyddiaeth mae un adran yn gweithio o Aberystwyth neu Fangor ac un arall yng Nghaerdydd, bydd y cyfathrebu rhwng yr adrannau yn dioddef oherwydd hynny" (Caernarfon, Cadarnhaol)</i>	Fideo-gynadledda <i>"Ond mae angen iddynt wneud hyn a'i feithrin yn llawer mwy effeithiol, nid ydym yn defnyddio'r dechnoleg hon yn briodol" (Caerdydd, Cadarnhaol)</i>
Canolbwyntio ar Gaerdydd <i>"Mae angen ystyried Cymru gyfan, mae'n hawdd iawn canolbwyntio ar Gaerdydd" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)</i> <i>"Mae'n amlwg bod ysbryd meddyliau'r biwrocratiaid yn canolbwyntio ar Gaerdydd ac mae popeth yn canolbwyntio ar Gaerdydd ac... ni cheir llawer o ffocws strategol ar y gwasanaethau yn y rhanbarth" "Credaf fod diffyg gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru" (Llanelwy, Negyddol)</i>	Ni chredwyd ei bod yn ddigon cael swyddfa yn y rhanbarth <i>"Mae'n rhaid iddi allu gweithredu" (Llanelwy, Negyddol)</i> Ac mae'n rhaid i wneuthurwyr polisi fod yn fwy ymwybodol o anghenion rhanbarthol <i>"Nid yw un peth yn addas i bawb" (Llanelwy, Negyddol)</i> Cyflwyno cyfarwyddwr rhanbarthol

Rhwysr	Atebion
Colli ymreolaeth ranbarthol / un peth yn addas i bawb <i>"Yn flaenorol ar gyfer dysgu a datblygu, pan oedd y TECs llawn yn bodoli, gwnaed penderfyniadau ar lefel leol yn y rhanbarthau, ac er bod gennym swyddfeydd rhanbarthol nawr, nid yw'r drefn o wneud penderfyniadau rhanbarthol yr un fath"</i> (Caerfyrddin, Cadarnhaol)	Angen ystyried anghenion rhanbarthol <i>"Gallent edrych ar y sefyllfa leol a gwneud penderfyniadau ar yr angen yn yr ardal honno. Angen sy'n bwysig bob amser"</i> <i>"Bydd hyn yn wahanol rhwng Gorllewin Cymru a Dwyrain Cymru, a rhwng De Cymru a Gogledd Cymru"</i> (Caerfyrddin, Cadarnhaol)
Biwrocratiaeth / prosesau trwsogl <i>"Arferion cyfyngol ar gyfer gweision sifil"</i>	Symleiddio / rhesymoli prosesau Mwy o hyblygrwydd Gwneud penderfyniadau'n gyflymach
Gwleidyddiaeth <i>"Mae'n rhaid bod tensiwn rhwng gweinidogion a all olygu bod rhwystrau i weithio cydgysylltiedig"</i> (Y Drenewydd, Cadarnhaol) <i>"Credaf fod gwleidyddion yn busnesu gormod gyda gweision sifil. Mae'n rhaid i wleidyddion gael gwybod mai eu rôl hwy yw pennu'r agenda; mae'n rhaid i weision sifil gael yr economi i weithredu hyn gan ddefnyddio creadigrwydd a dychymyg"</i> (Llanelwy, Negyddol)	Heb nodi unrhyw atebion!
Ymgynghoriad cyfyngedig	Mwy ystyrion, llai gwleidyddol <i>"Os byddwn yn troi i fyny er mwyn sicrhau niferoedd gallant ddweud, 'Gwnaethom ymgynghori â'r grŵp hwn o bobl... ond yn y pen draw ni cheir canllaw clir, felly rydym am wneud hyn [beth bynnag]"</i> (Caerfyrddin, Cadarnhaol)
Cystadleuaeth (rhwng rhanddeiliad / adrannau i gael cyllid)	Mwy o gydweithio, arweinyddiaeth gref
Targedu llwyth gwaith â ffocws iddo	Canolbwyntio ar safon, nid targedau Sicrhau bod unrhyw dargedau yn realistig
Diffyg arweinyddiaeth o fewn Llywodraeth y Cynulliad - gormod o strategaethau	<i>"Mae angen iddynt fynd nôl at yr hanfodion a chytuno ar y weledigaeth, fel ei bod yn glir, a chyfathrebu'r weledigaeth honno i'r gwahanol randdeiliaid"</i> (Caernarfon, Negyddol)

5. CAEL GWYBODAETH AM LYWODRAETH Y CYNULLIAD

Y thema nesaf a archwiliwyd gyda rhanddeiliaid oedd cael gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gwybodaeth amdani.

5.1 Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol mewn perthynas â chael gwybodaeth am Lywodraeth Cynulliad Cymru

- Nododd rhanddeiliaid amrywiaeth eang o ofynion gwahanol am wybodaeth pan ofynnwyd iddynt pa wybodaeth yr oeddent am ei chael gan Lywodraeth y Cynulliad, eto mewn perthynas â'r ystod o gefndiroedd / sefydliadau a gynrychiolwyd yn yr ymchwil
- Fodd bynnag, gwelwyd rhai themâu cyffredin, sef:
 - Manylion cyswllt / strwythur sefydliadol
 - Cyfeiriad teithio
 - Gwybodaeth meincnodi
 - Canlyniadau ymgynghoriadau / adolygiadau
- Nododd rhanddeiliaid hefyd y dylai pob darn o wybodaeth fod yn amserol, yn glir ac yn hawdd ei ddeall
- Mae'r brif sianel a ddefnyddir ar hyn o bryd gan bron bob rhanddeiliad i gael gwybodaeth gan ac am Lywodraeth y Cynulliad ar y wefan
- Er hyn, roedd y safbwyntiau ar y wefan yn negyddol iawn ar y cyfan, oherwydd:
 - Y cyfleuster chwilio gwael
 - Anodd symud o amgylch y wefan
 - Diffyg manylion cyswllt ar y lefel gywir
 - Nid yw'n ddigon cynhwysfawr.
- Pan ofynnwyd sut yr hoffent gael gwybodaeth, roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn fodlon ar y sefyllfa bresennol (er iddynt alw am welliannau i'r wefan). Fodd bynnag, hoffai lleiafrif sylweddol gael cyswllt mwy personol, sy'n gysylltiedig â'r galw am ragor o gyfeiriadau at gysylltiadau perthnasol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, os byddai angen help arnynt
- Felly, ymddengys fod gwella'r wefan, sef y prif adnodd gwybodaeth a ddefnyddir gan randdeiliaid, yn flaenoriaeth
- Cafwyd safbwyntiau cymysg ar ba mor hawdd neu anodd y mae i gael gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac roedd y safbwyntiau yn amrywio yn ôl lefel y rhanddeiliad, y math o sefydliad a'r adran(nau) y buont yn delio â hwy. Nid oedd y rheini ar lefel uwch yn dueddol o gael unrhyw anawsterau, ond roedd y rhanddeiliaid hynny ar lefel is yn dueddol o gael mwy o anawsterau gan nad oeddent yn cael cysylltiadau mor bersonol

- Nid oedd problemau â'r wybodaeth a anfonwyd gan Lywodraeth y Cynulliad - ymddengys bod yr anawsterau'n codi pan oedd gan randdeiliaid ymholiadau neu pan oedd angen iddynt gysylltu â Llywodraeth y Cynulliad
- Y prif rwystrau i gael gafael ar wybodaeth oedd:
 - o y wefan,
 - o diwylliant y gwasanaeth sifil (ni chanfyddir ei fod yn canolbwyntio llawer ar gwsmeriaid) a
 - o gwybod pwy i gysylltu â hwy os bydd angen
- Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn gwerthfawrogi'r wybodaeth ddwyieithog a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad yn fawr a dim ond rhai cyfranogwyr oedd yn anghytuno â hynny.

5.2 Pa Wybodaeth y mae Rhanddeiliaid am ei chael am Lywodraeth Cynulliad Cymru?

Ar ddechrau'r adran hon o'r drafodaeth, gofynnwyd i gyfranogwyr nodi ar post-its unrhyw wybodaeth a oedd yn bwysig iddynt hwy neu eu sefydliad yr hoffent ei chael gan (neu am) Lywodraeth y Cynulliad.

Er y codwyd amrywiaeth eang iawn o ofynion gwybodaeth, gwelwyd rhai themâu cyffredin, yn bennaf:

- **Manylion cyswllt / strwythurau trefniadaeth:** h.y. sut i gael gwybod pwy y mae angen iddynt siarad â hwy o fewn Llywodraeth y Cynulliad

"Hoffwn gael gwybod beth yw rôl a chylch gwaith yr adrannau gwahanol. Sut maent yn cydweithredu, sut maent yn cysylltu â'i gilydd? Ond gwybod hefyd am rôl y rheini ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, nid yw hynny'n glir o gwbl" (Caernarfon, Negyddol)

"Hoffwn gael manylion cyswllt clir sy'n nodi at bwy y gallaf fynd ar gyfer beth, fel fy mod yn gwybod pwy y dylwn gysylltu â hwy os wyf am gael unrhyw wybodaeth" (Caerdydd, Negyddol)

- **Cyfeiriad teithio:** h.y. Strategaeth / blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad

"I ble rydym yn mynd ar lefel genedlaethol? Beth yn union yw'r cyfeiriad polisi a strategaeth yn yr ardaloedd gwahanol?" (Caernarfon, Negyddol)

I raddau llai, gofynnodd y rhanddeiliaid am:

- **Gwybodaeth meincnodi** (yn seiliedig ar ystadegau a gyflwynwyd)
- **Canlyniadau ymgynghoriadau / adolygiadau**

Hefyd, er nad yw'n faes gwybodaeth fel y cyfryw, nododd llawer o grwpiau yr hoffent i bob darn o wybodaeth fod yn amserol, yn glir ac yn hawdd ei ddeall:

- **Gwybodaeth fwy amserol:** mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi gwybodaeth i randdeiliaid ar yr adeg gywir ac yn ddigon cyflym (yn cynnwys gwybodaeth o ddydd i ddydd ar leoliadau/amserau cyfarfodydd), ond hefyd rhoi digon o amser i randdeiliaid roi gwybodaeth i Lywodraeth y Cynulliad

"Mae problem gydag amseru'r wybodaeth, h.y. gwybodaeth am gyllidebau yn cael ei chyhoeddi'n rhy hwyr, sy'n golygu ei bod yn anodd tu hwnt rheoli yn lleol" (Caernarfon, Negyddol)

"Rwyf i fod i fynd i Abertawe ddydd lau yr wythnos nesaf i gael cyfarfod â gweinidogion. Wn i ddim ble... Nid ydynt bob amser yn rhoi digon o rybudd pryd fyddent am i ni fynychu cyfarfodydd, y dybiaeth yw nad oes gennym unrhyw beth arall i'w wneud gyda'n hamser" (Caernarfon, Negyddol)

"Byddai'n helpu pe byddem yn cael mwy o amser i gasglu'r wybodaeth!" (Llanelwy, Cadarnhaol)

- **Gwybodaeth glir a chryno** (llai cyffredin)

"A phan ddônt yn ôl ataf gyda'm hymateb hoffwn iddo fod yn ddealladwy. Weithiau maent yn ysgrifennu llythyr hirfaith heb ateb fy nghwestiwn yn iawn" (Caerdydd, Negyddol)

Nododd rhai pobl y byddai'n dda cael gwybod pan fyddai eu cysylltiadau yn Llywodraeth y Cynulliad yn newid.

"Credaf fod y cysylltiad rhyngom ni ac unigolion yn hanfodol. Weithiau pan fyddwch yn ffonio byddwch yn cael gwybod bod rhywun wedi gadael ei swydd ers misoedd. Ni cheir unrhyw ohebiaeth ynghylch pobl allweddol rydych yn cysylltu â hwy yn y Cynulliad, maent wedi symud i ddesg wahanol ac nid ydych yn gwybod pwy sydd wedi dod yn eu lle... Nid ydynt yn cyfathrebu digon ynghylch datblygiadau fel hynny, ynghylch newidiadau staffio a chredaf fod hynny'n hanfodol... er mwyn sicrhau y ceir cyfathrebu priodol. Mae cyfathrebu rhwng unigolion yn allweddol i bopeth" (Caernarfon, Negyddol)

5.3 Sianeli Gwybodaeth Presennol a Dewisol am Lywodraeth Cynulliad Cymru

Pan oedd rhanddeiliaid wrthi'n chwilio am wybodaeth ar bwnc penodol, fel arfer gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd y lle cyntaf iddynt chwilio.

"Byddwn yn ceisio ei chael ar y rhyngwrdd a gweithio fy ffordd o amgylch. Os byddaf yn gweld fy mod yn methu neu'n gwastraffu gormod o amser, byddaf yn ceisio dod o hyd i rif ffôn ac yn gofyn i rywun, gan obeithio y bydd y person hwnnw'n gallu fy helpu neu o leiaf fy nhrosglwyddo i rywun a all fy helpu" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Mae'n amlwg bod y wefan yn ffynhonnell wybodaeth bwysig iawn i randdeiliaid, yn enwedig oherwydd y diffyg cysylltiad personol.

"Pe byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru bump neu 10 milltir i ffwrdd, byddwn yn mynd yno i siarad â pherson wyneb yn wyneb, ond gan na allaf wneud hynny, y wefan yw fy mhrif ffynhonnell gwybodaeth... a byddwn yn dibynnu arni" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Fodd bynnag, safbwyntiau negyddol a geir ar y wefan yn bennaf.

"Mae'r wefan yn warthus" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Mae angen gwefan newydd arall, mae'r un bresennol yn ofnadwy" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Nid yw gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hawdd i'w defnyddio" (Llanelwy, Negyddol)

"Rydym yn yr oes electronig. Nid wyf am gael fy llethu gyda darnau o bapur, rwyf am allu cael gafael ar ddogfennau y cyfeirir atynt, Creu'r Cysylltiadau neu unrhyw ddogfen arall, drwy wefan y Cynulliad mewn ffordd sy'n hawdd symud o'i chwmpas ac mae gwefan y Cynulliad yn hunllef llwyr" (Caernarfon, Negyddol)

Roedd y prif sylwadau beirniadol ar y wefan yn ymwneud â:

- Cyfleuster chwilio gwael, sy'n golygu ei bod yn anodd dod o hyd i bethau (dywedodd llawer o randdeiliaid eu bod yn defnyddio Google i ddod o hyd i ddogfennau ar wefan Llywodraeth y Cynulliad)
- Anodd symud o gwmpas
- Diffyg manylion cyswllt ar y lefel gywir
- Nid yw'n gynhwysfawr

"Weithiau byddaf yn ei chael yn haws dod o hyd i bethau ar y... wefan drwy ddefnyddio Google yn hytrach na'u peiriant chwilio eu hun" (Llanelwy, Cadarnhaol)

"Mae'n anodd iawn dod o hyd i wybodaeth os ydych yn chwilio am ddogfennau polisi. Byddaf bob amser yn cael trafferth symud o gwmpas y wefan"

"Mae'n anodd iawn, iawn" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Os byddwch yn defnyddio'r peiriant chwilio, sy'n allweddol efallai ar gyfer gwefan fawr, os byddwch yn nodi teitl strategaeth genedlaethol, ni fydd yn dod o hyd i'r ddogfen honno i chi, ond yn hytrach bydd yn dod o hyd i gofnodion cyfarfodydd sy'n crybwyll y ddogfen hon ac ni allaf ddeall pam, mae'n wael" (Caerdydd, Cadarnhaol)

Nododd un person fod cymorth busnes yn waeth nawr nag yng nghyfnod y WDA.

"Nid wyf yn dweud bod y WDA yn wych, er ei fod yn eithaf da, ond mae popeth yn llawer anoddach ers symud i'r system newydd" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Defnyddiodd eraill ddull personol o weithredu drwy ffonio, naill ai gan ddefnyddio cysylltiadau personol (yn enwedig os ydynt ar lefel uwch na hwy) neu drwy geisio dod o hyd i rif ffôn (er bod hyn yn gallu creu mwy o broblemau i'r rheini sydd ar lefel is, neu'r rheini oedd â chydberthynas hyd braich)

Pan ofynnwyd sut yr hoffent gael gwybodaeth am Lywodraeth y Cynulliad, roedd llawer yn fodlon ar y sefyllfa bresennol, h.y. defnyddio'r wefan (er iddynt alw am welliannau). Fodd bynnag, nododd rhai pobl (y tu allan i Dde Cymru ac mewn ardaloedd gwledig) fod diffyg mynediad i fand eang yn broblem yno.

"Nid oes gan bawb fynediad i'r we"

"Mae llawer o bobl yn cael trafferth trefnu band eang hefyd yn yr ardaloedd hyn felly eto, mae hynny'n adlewyrchu rhywfaint o ddisgwyliad yng Nghaerdydd y bydd pawb yn gallu defnyddio band eang a chael popeth sydd ei angen arnynt ar unwaith; nid yw hynny'n wir yma" (Llanelwy, Negyddol)

Roedd yn llawer gwell gan leiafrif o randdeiliaid gael cysylltiad personol ac roeddent yn teimlo bod cysylltiadau wedi gwaethygu'n gyffredinol gyda dyfodiad yr e-bost.

"... Credaf mai'r hyn sy'n bwysig i mi yw dod o hyd i rywun sy'n deall y pwnc rydych yn delio ag ef, yna cadw mewn cysylltiad â hwy, oherwydd os bydd gennych gydberthynas bersonol gallwch eu ffonio a dweud, 'Mae gennyf ymholiad ar hyn, beth yw'r peth gorau i mi ei wneud?'"

"Er ein bod yn byw mewn oes electronig, ni chafwyd gwelliant o ran cyfathrebu; mae wedi gwaethygu oherwydd byddaf yn eistedd wrth fy nesg, bydd ef yn eistedd wrth ei ddesg ef ac ni fyddwn byth yn cwrdd, mae popeth yn electronig... Nid yw pethau'n bersonol mwyach" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

5.4 Pa mor Hawdd neu Anodd yw hi i Gael y Wybodaeth Ofynnol

5.4.1 Canfyddiadau o berfformiad

Cafwyd safbwyntiau cymysg ar ba mor hawdd neu anodd y mae i gael gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda safbwyntiau yn amrywio yn ôl lefel y rhanddeiliad, y math o sefydliad a'r adran(nau) y buont yn delio â hwy. Roedd y rheini ar lefel uwch yn dueddol o gael llai o anawsterau na'r rhanddeiliaid hynny ar lefel is, ond roedd y rhanddeiliaid a oedd yn delio ag DCELLS, ar y cyfan, yn fwy negyddol na'r rhanddeiliaid hynny a oedd yn rhyngweithio ag adrannau eraill.

Dangosir y gwrthgyferbyniad o ran profiadau a safbwyntiau yn y sgwrs ganlynol o un sesiwn:

"Nid ydynt [DCELLS] yn derbyn ymholiadau na chwestiynau dros y ffôn, mae'n rhaid eu hanfon dros e-bost i ddesg gymorth, ac nid yw'r person hwn ar y pen arall yn gwybod unrhyw beth am ein cais, felly mae'n rhaid iddynt ffonio'r adrannau o amgylch Cymru i gael atebion cyn anfon e-bost yn ôl atom, sy'n cymryd amser. Gallaf ddweud yn onest fy mod wedi gorfod aros am wythnosau i gael atebion, misoedd weithiau, ac un tro bûm yn aros am 12 mis cyn cael ateb, ac roedd yn ymwneud â phwnc pwysig mewn perthynas ag Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, ac nid oedd yr ateb a gefais yn ateb fy nghwestiwn"

"Rwy'n delio â phobl wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn, neu dros e-bost ar lefel uwch, ac rwyf wedi cael gwasanaeth da bob amser, a chredaf mai dyna yw'r broblem. Rydych yn delio gyda desgiau cymorth... ac nid ydynt yn helpu rhyw lawer" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

Nid oedd rhai rhanddeiliaid wedi cael unrhyw broblemau wrth gael gafael ar wybodaeth.

"Rwyf yn cael trafferth gyda hyn, oherwydd rwyf wedi cael y wybodaeth sydd ei hangen arnaf" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Maent yn agored iawn o ran yr hyn maent yn ei wneud ac mae'r wybodaeth yno rywle fel arfer" (Y Drenewydd, Negyddol)

Canmolodd un rhanddeiliad y gwasanaeth llyfrgell a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad.

"Os byddwch yn eu ffonio a dweud 'Allwch chi gael y ddogfen hon i ni?' rydych yn gwybod y bydd tri pherson yn rhedeg o gwmpas i ddod o hyd i ddogfen bum mlwydd oed i'w llungopio a'i hanfon allan. Dyna beth yw gwasanaeth!" (Caerdydd, Cadarnhaol)

Roedd eraill yn fwy negyddol ynghylch cael gwybodaeth gan Lywodraeth y Cynulliad.

"Nid yw'n hawdd cael gwybodaeth gan y Cynulliad... Gan ei fod yn adlewyrchu'r ffordd y caiff y Cynulliad ei drefnu a'r ffordd y mae'n trefnu ei hun... o amgylch themâu a mentrau, nid yw wedi'i strwythuro o amgylch y ffordd y mae defnyddwyr terfynol am ei gael... Os nad ydych yn deall sut y mae wedi'i strwythuro a sut mae'n gweithio, mae'n anodd mynd i mewn iddo - neu os ydynt wedi'i newid ers y tro diwethaf i chi fod yno!" (Caernarfon, Negyddol)

Nododd rhai o'r rheini a oedd yn anfodlon ei fod yn anghyson ac yn rhy gysylltiedig â phersonoliaethau a chydberthnasau.

"...Nid yw lefel y wybodaeth y gallwch ei chael yn seiliedig ar yr adran y daw ohoni, mae'n ymwneud â phwy rydych yn ei adnabod a phwy y mae gennych gydberthynas â hwy yno [y] gallwch eu holi" (Llanelwy, Negyddol)

Yn gyffredinol, y consensws oedd bod y wybodaeth a anfonir gan Lywodraeth y Cynulliad yn dda.

"Rydym ar sawl rhestr o'u rhanddeiliaid ac maent yn anfon pethau atom, eu holl ymgynghoriadau, y cylchlythyrau, maent yn cael eu hanfon beth bynnag, felly nid ydym yn gorfod chwilio am lawer o ddim" (Caerdydd, Cadarnhaol)

Ymhellach, cafodd rhai adrannau ganmoliaeth am eu bod yn dosbarthu bwletinâu gwybodaeth rheolaidd i randdeiliaid.

"Mae nhw [Cymal] yn anfon bwletinâu gwybodaeth yn rheolaidd, sy'n wych... mae popeth yno, gyda chysylltiadau" "Mae'n drueni na all DCELLS wneud hynny!" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Mae gan yr Adran Amaeth eu bwletin misol. Mae hynny'n gam anferth ymlaen o ran cyfathrebu, mae wedi'i gyflwyno'n dda" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)

Fodd bynnag, pan ddywedodd rhanddeiliaid eu bod yn cael problemau, roedd hynny pan oeddent yn ceisio cael atebion i ymholiadau, yn enwedig gan y rheini sydd ar lefel is a / neu'r rheini sy'n delio ag adrannau penodol, e.e. DCELLS.

"Yn gyffredinol, mae'r wybodaeth a roddir ganddynt yn gymharol dda. Mae'r anhawster yn codi pan fydd gennym ymholiad... neu pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. O ran y wybodaeth a gawn yn ôl o'r ymholiadau hynny. Mae'n cymryd gormod o amser iddynt ymateb... neu weithiau mae'r amserlen y maent yn disgwyl i ni ei dilyn ar gyfer ymgynghoriadau yn hurt" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Mae'n syml os cewch e-bost gan y Cynulliad... gallwch siarad â rhywun mewn perthynas â hynny. Ond... os oes gennych ymholiad am rywbeth rydych wedi'i glywed ar y newyddion cenedlaethol, nid oes gennych syniad ble i ddod o hyd i bwy y dylech eu holi ynghylch y materion hyn" "Nid oes pwynt cyffredinol ar gyfer ymholiadau, nid yw'n ymddangos bod unrhyw un yn gwybod beth mae'r lleill yn ei wneud" (Caerfyrddin, Negyddol)

Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod y sefyllfa wedi gwaethygu pan gafodd gwasanaethau eu huno / canoli, fel y trafodwyd uchod. Rhoddwyd rhai enghreifftiau penodol o'r anawsterau a wynebwyd wrth geisio cael gwybodaeth gan Lywodraeth y Cynulliad, sy'n dangos bod rhanddeiliaid o'r farn bod diffyg canolbwyntio ar gwsmeriaid ac amharodrwydd i fod yn atebol.

"Roedd gennyf ymholiad y diwrnod o'r blaen, ynghylch Cydgyfeirio, ynghylch cais am £5 miliwn, sy'n eithaf pwysig i ni ac roedd fy ymholiad yn ymwneud â chael rhywbeth ar y wefan ac roedd y person a allai fy helpu yn gwrthod siarad â mi ac roedd merch ar y ffôn ac roedd mor amlwg, wyddoch chi. 'Fe ef i holi' ac yna daeth yn ôl a dweud 'Ydych chi wedi rhoi cynnig ar hyn a'r llall?' Ac nid yw hynny'n wasanaeth da i gwsmeriaid. Un unigolyn yw hynny, ond o ran ethos y sefydliad, mae'n rhaid iddynt newid er mwyn canolbwyntio mwy ar y cwsmeriaid"

"Rwyf yn cael y teimlad bod llawer o bobl yn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n amharod i wneud penderfyniad a rhoi gwybodaeth ac maent yn dweud, 'Os byddaf yn rhoi'r wybodaeth honno, a fyddaf yn cael fy nghosbi? Neu os byddaf yn dweud bod angen gwneud hyn, a fyddaf yn difaru dweud hynny?' Mae'n ymddangos eu bod yn amharod i wneud penderfyniad ac ni allwch redeg sefydliad fel hynny" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

Ar y cyfan y canfyddiad oedd bod Llywodraeth y Cynulliad cystal â sefydliadau llywodraeth eraill o ran darparu gwybodaeth - ddim yn well nac yn waeth.

5.4.2 Gwybodaeth ddwyieithog

Nid oedd gan y mwyafrif helaeth o randdeiliaid ar draws y gweithdai unrhyw broblem o ran argaeledd gwybodaeth ddwyieithog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (er rhaid cyfaddef nad oedd y rhan fwyaf ohonynt yn siarad Cymraeg). Nododd llawer ei fod yn 'dda iawn' ac yn eu barn hwy, ei fod ar gael yn rhwydd.

"Mae'r holl ganllawiau a fersiynau drafft yr wyf wedi'u gweld wedi bod yn ddwyieithog" (Llanelwy, Cadarnhaol)

"Mae eu gwybodaeth ddwyieithog yn wirioneddol dda" (Caerdydd, Negyddol)

"Iawn... credaf eu bod yn ticio'r blwch hwnnw'n gymharol dda." (Y Drenewydd, Cadarnhaol)

"Maent yn ymrwymedig iddo [ddwyieithrwydd] ac maent yn gweithredu hynny, maent yn buddsoddi llawer mewn perthynas â hyn ac maent yn gweithredu'n ddwyieithog" (Y Drenewydd, Negyddol)

Roedd dau siaradwr Cymraeg yng Ngogledd Cymru yn feirniadol, fodd bynnag, un oherwydd na ddarparwyd gwybodaeth yn Gymraeg:

"Er ein bod mewn gwlad ddwyieithog, mae un iaith [Saesneg] yn cael blaenoriaeth dros y llall. Rwyf yn dal i gael gwybodaeth y byddwn wedi disgwyl ei chael yn ddwyieithog, boed hynny oherwydd camgymeriad gan swyddog... wn i ddim, ond mae'n fy ngwylltio ar adegau... nid yw bob amser ar gael yn y ddwy iaith, nac ydy. Hoffwn sôn eto am yr holiadur yn yr ymgynghoriad... ar Dai Fforddiadwy, a gafodd ei anfon yn Saesneg, nid wyf wedi cael dewis ei lenwi yn Gymraeg" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Nododd y rhanddeiliad hwn hefyd nad oes digon o siaradwyr Cymraeg ar gael i ddelio ag ymholiadau dros y ffôn - er ei bod yn ymddangos mai sylw cyffredinol oedd hwn wedi'i anelu at bob corff cyhoeddus yng Nghymru, yn hytrach na Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benodol:

"Bydd pawb yn codi'r ffôn ac yn dweud 'Bore da', 'P'nawn da' yna 'Sorry, I don't speak Welsh'. Pan ofynnwch 'Allwch chi fy nhrosglwyddo i siaradwr Cymraeg?', byddant yn dweud, 'No, sorry, they're on the phone'. Y rheswm rwyf ar y ffôn yw am

fy mod am gael gwybodaeth nawr, nid mewn tri diwrnod. Rhaid cyfaddef bod hyn yn broblem" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Ategwyd y safbwynt hwn gan randdeiliad Cymraeg ei iaith yn Llanelwy a oedd yn teimlo bod y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dameidiog, gan nad oes digon o siaradwyr Cymraeg yno ar hyn o bryd.

"...mae'r dyheadau yn llawer mwy na'r adnoddau sydd ar gael i'w cyflawni ac mae hyn yn amlwg mewn perthynas â materion iaith Gymraeg" (Llanelwy, Negyddol)

Roedd yr unig sylwadau eraill a wnaed mewn perthynas â deunyddiau dwyieithog Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud yn gyntaf ag arddull y Gymraeg mewn deunyddiau a gyfieithwyd (teimlwyd nad oedd yn hawdd ei ddefnyddio i rai cynulleidfaoedd) ac yn ail, mewn perthynas ag oedi achlysurol wrth gyhoeddi dogfennau dwyieithog.

"Pan fyddent yn darllen rhywbeth yn Gymraeg... weithiau nid yw'n iaith sy'n gyfarwydd iddynt. Mae wedi'i gyfieithu mewn arddull rhy academiaidd" (Llanelwy, Negyddol)

"Rwyf yn ymwybodol y bydd cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn dweud wrthyf fod oedi annerbyniol weithiau rhwng cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg, neu fod yr angen i ddarparu cyfieithiad Cymraeg yn golygu weithiau bod oedi cyn cyhoeddi rhywbeth yn Saesneg felly maent yn ei gyhoeddi yn y ddwy iaith" (Caernarfon, Negyddol)

5.5 Rhwystrau at Gael Gwybodaeth ac Atebion Posibl

Pan oedd amser yn caniatáu, gofynnwyd i bob grŵp dreulio pum munud yn tasgu syniadau ynghylch y rhwystrau a wynebier gan randdeiliaid i gael gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd rhai rhanddeiliaid anhawster gyda'r ymarfer hwn, fel y nodwyd uchod, am eu bod yn teimlo nad oedd unrhyw rwystrau penodol yn eu hwynebu yn bersonol, er eu bod yn cydnabod y byddai'r sefyllfa'n wahanol i bobl eraill, yn enwedig y cyhoedd.

"Mae gennyf broblem gyda hyn, dim ond oherwydd fy mod yn teimlo y byddaf yn cael unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnaf am Lywodraeth y Cynulliad"

"Fe'n gelwir ni yn 'rhanddeiliaid', nid ydych yn gofyn y cwestiwn hwnnw i aelod o'r cyhoedd. Nid oes unrhyw un ohonom yn mynd i ddioddef oherwydd y rhwystr hwnnw... os byddaf am gael gwybodaeth, byddaf yn ei chael" (Y Drenwydd, Cadarnhaol)

"Nid wyf yn credu bod unrhyw rwystrau penodol i mi. Pe byddech yn holi ynghylch rhwystrau i ddinasyddion, byddai honno'n stori wahanol a byddai'n rhaid gofyn... i ba raddau y mae angen iddynt fod mewn cysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd beth bynnag" (Caerdydd, Cadarnhaol)

"Nid wyf yn credu bod unrhyw rwystrau ar wahân i'r rhwystredigaethau ymarferol gyda'r wefan!" (Y Drenwydd, Negyddol)

Fodd bynnag, i ddinasyddion, nodwyd mai'r rhwystrau hynny oedd iaith y ddogfen, hyd y ddogfen a pha mor berthnasol ydyw i gynulleidfa gyffredinol yn aml.

Amlinellir y prif rwystrau a nodwyd ar draws y sesiynau isod, ynghyd ag awgrymiadau rhanddeiliaid ynghylch sut y dylid eu goresgyn:

Rhwystr	Atebion
Gwefan wael <i>"Nid wyf yn credu ei bod yn addysgiadol iawn... os byddwch yn dod o hyd i'r hyn rydych yn chwilio amdano... ac nad yw'n eich cyfeirio at unrhyw un i siarad â hwy ynghylch y peth penodol y mae gennych ddiddordeb ynddo"</i> (Caernarfon, Cadarnhaol) <i>"Symud o gwmpas ar y wefan. Mae yno, mae'n wefan fawr, ond nid yw'n hawdd dod o hyd i wybodaeth"</i> (Llanelwy, Cadarnhaol)	Gwella'n gyffredinol Yn benodol, gwella'r dull o symud o gwmpas ar y wefan a'r cyfleuster chwilio fel bod defnyddwyr yn gwastraffu llai o amser <i>"Mae angen iddi fod yn hygyrch. Mae angen iddi gael ei strwythuro mewn ffordd sy'n golygu y gall pobl ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Nid yw hynny'n wir nawr. Mae'n anodd iawn; yn wir, mae bron yn amhosibl... Nid yw'n hawdd ei defnyddio"</i> (Caerfyrddin, Cadarnhaol)
Diwylliant (nid yw rhai unigolion yn canolbwyntio ar gwsmeriaid nac yn agored) er bod rhai yn credu bod arwyddion bod hyn yn gwella <i>"Am eu bod yn dod o hen ddiwylliant y gwasanaeth sifil"</i> (Caerfyrddin, Cadarnhaol)	Angen deall eu bod yn cael eu cyflogi gan y cyhoedd Bod yn atebol <i>"Credaf fod angen iddynt ddeall mai'r cyhoedd sy'n eu cyflogi, ni sy'n talu eu cyflogau. Maent yn atebol, maent yn atebol i'r cyhoedd, er nad ydynt yn gweld hynny"</i> (Caerfyrddin, Cadarnhaol) <i>"... Rhai o'r atebion i hyn yw bod angen i'r Cynulliad edrych yn feirniadol ar y ffordd maent yn rheoli cydberthnasau â sefydliadau allanol. Mae eu sgiliau cynnal cydberthynas a'u sgiliau rheoli cleientiaid yn warthus. Rwyf hefyd yn credu bod angen i bobl allu cysylltu â staff uwch pan fydd hynny'n briodol, staff sy'n meddu ar wybodaeth ac sy'n gallu gwneud penderfyniad"</i> (Caerdydd, Negyddol)
Gwybod pwy i gysylltu â hwy / ble i edrych <i>"Mae'r Cynulliad yn sefydliad mawr... ac nid yw'n statig, mae'n newid yn gymharol reolaidd, mae pobl yn symud o gwmpas, mae teitlau swyddi'n newid, mae swyddi'n cael eu symud i adrannau gwahanol... mae'n anodd iawn cael gwybod eich ffordd o gwmpas"</i> (Caernarfon, Negyddol)	Angen rheolwyr cyfrifon? <i>"Yn fy swydd i, byddwn wrth fy modd yn cael rheolwr cleientiaid, un pwynt cyswllt ar gyfer materion addysg neu faterion ariannu sy'n ymwneud ag addysg... Ar hyn o bryd rwyf yn delio â thua chwech neu wyth neu ddeg person hyd oed efallai ar gyfer yr un pethau sylfaenol"</i> (Llanelwy, Negyddol) Yn gysylltiedig â'r gwelliannau i'r wefan a nodwyd uchod <i>"...Mae angen edrych yn fanwl ar y wefan a gwneud hynny o safbwynt allanol. Mae'n adlewyrchu eu ffordd o edrych ar y byd... nid yw'n angenrheidiol yn adlewyrchu safbwyntiau'r defnyddwyr terfynol"</i> (Caernarfon, Negyddol)

Rhwystr	Atebion
Gorfod chwilio am wybodaeth (i rai, nid i bawb)	Bod yn fwy rhagweithiol o ran darparu gwybodaeth? Er enghraifft, e-fwletin y gallai pobl gofrestru ar ei gyfer (e.e. fel un Llywodraeth Leol) <i>"Byddai'n eithaf da... os byddai unrhyw beth newydd yn codi, gallech anfon bwletin"</i> <i>"Yna gallech lofnodi a thicio'r adrannau rydych am gael nodiadau arnynt" (Llanelwy, Cadarnhaol)</i>
Diffyg gwybodaeth ar lefel Cymru gyfan	Lansio papur newydd i Gymru gyfan (safbwynt lleiafrif - rhai pobl mewn un grŵp yn unig a chafwyd anghydfod ynghylch p'un a fyddai'n ymarferol) <i>"Yr argraff a gafwyd, os ydych yn darllen y Liverpool Daily Post, na fyddwch yn clywed am lawer o'r hyn sy'n digwydd yng Nghaerdydd ym mhapurau Gogledd Cymru. Nid ydym yn cael y Western Mail i'r gogledd o Aberystwyth" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)</i>
Dim presenoldeb yng Ngogledd Cymru <i>"Byddwn yn dweud nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad bresenoldeb effeithiol yn y rhanbarth hwn. Maent bump awr i ffwrdd, 180 o filltiroedd i ffwrdd ac mae'n anodd iawn cael gafael arnynt, yn enwedig os ydych wedi'ch difreinio ac nad oes gennych gyfrifiadur"</i> (Caernarfon, Negyddol)	Un pwynt cyswllt - dros y ffôn

6. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

Y pwnc mawr diwethaf a archwiliwyd yn gryno gyda rhanddeiliaid oedd ymgynghoriad. Codwyd hyn yn ddigymell mewn sawl gweithdy eisoes a'i drafod bryd hynny, naill ai fel un o'r anawsterau a wynebwr wrth ryngweithio â Llywodraeth y Cynulliad, neu fel enghraifft o arfer gwael mewn perthynas â chanolbwyntio ar ddinasyddion.

Felly mae'r adran hon yn crynhoi ac yn ailadrodd rhai o'r prif bwyntiau a gwmpaswyd eisoes.

6.1 Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol ar Ymgynghoriadau â Llywodraeth y Cynulliad

- Cafwyd profiad eang o ymgynghoriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar draws y gweithdai - roedd pob rhanddeiliad wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau o ryw fath, yn bennaf wrth ymateb i bapurau drafft
- Cafwyd safbwyntiau cymysg ar ymgynghoriadau Llywodraeth y Cynulliad gyda rhanddeiliaid - er y cymeradwywyd y cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisiau, roedd y rhan fwyaf o rhanddeiliaid o'r farn bod diffygion yn y broses bresennol
- Teimlwyd mai gwendidau ymgynghoriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd:
 - Amheuaeth ynghylch eu gwerth - a ydynt yn ystyrion neu a yw'r penderfyniadau wedi'u gwneud eisoes?
 - Diffyg adborth i gyfranogwyr
 - Gweithgaredd ymgynghori nad yw'n gydgyssylltiedig
 - Gormod o ymgynghori
 - Problemau amseru - dim digon o amser ar gyfer ymatebion / gweithgaredd ymgynghori yn digwydd ar adegau amhriodol o'r flwyddyn
 - Problemau gyda chynnwys / cynllun / iaith dogfennau

6.2 Canfyddiadau ar Broses Ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cafwyd profiad eang o ymgynghoriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar draws y grwpiau rhanddeiliaid - roedd pob rhanddeiliad wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau o ryw fath, yn bennaf gofynnwyd iddynt ymateb i bapurau ymgynghoriadau. Roedd rhai hefyd wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori neu wedi cymryd rhan mewn Grwpiau Llywio ar faterion.

"Rwyf wedi mynychu seminarau, rwyf wedi mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, rwyf wedi ymateb i ddogfennau a argraffwyd" (Y Drenewydd, Negyddol)

Pan ofynnwyd am eu safbwyntiau ar broses ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad, cafwyd safbwyntiau cymysg. Ar un llaw, roedd y rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi cael y cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisiau, ond ar y llaw arall, nodwyd nifer o ddiffygion yn y broses ymgynghori.

"Maent yn cynnal llawer o ymgynghoriadau, mae hynny'n dda. P'un a yw'n effeithiol a beth mae'n ei gyflawni, nid wyf yn siŵr ynghylch hynny a chredaf y byddai rhai pobl yn dweud nad yw'n cyflawni o ran nad oes gennym unrhyw dystiolaeth eu bod yn gwrando ar yr hyn rydym yn ei ddweud wrthynt" (Caernarfon, Negyddol)

Amlinellir materion a godwyd gan randdeiliaid mewn ymgynghoriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru isod yn nhrefn eu pwysigrwydd:

- **Nid yw'r ymgynghoriadau yn ystyrlon - a yw pobl wedi penderfynu eisoes?**

Dyma oedd y brif feirniadaeth, a leisiwyd ym mhob grŵp rhanddeiliaid bron. Roedd llawer o randdeiliaid yn amau a oedd gwerth gwirioneddol iddynt gymryd rhan, gyda llawer yn teimlo mai dim ond 'gwneud beth oedd raid' oedd Llywodraeth y Cynulliad ac mai ymarfer 'ticio blychau' oedd hwn. Teimlai'r bobl hyn fod penderfyniadau wedi'u gwneud eisoes, felly nad oedd llawer o siawns y byddent yn dylanwadu ar y canlyniadau. Teimlwyd bod hyn yn sefyllfa ddigalon, â hwythau wedi rhoi o'u hamser i ymateb.

"Hoffwn wybod faint o sylw a gaiff fy safbwyntiau... cefais gyfarfod gyda dau gydweithiwr a oedd yn aelodau o grŵp llywio mawr gyda mi yr wythnos ddiwethaf, a ddywedodd 'Wn i ddim pam y gwnaethom drafferthu mynd'... Oherwydd doedd dim ots beth y gwnaethom ei ddweud, roeddent wedi penderfynu'n barod" (Caernarfon, Negyddol)

"Efallai bod yr ymatebion wedi cael eu crynhoi'n ormodol weithiau ac wedi colli rhywfaint o'u sylwedd. Ac wrth gwrs byddaf yn teimlo bod y penderfyniad a ddaw o'r ymgynghoriad wedi cael ei wneud cyn yr ymarfer weithiau" (Y Drenewydd, Negyddol)

"Maent wedi penderfynu'n barod. Pan welwch y ddogfen derfynol nid oes fawr ddim gwahaniaeth" (Llanelwy, Negyddol)

"Cynhelir cymaint o ymgynghoriadau, ond mae canlyniadau ymgynghoriadau yn arbennig o debyg i'r hyn yr ymgynghorwyd arno. Os ydych yn aelodau o Grwpiau Cenedlaethol, rydych yn lleisio eich barn ond mae'r canlyniadau yn cyd-fynd â'r hyn yr oeddent hwy am ei gael beth bynnag!"

"Yn gyffredinol, byddech yn treulio llawer o amser yn ymwneud â'r ymgynghoriad ac yna byddwch yn teimlo braidd yn siomedig pan gaiff ei argraffu pan welwch ei fod bron yn union fel y drafft"

"Rydych wedi ticio'r blwch i ddweud eich bod wedi cynnal ymgynghoriad... credaf fod hynny'n wir... ceir diffyg tryloywder a'r ffordd maent yn delio â'r ymgynghoriad yw drwy ddweud 'Credwn y byddai hyn yn syniad da, bydd yn rhaid i chi weithio'n galed iawn i'n darbwyllo i'w newid" (Caerfyrddin, Negyddol)

- **Dim adborth ar ganlyniadau ymgynghoriadau i gyfranogwyr**

"Cafwyd nifer o ymgynghoriadau... a byddwn wedi rhoi sylwadau ac wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori honno ar bob achlysur, ond ni allaf gofio cael unrhyw adborth erioed. Efallai bod yr ymgynghoriad wedi digwydd ddwy flynedd yn ôl ac yna byddwch yn cael y ddogfen derfynol wrth iddo gael ei weithredu" (Caernarfon, Cadarnhaol)

- **Dim cydgysylltu na meddwl cydgysylltiedig gydag ymgynghoriadau - cysylltiedig â'r mater isod**

- **Gormod o ymgynghori!**

Roedd ymdeimlad bod gormod o ymgynghori ymysg rhai o'r cyfranogwyr, a deimlai y gofynnir iddynt hwy a'u sefydliadau gymryd rhan mewn gormod o ymgynghoriadau.

"Rydym yn cael ein llethu gan ddogfennau trwchus yn gwahodd ymgynghoriadau o fewn ffenestr benodol. Yn ddemocrataidd ac yn agored, mae gonestrwydd hynny'n wych, ond mae'r amser a geir i ymateb yn sylweddol. Ar hyn o bryd, mae gennyf chwech ac roedd gennyf un arall yr wythnos hon"

"Mae llawer o ymgynghoriadau wedi cael eu rhoi ar fy nesg y mae'n rhaid i mi eu dosbarthu i bobl eraill gynorthwyo gyda hwy, felly rwyf yn rhoi pwysau arnynt hwy yn eu tro, ac nid wyf yn hoffi gwneud hynny. Nid wyf yn gallu cynnwys pobl yn llawn yn yr ymgynghoriadau felly daw'n rhywbeth symbolaidd iddynt a bydd pobl yn dweud... eu bod wedi cael llond bol ar ymgynghoriadau" (Llanelwy, Negyddol)

"O'r mawredd! [pan ofynnwyd iddynt faint o ymgynghoriadau y'u gwahoddwyd i gymryd rhan ynddynt] Mewn blwyddyn mae'n siŵr ein bod yn ymateb i 6 i 10 o ddogfennau mawr... a chymaint â hynny eto mae'n debyg ar raddfa lai... Mae'n broses barhaus, rydym yn cymryd rhan mewn rhyw fath o ymateb drwy'r adeg bron" (Caerdydd, Cadarnhaol)

Nododd un ymgynghorydd nifer yr ymgynghoriadau oedd yn gysylltiedig â'i feirniadaeth bod Llywodraeth y Cynulliad yn amharod i gymryd risgiau, gan deimlo eu bod weithiau'n cynnal ymgynghoriadau heb fod angen ac y gellid bod wedi gwneud penderfyniad.

"Credaf fod pob un yn cytuno bod adegau y dylai'r Weinyddiaeth wneud penderfyniadau mwy gweithredol ac osgoi ymgynghoriadau a chymryd risgiau. Mae angen gweision sifil sy'n fodlon cymryd risgiau" (Y Drenewydd, Cadarnhaol)

- **Problemau amseru - dim digon o amser ar gyfer ymatebion neu eu bod yn cael eu cynnal ar adegau amhriodol o'r flwyddyn**

"Pan fyddant am gael rhywbeth gennym ni, ymgynghoriad, weithiau byddwn yn cael dau neu dri ar yr un pryd heb lawer o amser i ymateb iddynt, i wneud cyfiawnder iddynt, does dim digon o amser" (Llanelwy, Cadarnhaol)

"Weithiau mae gormod o bwysau, nid ydynt yn rhoi digon o amser i ni ymateb i rai o'r ymgynghoriadau... roedd tueddiad anhygoel yn yr adran Addysg i anfon dogfennau ymgynghori ar ddiwedd tymor yr haf a disgwyl ymateb mewn chwe wythnos pan oedd yr ysgolion ar gau" (Caernarfon, Negyddol)

- **Problemau gyda chynllun / cynnwys dogfennau a'r iaith a ddefnyddir (lleiafrif)**

"Maent wedi datblygu dull o ymgynghori a ddefnyddir fel arfer, lle maent yn holi cwestiynau penodol, ac maent yn dweud 'Hoffem i chi roi atebion ar y rhain yn benodol'. Mae hynny'n iawn a gall fod yn eithaf defnyddiol gan ei fod yn golygu eich bod yn canolbwyntio ar y cwestiwn, ond y broblem yw, os byddwch yn dweud rhywbeth na chaiff ei gwmpasu gan eu cwestiynau, ni fydd yn cael ei weithredu. Mae eu cyfres o gwestiynau'n rhy gul gan fod hynny'n gyfleus yn weinyddol... nid ydynt yn dueddol o gadw safbwyntiau gwahanol ac mae angen gwella hynny a bod yn fwy gofalus... Ac yna pan fyddwch yn rhoi rhywbeth yn ei wir oleuni maent yn dileu pethau nad ydynt yn cyd-fynd â'r patrwm y maent yn marcio yn ei erbyn" (Caerdydd, Cadarnhaol)

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent erioed wedi gwrthod cymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriadau, dywedodd rhai nad oeddent wedi gwneud hynny, eu bod wedi cymryd rhan bob tro, ond dywedodd eraill (yn fwy cyffredin) eu bod wedi ceisio cymryd rhan yn yr ymgynghoriadau oedd fwyaf perthnasol i'w maes gwaith / sgiliau a'u harbenigedd, ond bod angen iddynt ddewis a dethol yn ofalus ar adegau oherwydd nifer fawr o ddogfennau / gwahoddiadau a gawsant. Felly dywedodd llawer eu bod ond yn ymateb i'r ymgynghoriadau hynny sy'n arbennig o bwysig yn eu barn hwy, neu'r rhai yr oeddent yn teimlo y gallent gyfrannu fwyaf iddynt, yn hytrach nag i bob un ohonynt.

"Cawsom un ymgynghoriad yn ddiweddar a oedd yn ymwneud â Diwygio'r Heddlu... nid oes gennym ddiddordeb mawr yn hynny nag arbenigedd penodol i'w gynnig, ac mae'n cymryd amser ac adnoddau, felly mae'n rhaid penderfynu beth ydyw, ble y credwch fod gennych rywbeth gwerth chweil i'w ddweud amdano a ble yr hoffech wneud gwahaniaeth" (Caerdydd, Cadarnhaol)

Roedd hyn yn fwy gwir pan oedd 'ymgynghoriad' yn golygu mynychu cyfarfodydd.

"Rwyf yn cael llawer o wahoddiadau i gymryd rhan mewn Gweithgorau a mentrau Cymru Gyfan ac mae'n rhaid i mi ddewis a dethol yn ofalus pa rai o'r rhain yr wyf am gymryd rhan ynddynt, fel arall gallwn dreulio fy holl amser yn teithio'n ôl ac ymlaen i Dde Cymru i gyfarfodydd" (Caernarfon, Negyddol)

Nid oedd unrhyw un wedi gwrthod cymryd rhan mewn ymgynghoriad oherwydd eu bod yn sinigaidd ynghylch gwerth yr ymarfer, er gwaethaf yr amheuaeth eang a leisiwyd.

6.3 Awgrymiadau ar gyfer Gwella'r Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid

Roedd awgrymiadau rhanddeiliaid ar gyfer gwella'r broses ymgynghori yn bennaf yn groes i'r problemau a brofwyd uchod. Nodir rhai sylwadau isod:

Bod yn fwy agored i sylwadau rhanddeiliaid

"[Mae angen iddynt] fod yn fwy gofalus i beidio â chymhlethu ymarfer ymgynghori gyda'r hyn sydd ei angen ar gyfer ymgynghoriad go iawn, oherwydd mae'n ddigon hawdd ticio blwch a dweud 'Rydym wedi cynnal ymarfer ymgynghori, wedi llunio dogfen, wedi'i rhoi ar y wefan...' ac yna dweud 'Wrth gwrs ein bod wedi cynnal ymgynghoriad'" (Y Drenewydd, Negyddol)

Mwy o dystiolaeth bod sylwadau'n cael eu hystyried drwy adborth ar ganlyniadau

"...mae perygl y caiff ei ddibrisio... y bydd diffyg hygredded, os na chewch dystiolaeth eu bod yn gwrando ar yr hyn rydych yn ei ddweud wrthynt, yn enwedig pan fyddwch yn gwybod bod nifer o bobl wedi bod yn rhan o'r un ymgynghoriad wedi cael yr un neges" (Caernarfon, Negyddol)

"Mae hynny'n boen ac yn eithaf digywilydd, gofyn am farn safbwyntiau pobl... ac yna eu hanwybyddu'n llwyr, gwneud yn union beth nad oeddent am iddo ddigwydd a pheidio â chynnig eglurhad... nid yw'n ymgysylltiad go iawn oni bai eu bod yn egluro pam eu bod wedi gwrthod eich safbwyntiau os yw hynny wedi digwydd" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Galwodd rhai hefyd am adborth mwy meintiol yn cynnwys nifer yr ymatebion, i nodi cryfder y teimlad a'r diddordeb yn y pwnc.

"Rhoi adborth bob amser... a rhoi syniad i chi o gryfder y teimlad, os byddant wedi dweud [eu bod wedi anfon] 500 a bod 427 wedi ateb a bod pob un ohonynt am gadw goleuadau'r stryd ymlaen. Ond os anfonwyd 500 ac mai dim ond 13 a atebodd, byddech yn meddwl 'Roeddem yn teimlo'n gryf ynghylch hyn ond nid oedd unrhyw un arall o'r un farn â ni ac rydym yn gweld pam nawr"

"Yr ymgynghoriad a gefais yn ddiweddar... o adran Elin Jones... roedd yr adborth yn wych, aeth drwy'r adran ac roedd yn dweud 'Mae pobl wedi datgan pryderon bod...' ac yna cafwyd ymateb, 'Rydym am eich sicrhau na fydd hyn yn digwydd oherwydd...' ac ymdriniwyd â thua 10 o bryderon pwysig a ddatganwyd gan bobl, ac ymdriniwyd â phob un ohonynt ac roedd hynny'n dda iawn" (Caernarfon, Cadarnhaol)

Mae angen gwella dogfennau ymgynghori

"Mae rhywfaint o'r ymgynghoriad wedi'i ddrafftio'n fanwl iawn. Byddant yn cynnal ymgynghoriad ar rywbeth, yn cyfiawnhau beth y credant ddylai ddigwydd, ac yna byddent ond yn awyddus i chi roi sylwadau neu ymateb i lond llaw o gwestiynau penodol ac mae'n amlwg y gallwch roi mwy o sylwadau na hynny, ond ceir elfen o ragdybiaeth yma yn y ffordd y caiff ymgynghoriadau eu strwythuro a'r ffordd maent yn awyddus i chi gymryd rhan ac ymateb. Gellid adolygu a gwella hyn" (Caerfyrddin, Cadarnhaol)

"Hoffem iddynt fod yn fwy agored i safbwyntiau pobl eraill, nad ydynt efallai yn cyd-fynd â'u dadansoddiad uniongyrchol o'r materion allweddol a hoffem iddynt fod yn agored i nodi a chofnodi'r materion hynny nad ydynt yn cyd-fynd â'u ffrâm cyfeirio" (Caerdydd, Cadarnhaol)

Cydgysylltu ymgynghoriadau yn well

Mwy o amser ar gyfer ymatebion rhanddeiliaid a gwella amseru cyfnodau ymgynghori

Mwy o ddefnydd o ddulliau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn

"... cymerais ran dros y ffôn y llynedd. Roedd yn llawer haws nag ar bapur" (Y Drenewydd, Negyddol)

"Grwpiau bach o bobl yn cyfarfod yn unigol [sydd fwyaf effeithiol]. Byddwch yn cael mwy allan ohonynt, bydd pobl yn fwy agored. Os bydd gennych grŵp mawr o bobl, dim ond y bobl sy'n teimlo gryfaf [fydd yn cyfrannu] a byddent yn dechrau pregethu" (Llanelwy, Negyddol)

Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol hefyd ynghylch yr ymarfer ymchwil hwn a'r hyn y mae'n ei ddweud am Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar yr un pryd, roedd disgwyliad y byddai'r canlyniadau o'r astudiaeth hon yn cael eu bwydo'n ôl i gyfranogwyr, neu fel arall y byddent yn teimlo'n fwy negyddol.

"Mae'n rhaid i mi ganmol yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud yma yn yr ymarfer hwn. Maent yn synhwyro bod rhywbeth o'i le neu fod gwasanaeth nad yw'n gweithredu'n iawn... maent am gadarnhau hynny... sy'n rhywbeth cadarnhaol"

"A fyddwn yn cael copi o'r adroddiad y byddwch yn ei baratoi?... Credaf fod y sinigiaeth sy'n gysylltiedig â pheidio â gwybod beth maent yn ei wneud gyda'r wybodaeth yn cynyddu os na chawn yr adborth hwnnw" (Llanelwy, Negyddol)

**ATODIAD A:
LLYTHYR RHAGARWEINIOL**



Annwyl Syr / Madam

AROLWG BUDD-DDEILIAID 2008 – YMCHWIL DILYNOL

Diolch am gyfrannu at Arolwg Budd-ddeiliaid Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008. Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn holi i chi fod yn rhan o'r ymchwil dilynol y byddwn yn ei gynnal.

Daeth rhai themâu i'r amlwg o ganlyniad i'r arolwg budd-ddeiliaid yng nghyswllt perthynas â budd-ddeiliaid ac rydym yn awyddus i ystyried y rhain mewn mwy o ddyfnder. I'r perwyl hwn, rydym wedi comisiynu contractwr ymchwil annibynnol, Beaufort Research, i wneud gwaith ymchwil pellach gyda rhai o'r rheini a gyfrannodd at yr arolwg.

Rydym yn cysylltu â chi gan i chi fynegi eich parodrwydd i fod o gymorth pellach gydag unrhyw ymchwil pellach pan gawsoch eich cyfweld ar gyfer yr Arolwg Budd-ddeiliaid.

Bydd cam nesaf yr ymchwil ar ffurf cyfres o weithdai anffurfiol a fydd yn cael eu cynnull yn rhai o swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar draws Cymru yn ystod y misoedd i ddod. Bydd y gweithdai yn para o ddeutu awr a hanner ac yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith. Hyrwyddir pob sesiwn gan ymchwilydd o Beaufort Research. Bydd pob trafodaeth yn gwbwl gyfrinachol ac ni fydd unrhyw sylwadau yn cael eu priodoli i unrhyw unigolion. Bydd modd i chi gymryd rhan naill ai yn Gymraeg ynteu yn Saesneg.

Byddwch yn derbyn galwad ffôn oddi wrth Beaufort Research dros yr wythnosau nesaf er mwyn gweld a ydych ar gael i gymryd rhan mewn gweithdy yn eich ardal chi. Mawr obeithiwn y byddwch chi'n barod i fod yn rhan o gam nesaf y gwaith ymchwil, sy'n hynod bwysig wrth ein cynorthwyo i wella ymhellach y ffyrdd yr y'm ni'n gweithio gyda chi.

Diolch am eich cyfraniad, trwy eich ymwneud â staff Llywodraeth Cynulliad Cymru a'ch cyfraniad i'r gwaith ymchwil hwn.

Os hoffech drafod yr astudiaeth hon ymhellach yna cysylltwch os gwelwch yn dda â Lisa Williams yn Beaufort Research ar 029 2037 8565 ynteu trwy anfon e-bost at: lisa@beaufortresearch.co.uk

Gill Morgan



ATODIAD B:
CANLLAW PWNC

BQ2843 YMCHWIL ANSODDOL OCSRO AR STAFF A RHANDEILIAID

Strwythur y Sesiwn Canllaw Pwnc ac Ymchwil – Rhanddeiliaid FERSIWN TERFYNOL 1.10.08

1. CYFLWYNO BEAUFORT A CHYFRINACHEDD (5 munud)

- Diolchwch i bawb am ddod
- Cyflwynwch Beaufort - rydym yn gwmni ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid yn ddiuedd ac yn gyfrinachol
- Rydym yn llywio sesiynau gweithdy anffurfiol sy'n para tua awr a hanner gyda thrawsdoriad o rhanddeiliaid o Lywodraeth y Cynulliad ledled Cymru
- Mae'r ymchwil hon yn dilyn yr Arolwg Rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn gynharach eleni a bydd yn archwilio rhai themâu allweddol sy'n ymwneud â chydberthnasau rhanddeiliaid yn fanylach
- Ni fydd unrhyw aelodau o dîm rheoli LLYWODRAETH Y CYNULLIAD yn bresennol yn ystod y trafodaethau hyn - rydym am sicrhau eich bod yn teimlo y gallwch siarad yn agored ac yn ddiwyll ynghylch y materion heb unrhyw orfodaeth
- Cyflwynwch arsylwr OCSRO (*Ile y bo'n briodol*) - egluro ei fod/bod yn aelod o'r tîm ymchwil yn Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol ac y bydd yn parchu cyfrinachedd yr ymarfer
- Caiff eich safbwyntiau eu cyflwyno i LYWODRAETH Y CYNULLIAD yn ddiennw - nid ydym yn rhoi enwau i'r sylwadau ond yn cyflwyno adroddiadau ar lefel gyffredinol i sicrhau na ddatgelir pwy yw'r unigolion sy'n cymryd rhan
- Fel cwmni ymchwil proffesiynol, gwneir ein holl waith yn unol â Chod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad, sy'n sicrhau cyfrinachedd ac yn sicrhau na ddatgelir pwy yw'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil
- I gloi, fel arfer wrth wneud gwaith ymchwil byddwn yn recordio trafodaethau i'n helpu gyda'r gwaith o ddadansoddi a llunio adroddiadau - a yw hyn yn iawn? Ni chaiff y recordiad hwn ei roi i LYWODRAETH Y CYNULLIAD a dim ond ni fydd yn ei ddefnyddio'n fewnol a dim ond trawsgrifiadau diennw a roddir i OCSRO

2. Y RHEOLAU A CHYFLWYNO YMATEBWYR (10 munud)

Dangoswch y sleid

- Peidiwch â bod ofn lleisio eich barn
- Ond peidiwch â siarad ar draws eich gilydd
- Croesewir pob safbwynt
- Os byddai'n well gennych gyflwyno awgrym/sylw yn breifat, gallwch ei ysgrifennu ar post-it a'i roi yn y blwch awgrymiadau wrth y drws cyn gadael
- **Rhannwch eich safbwyntiau! Dyma eich cyfle i leisio eich barn a chyflwyno eich syniadau i Lywodraeth y Cynulliad**

Dangoswch y sleid ac eglurwch y gwahaniaeth rhwng LLYWODRAETH Y CYNULLIAD A CHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Eglurwch mai ffocws yr ymchwil yw Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i chydberthynas â swyddogion LLYWODRAETH Y CYNULLIAD, nid gyda gweinidogion neu wleidyddion o fewn CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU. Rydym am gael eu safbwyntiau ar eu profiad o ddelio â swyddogion LLYWODRAETH Y CYNULLIAD, nid eu safbwyntiau ar bolisiâu CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rhannwch y cyfranogwyr yn barau - rhowch ychydig funudau i bob pâr ddod i adnabod ei gilydd (enw cyntaf, sefydliad, rôl ac ers pryd maent wedi bod yn cyflawni'r rôl honno) yna gofynnwch i bob person gyflwyno'r llall i'r grŵp

3. CYD-DESTUN - CYDBERTHYNAS Â LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

Eglurwch y byddwn yn dechrau drwy drafod eu profiad o ddelio â Llywodraeth y Cynulliad

- Pa eiriau sy'n dod i'r meddwl pan fyddwch yn meddwl am Lywodraeth Cynulliad Cymru?
- Pam rydych yn rhyngweithio â LLYWODRAETH Y CYNULLIAD? Ym mha ffordd? A gyda pha adran(nau)?
- Pa mor aml rydych chi'n cysylltu â Llywodraeth y Cynulliad?
- Sut brofiad ydyw i ddelio â Llywodraeth y Cynulliad yn gyffredinol? Pam hynny?
- Beth am yr adran(nau) rydych yn ymwneud fwyaf â hwy? A yw / A ydynt yn well, yn waeth neu cystal â LLYWODRAETH Y CYNULLIAD yn gyffredinol? Os felly, ym mha ffordd?
- Ers faint rydych wedi bod yn delio â LLYWODRAETH Y CYNULLIAD? Ydych chi wedi gweld unrhyw newidiadau dros y cyfnod hwnnw? Os felly, beth oeddent?
- A oes unrhyw bethau penodol sy'n ei gwneud yn anodd rhyngweithio â Llywodraeth y Cynulliad? Os felly, beth ydynt?
- Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau (o fewn rheswm!) ar gyfer gwella'r ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhyngweithio â rhanddeiliaid?

Hwylusydd i nodi awgrymiadau ar siart troi

Dylai'r grŵp drafod a dod i gonsensws ar themâu allweddol

4. CANOLBWYNTIO AR DDINASYDDION (20 munud)

Nawr byddwn yn symud i un o'n themâu ar gyfer y diwrnod - canolbwyntio ar ddinasyddion

- Sut fydddech chi'n diffinio 'canolbwyntio ar ddinasyddion'? Beth mae'n ei olygu?
- Beth am 'canolbwyntio ar gwsmeriaid' - sut y bydddech yn diffinio hyn? Beth mae'n ei olygu?
- Sut mae'r rhain yn wahanol i'w gilydd? Pam?

Dylai'r hwylusydd nodi diffiniadau digymell ar y siart troi a nodi elfennau allweddol sy'n bwydo i ddiffiniadau

Yna, rhowch awgrymiadau gan ddilyn diffiniad LLYWODRAETH Y CYNULLIAD o ganolbwyntio ar ddinasyddion (ar y sleid)

- Ai dyma'r hyn roeddech chi'n ei ddisgwyl? Pam / Pam ddim? A yw hyn yn wahanol i ddiffiniadau cynharach? Os felly, sut ac ym mha ffyrdd?
- Pam ei bod yn bwysig i LYWODRAETH Y CYNULLIAD ganolbwyntio ar ddinasyddion?
- Pa mor llwyddiannus neu aflwyddiannus yw LLYWODRAETH Y CYNULLIAD wrth ganolbwyntio ar ddinasyddion yn eich barn chi? Pam hynny?
- Beth am yr adran(nau) rydych yn delio fwyaf â hwy? A yw / A ydynt yn well, yn waeth neu cystal â LLYWODRAETH Y CYNULLIAD yn gyffredinol? Pam?
- Sut mae LLYWODRAETH Y CYNULLIAD yn cymharu â sefydliadau eraill o ran canolbwyntio ar ddinasyddion? Os yw'n well neu'n waeth, pam / ym mha ffyrdd?
- A fydddech yn dweud bod LLYWODRAETH Y CYNULLIAD yn gweithio gyda chi i gynnwys dinasyddion yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus? Pam rydych yn dweud hynny?
- Pa ddulliau **da** o ganolbwyntio ar ddinasyddion sydd gan LYWODRAETH Y CYNULLIAD a pha ddulliau sy'n **wael**?
- Allwch chi feddwl am enghreifftiau penodol o arfer da ac arfer gwael o fewn LLYWODRAETH Y CYNULLIAD o ran canolbwyntio ar ddinasyddion? *Holwch:* Unrhyw beth arall?

Dylai'r hwylusydd nodi enghreifftiau penodol ar siart troi (2 golofn - Arfer Da / Arfer Gwael)

- Beth yw'r prif ffactorau sy'n rhwystro LLYWODRAETH Y CYNULLIAD rhag canolbwyntio ar ddinasyddion?
- Beth all LLYWODRAETH Y CYNULLIAD ei wneud i sicrhau ei bod yn canolbwyntio mwy ar ddinasyddion? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gallai wella a gweithio'n well gyda rhanddeiliaid mewn perthynas â hyn?

5. GWEITHIO 'CYDGYSYLLTIEDIG' (20 munud)

Nawr byddwn yn symud i'n thema nesaf - gweithio 'cydgysylltiedig'

- Sut fydddech chi'n diffinio gweithio 'cydgysylltiedig'? Beth mae'n ei olygu?

Dylai'r hwylusydd nodi diffiniadau ar y siart troi a nodi elfennau allweddol sy'n bwydo i ddiffiniadau

- Pa mor llwyddiannus neu aflwyddiannus yw LLYWODRAETH Y CYNULLIAD yn gyffredinol mewn perthynas â hyn yn eich barn chi? Pam hynny?
- Beth am yr adran(nau) rydych yn delio fwyaf â hwy? A yw / A ydynt yn well, yn waeth neu cystal â LLYWODRAETH Y CYNULLIAD yn gyffredinol? Pam?
- Sut mae LLYWODRAETH Y CYNULLIAD yn cymharu â sefydliadau eraill o ran gweithio cydgysylltiedig? Os yw'n well neu'n waeth, pam / ym mha ffyrdd?
- Pa ddulliau **da** o fod yn gydgysylltiedig sydd gan Lywodraeth y Cynulliad a pha ddulliau sy'n **wael**?
- Allwch chi feddwl am enghreifftiau penodol o arfer da ac arfer gwael o fewn LLYWODRAETH Y CYNULLIAD o ran bod yn gydgysylltiedig? *Holwch:* Beth arall?

Dylai'r hwylusydd nodi enghreifftiau penodol ar siart troi (2 golofn - Arfer Da / Arfer Gwael)

Tasg Grŵp 1 – dylai'r rhanddeiliaid dreulio pum munud fel grŵp yn tasgu syniadau o ran beth yw'r rhwystrau i weithio cydgysylltiedig. Beth sy'n rhwystro LLYWODRAETH Y CYNULLIAD rhag bod yn gydgysylltiedig / yn fwy cydgysylltiedig?

Dylai'r arweinydd a benodir ysgrifennu awgrymiadau ar siart troi a'u cyflwyno i'r hwylusydd a'u trafod

- Sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn? Pa awgrymiadau sydd gennych i fynd i'r afael â phob un o'r rhwystrau hyn? Beth all y Cynulliad ei wneud i sicrhau ei bod yn canolbwyntio mwy ar ddinasyddion? *Holwch:* Beth arall?

Dylai'r hwylusydd gofnodi atebion ochr yn ochr â rhwystrau ar siartiau troi a'r grŵp i ddod i gonsensws ar y tri awgrym mwyaf poblogaidd

6. GWYBODAETH (25 munud)

Ein thema nesaf yw cael gwybodaeth am LYWODRAETH Y CYNULLIAD

Tasg unigol ar post-it 1:

- Pa wybodaeth am LYWODRAETH Y CYNULLIAD rydych am ei chael? Beth sy'n bwysig i chi / i'ch sefydliad?

Rhowch bum munud i'r rhanddeiliaid ysgrifennu ar post-its

Dylai'r hwylusydd gasglu a chrynhai prif themâu ar siart troi ac yna trafod gyda'r grŵp. Dylai'r grŵp ddod i gonsensws ar y meysydd gwybodaeth pwysicaf

- Sut ydych chi'n mynd ati i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch am LYWODRAETH Y CYNULLIAD? *Holwch:* Pa ffyrdd eraill?
- Sut yr hoffech gael gwybodaeth am LYWODRAETH Y CYNULLIAD? A oes unrhyw wahaniaeth?
- Pam y byddai'n well gennych ddefnyddio'r dulliau hyn?
- Pa mor dda neu wael y mae LLYWODRAETH Y CYNULLIAD yn darparu'r wybodaeth rydych am ei chael / sydd ei hangen arnoch? Pam rydych yn dweud hynny?
- A yw'n haws cael gafael ar ryw fath o wybodaeth o gymharu â mathau eraill? Os felly, pa fath o wybodaeth y mae'n haws cael gafael arni? A pha wybodaeth y mae'n anoddach cael gafael arni, os o gwbl? Pam hynny?
- Sut mae LLYWODRAETH Y CYNULLIAD yn cymharu â sefydliadau eraill o ran darparu gwybodaeth? Os yw'n well neu'n waeth, pam / ym mha ffyrdd?
- Beth am y wybodaeth ddwyieithog a ddarperir gan LYWODRAETH Y CYNULLIAD? Pa mor hygyrch ydyw? Pam rydych yn dweud hynny?

Tasg grŵp 2 - dylai'r rhanddeiliaid dreulio pum munud fel grŵp yn tasgu syniadau ynghylch y rhwystrau a wynebwr gan randdeiliaid i gael gwybodaeth am LYWODRAETH Y CYNULLIAD. Beth sy'n eu rhwystro rhag cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt neu beth sy'n ei gwneud yn anoddach iddynt ei chael?

Dylai'r arweinydd a benodir ysgrifennu awgrymiadau ar siart troi a'u cyflwyno i'r hwylusydd a'u trafod

- Sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn? Pa awgrymiadau sydd gennych i fynd i'r afael â phob un o'r rhwystrau hyn a'i gwneud yn haws i randdeiliaid gael gwybodaeth am LYWODRAETH Y CYNULLIAD? *Holwch:* Beth arall?

Dylai'r hwylusydd gofnodi atebion ochr yn ochr â rhwystrau ar siartiau troi a dylai'r grŵp ddod i gonsensws ar y tri awgrym mwyaf poblogaidd

7. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH Y CYNULLIAD (10 munud)

I gloi, byddwn yn trafod ymgynghoriad LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

Dangoswch y sleid sy'n rhoi diffiniad o ymgynghoriad

- A ydych erioed wedi cymryd rhan yn un o ymgynghoriadau LLYWODRAETH Y CYNULLIAD?
- Os felly, ar pa bwnc / bynciau a phryd? Sut y byddech yn graddio'r broses ymgynghori - da / gwael / dim barn? Pam rydych yn dweud hynny?
- A ydych erioed wedi ystyried cymryd rhan yn un o ymgynghoriadau LLYWODRAETH Y CYNULLIAD neu wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan, ond wedi penderfynu peidio â gwneud hynny? Os felly, beth wnaeth i chi benderfynu peidio â chymryd rhan?
- Sut y gallai Llywodraeth y Cynulliad wella'r broses ymgynghori i randdeiliaid?
Holwch: Pa awgrymiadau eraill?

8. CRYNODEB A GORFFEN

- Oes gan unrhyw un sylwadau eraill i'w gwneud o ran eich perthynas gyda LLYWODRAETH Y CYNULLIAD neu ar unrhyw un o'r themâu a drafodwyd cyn i ni gloi?

Diolch a gorffen

ATODIAD C: DIFFINIAD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU O 'GANOLBWYNTIO AR DDINASYDDION'

Mae ein gweledigaeth yn cyflwyno dinasyddion a chymunedau i hanfod y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio a'u darparu. Dylai gwasanaethau fod yn fwy ymatebol i anghenion defnyddwyr, a dylent fod yn hygyrch i bobl o bob cenhedlaeth ac amgylchiadau yng Nghymru. Caiff gwasanaethau effeithiol eu cynllunio a'u darparu gan gynnwys dinasyddion, cymunedau a busnesau

Ffynhonnell: Creu'r Cysylltiadau

ATODIAD CH: DIFFINIAD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU O YMGYNGHORIAD

Ymarferion ffurfiol yw ymgynghoriadau a gynhelir i geisio safbwyntiau pobl a sefydliadau ar y pethau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu ei wneud. Gellir cynnal ymgynghoriadau mewn sawl ffordd, e.e. dogfennau ffurfiol, wedi'u hargraffu, llythyrau syml, cyfarfodydd cyhoeddus, seminarau, mynediad agored ar-lein, eitemau ar agenda cyfarfodydd safonol gyda rhanddeiliaid

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru